# Cyngor Sir Caerfyrddin 2023

# Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer

## I gyflawni Rhan IV o Ddeddf yr Amgylchedd 1995, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd 2021

## Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol

Dyddiad: (Medi, 2023)

| Gwybodaeth | Manylion Cyngor Sir Caerfyrddin |
|---|---|
| **Swyddog yr Awdurdod Lleol** | Lisa Jones |
| **Adran** | Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel |
| **Cyfeiriad** | Tŷ Parc-yr-hun, Ffordd y Rhyd, Rhydaman, Sir Gaerfyrddin SA18 3FB |
| **Ffôn** | 01269 598255 |
| **E-bost** | lisajjones@sirgar.gov.uk |
| **Rhif Cyfeirnod yr Adroddiad** | Adroddiad Perfformiad Blynyddol Sir Gaerfyrddin 2023 |
| **Dyddiad** | Medi 2023 |

# Crynodeb Gweithredol: Ansawdd Aer yn Ein Hardal

## Ansawdd Aer yn Sir Gaerfyrddin

Y prif lygryn ansawdd aer sy'n berthnasol i Sir Gaerfyrddin yw Nitrogen Deuocsid ($NO_2$) a phrif ffynhonnell allyriadau $NO_2$ yn y sir yw traffig ffyrdd. Rydym wedi datblygu rhwydwaith monitro sy'n dilyn rhai o'n ffyrdd a'n strydoedd mwyaf prysur er mwyn ein galluogi i nodi tueddiadau mewn crynodiadau $NO_2$ ac asesu effeithiolrwydd unrhyw newidiadau a wnaed mewn ymdrech i wella ansawdd aer yn yr ardaloedd hynny.

Mae'r tueddiadau Nitrogen Deuocsid a welwyd yn ystod 2022 wedi parhau i ostwng o gymharu â 2017, 2018 a 2019 ond mae'r canlyniadau monitro wedi dangos cynnydd o gymharu â 2020 gyda chanlyniadau tebyg i'r un a adroddwyd yn 2021. Nid oes unrhyw safleoedd yn Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer Sir Gaerfyrddin wedi mynd y tu hwnt i'r Amcan Ansawdd Aer ar gyfer 2022 am y drydedd flwyddyn yn olynol. Fodd bynnag, roedd dau safle, un yng Nghaerfyrddin ac un yn Llanelli, wedi parhau i gydymffurfio â'r Amcan Ansawdd Aer o drwch blewyn. Mae hyn yn welliant sylweddol ers 2019 pan nodwyd bod un safle yn fwy na'r amcan ansawdd aer yn y sir a bod tri safle arall yn parhau i gydymffurfio o drwch blewyn.

Mae'r duedd hon yn addawol, ond mae llawer o ffactorau a allai fod yn dylanwadu ar y canlyniadau hyn flwyddyn ar ôl blwyddyn, gan gynnwys y tywydd a'r ffaith bod cerbydau yn mynd yn lanach yn gyffredinol wrth i bobl gael rhai newydd yn lle hen rai. Nid oedd y gostyngiad sylweddol mewn Nitrogen Deuocsid yn ystod 2020 yn syndod o ystyried bod Pandemig COVID19 wedi arwain at lawer o gyfyngiadau teithio yn ystod y cyfnodau clo gan gyfyngu ar deithio nad oedd yn hanfodol am gyfnod o amser, a'r pellter a'r rhesymau dros deithio. Roedd yna hefyd gyfnodau hir pryd roedd ysgolion ar gau a phryd anogid trefniadau gweithio gartref lle bo'n bosibl, hyd yn oed pan oedd cyfyngiadau eraill wedi llacio.

Roedd yr ymddygiad teithio yn fwy arferol yn 2021 o'i gymharu â 2020, ond roedd 'cyfnod clo COVID' hefyd yn ystod misoedd cyntaf y flwyddyn, ac agorodd siopau ac ysgolion yn raddol ar ôl hynny rhwng mis Mawrth a mis Ebrill 2021. Nid tan fis Awst 2021 y daeth yr holl gyfyngiadau i ben yn llawn, felly yn sicr gwelsom ostyngiad cyffredinol mewn lefelau traffig yn ystod rhan gyntaf 2021. Er bod traffig wedi dychwelyd i'r lefelau arferol i raddau helaeth, parhaodd llawer o fusnesau, ynghyd â'r Cyngor hwn, i ganiatáu trefniadau

gweithio gartref a gweithio hybrid. Mae hyn wedi parhau drwy 2022 ac mae'n helpu i atal teithio diangen drwy'r Sir, ac mae'n gyfraniad cadarnhaol o fewn ein Hawdurdod ein hunain, o ystyried bod llawer o'n swyddfeydd wedi'u lleoli yn yr Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer.

Ond rydym yn gweld tuedd gyffredinol ar i lawr, flwyddyn ar ôl blwyddyn, gyda gwelliant sylweddol dros y tair blynedd diwethaf. Wrth ddiystyru effaith pandemig COVID, mae'n anodd awgrymu bod gostyngiad digon sylweddol wedi'i nodi dros y tair blynedd diwethaf i gyfiawnhau newidiadau i'r Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer ar hyn o bryd. Fel y crybwyllwyd, gall y tywydd chwarae rhan sylweddol. Gall gwynt a glaw helpu i wasgaru llygryddion yn haws, a gall mwy o heulwen hefyd leihau lefelau nitrogen deuocsid yn yr awyr drwy adweithiau cemegol.

2022 oedd y flwyddyn gynhesaf ar gofnod gyda phob mis heblaw am fis Rhagfyr yn gynhesach na'r cyfartaledd, roedd yn flwyddyn heulog yn gyffredinol. Roedd y glawiad hefyd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer y flwyddyn gyda'r misoedd o Ionawr i Awst a Rhagfyr yn sychach na'r cyfartaledd, tra bod misoedd yr hydref yn wlypach na'r cyfartaledd. Bydd y math hwn o hinsawdd yn cael rhywfaint o ddylanwad ar y canlyniadau rydym yn eu gweld, ac felly mae'n bwysig parhau i gymharu blynyddoedd yn y dyfodol rhag ofn bod patrymau tywydd yn newid yn sylweddol.

Roedd disgwyl y byddwn yn gweld gostyngiad llawer mwy yn ystod 2020-2021 o ystyried bod llai o deithio ar adegau yn ystod y blynyddoedd hynny. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn adlewyrchu'r ymddygiad teithio nodweddiadol cyn COVID-19 ac felly mae'n bwysig parhau i fonitro'r Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer y tu hwnt i gyfnod y pandemig. Ni ragwelwyd y byddai cymaint o ostyngiad mewn lefelau Nitrogen Deuocsid yn ystod 2022 o gymharu â'r ddwy flynedd diwethaf, ar ôl i ymddygiad teithio mwy nodweddiadol ailddechrau. Mae'n ymddangos bod hyn yn amlwg gyda pheth cynnydd ymylol a gostyngiadau mewn Nitrogen Deuocsid wedi'u cofnodi ar draws gwahanol safleoedd ar draws y sir.

Ni ddisgwylir y bydd unrhyw ormodiant ar gyfer 2023, gan i 2023 fod yn flwyddyn gynnes a gwlyb arall gyda chyfnodau heulog yr haf yn darparu llawer o ganlyniadau $NO_2$ misol is o gymharu â 2022. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i gadarnhau hyn ac efallai y bydd yna rai safleoedd sy'n parhau i gydymffurfio'n ffiniol. Fodd bynnag, gobeithio y bydd y duedd gyffredinol ar i lawr yn parhau o gymharu hynny â'r blynyddoedd cyn y pandemig. Y safle sydd â'r risg fwyaf o ormodiant ar gyfer 2023 yw'r un ger 85 Heol y Prior, Caerfyrddin. Mae'r ardal hon yn parhau i roi'r darlleniadau uchaf yn y Sir.

Ar hyn o bryd, mae gan Sir Gaerfyrddin dair Ardal Rheoli Ansawdd Aer yn Llandeilo, Caerfyrddin a Llanelli. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion ar ein gwefan: https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/iechyd-yr-amgylchedd/ansawdd-aer/

Dynodwyd Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llandeilo yn 2011 a datblygwyd cynllun gweithredu yn ddiweddarach yn 2014. Cafodd adolygiad pedwaredd flwyddyn o gynllun gweithredu Llandeilo ei gynnal yn 2019 a chafodd ei gynnwys yn Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer 2019. Mae'r opsiynau sy'n weddill o gynllun gweithredu Llandeilo yn cael eu hystyried i raddau helaeth yn Astudiaeth Trafnidiaeth Llandeilo a Ffair-fach a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru oherwydd swyddogaeth Cefnffordd Strategol yr A483. Yn anffodus, mae'r cyhoeddiad ynghylch y canlyniad a argymhellir ac a ffefrir o ran y gwaith hwn yn parhau i gael ei ohirio.  Gwaetha'r modd, mae hyn wedi gohirio cynnydd ar y gwaith hwn a'r adolygiad o Gynllun Gweithredu Llandeilo. Fodd bynnag, mae camau gweithredu sydd heb eu cwblhau wedi'u hymgorffori yng nghynllun cyflawni Ansawdd Aer diweddaraf y Cyngor. Y bwriad oedd cynnal yr adolygiad hwn yn 2021, ond byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid sy'n ymwneud â'r astudiaeth hon i fonitro cynnydd o ran yr opsiynau hynny sy'n weddill a chydymffurfiaeth yn y maes hwn. 2022 yw'r bedwaredd flwyddyn yn olynol lle roedd pob safle monitro yn Llandeilo yn cydymffurfio â'r Amcan Ansawdd Aer.

Cafodd Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer ar gyfer trefi Caerfyrddin a Llanelli eu dynodi a chyhoeddwyd gorchmynion ym mis Awst 2016. Roedd y cynlluniau gweithredu ar gyfer y ddwy dref yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod 2017. Cafodd yr ymatebion eu hadolygu a chyflwynwyd Cynlluniau Gweithredu drafft i Lywodraeth Cymru ddiwedd 2017. Er bod gwaith eisoes wedi dechrau i asesu a chyflawni rhai o'r mesurau arfaethedig yn y Cynlluniau Gweithredu hyn, cyflwynwyd y Cynllun Gweithredu terfynol ar gyfer Caerfyrddin a Llanelli i Lywodraeth Cymru ddiwedd 2019.

Ni chafodd unrhyw brif ffynonellau newydd o lygredd heb ei reoli neu allyriadau sy'n ffoi eu nodi o fewn y sir yn ystod 2022 ac, er bod llawer o ddatblygiadau ar waith, y bu cynnal asesiadau o’r effaith ar ansawdd yr aer yn ofynnol ar gyfer rhai ohonynt, ni chafodd unrhyw effeithiau sylweddol eu nodi. Gall y gofyniad i gadw at gynllun rheoli llwch/adeiladu cymeradwy fod yn eithaf effeithiol o ran lleihau'r risg i effaith ddibwys.  Er hynny, mae cydweithio â chynllunwyr a datblygwyr yn parhau a, lle bynnag y bo modd, mae mesurau pellach yn cael eu hannog i liniaru unrhyw effaith y gallai datblygiad ei chael ar ansawdd aer.

Nodwyd dau leoliad sy'n ymgorffori boeleri biomas. Cafodd un ei sgrinio i asesu unrhyw effeithiau y gallai eu hachosi ar yr amgylchedd ac ansawdd aer lleol. Mae'r ail leoliad yn ymwneud â chlwstwr mewn safle diwydiannol yn Llangennech, Llanelli lle cyflwynwyd asesiad ansawdd aer i gefnogi cais am drwydded amgylcheddol. Nid yw'r safleoedd o fewn unrhyw un o'r Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid i reoli ansawdd yr aer yn lleol yn Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Awdurdod Cynllunio, yr Awdurdod Priffyrdd, Asiant Cefnffyrdd De Cymru ac ysgolion lleol.

## Camau Gweithredu i Wella Ansawdd Aer

Cafodd ymarferion sgrinio ansawdd aer eu cynnal mewn lleoliadau amrywiol yn ystod 2022 ac ni wnaeth monitro nodi unrhyw achos o fynd yn groes i'r Amcanion. Mae gwaith monitro pellach mewn lleoliadau eraill yn cael ei gyflawni yn ystod 2023 ac adroddir ar y canlyniadau yn Adroddiad Cynnydd 2024.

Mae nifer o welliannau wedi'u gwneud i wella ansawdd aer yn ystod 2022:

- **Seilwaith gwefru cerbydau trydan** wedi'i osod, gan gynnwys Hwb Gwefru Chwim Cross Hands.
- Roedd **Strategaeth Seilwaith Cerbydau Trydan** wedi'i chyhoeddi. Mae i'w gweld yma
- **Strategaeth Seilwaith Gwyrdd a Glas –** lluniwyd cam un yn 2022 ac mae i'w weld yma
- **Gwelliannau beicio gan gynnwys**
    - **Gwefru E-feiciau**
    - **E-feiciau Cargo** – ar gyfer busnesau sy'n dosbarthu nwyddau.
    - **Parcio beiciau** – Wedi'u gosod mewn 27 lleoliad yn Llanelli, Caerfyrddin a Rhydaman ac mewn canolfannau hamdden.
    - **Unedau Atgyweirio Beiciau** wedi'u gosod ledled prif drefi'r Sir.
    - **Llwybrau beicio** yn cael eu hyrwyddo ar y rhyngrwyd a darganfodsirgar.com
- Mae **Prif Gynllun Caerfyrddin** wedi'i greu i edrych ar gynyddu nifer y cysylltiadau teithio llesol ledled y dref.

- Caiff **arwyddion cyfeirio newydd** eu gosod ar draws trefi gydag amseroedd teithio ar droed/ar gefn beic i atyniadau allweddol o arosfannau/gorsafoedd trafnidiaeth gyhoeddus.
- **Gwelliannau llwybrau troed** – Llwybrau teithio llesol a llwybrau troed rhannu defnydd wedi'u cwblhau
- Cyflwynwyd **stryd ysgol** ym Mharc Elkington, Porth Tywyn.
- **Gorchmynion Traffig** sy'n cyfyngu ar stopio y tu allan i ysgolion ynghyd â chamau gorfodi.
- Mae **rhannu ceir** yn cael ei hyrwyddo drwy'r cynllun Liftshare.
- Mae **parthau 20mya** o amgylch ysgolion ac ardaloedd siopa allweddol wedi'u cwblhau.
- Mae **gwaith modelu ac astudiaethau dichonoldeb** cynhwysfawr wedi'u cynnal i werthuso opsiynau i wella'r tagfeydd ar yr A484, Llanelli. Disgwylir canlyniad yr adolygiad ffyrdd. Yn y cyfamser mae gwaith wedi dechrau i hyrwyddo Teithio Llesol gydag ysgolion yn yr ardal.
- Bydd y **gwasanaeth bws T1 Caerfyrddin / Aberystwyth** yn cyflwyno bws trydan T1 erbyn mis Chwefror 2023.
- **Gwelliannau i gasgliadau biniau ac ysgubo ffyrdd** - Cyflwynwyd tri cherbyd casglu sbwriel cwbl drydan o fewn y Fflyd ym mis Ionawr 2023.
- Aseswyd effeithiau **Ffordd Gyswllt Gorllewin Caerfyrddin**.

## Blaenoriaethau a Heriau Lleol

Yr her ar gyfer 2023 fydd cyflawni gostyngiadau pellach a pharhau i gydymffurfio â'n Hamcanion Ansawdd Aer y tu hwnt i 2022 a chefnogi'r newidiadau i ymddygiad teithio i gynnal y gwelliannau hynny.

Bydd gwaith yn parhau mewn partneriaeth i wella ansawdd aer o dan ein Cynllun Cyflawni Ansawdd Aer. Rydym yn parhau i weithio’n agos gyda'n partneriaid i reoli ansawdd yr aer yn lleol yn Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Awdurdod Cynllunio, yr Awdurdod Priffyrdd, Asiant Cefnffyrdd De Cymru ac ysgolion lleol. Mae'r economi yn y cam adfer, ond mae ansicrwydd yn parhau o ran hyd y cyfnod adfer o ystyried dylanwadau geowleidyddol diweddar a dylanwadau eraill. Mae Banc Lloegr wedi rhybuddio am ddirwasgiad gyda chyfraddau llog cynyddol, ac economi a fydd yn crebachu tan ddiwedd 2023, felly gall hyn beri heriau ychwanegol.

Gallwn weld bod angen llawer mwy o waith i hyrwyddo newid i ddulliau teithio cynaliadwy, gan y gall lefelau $NO_2$ ddychwelyd yn gyflym yn sgil mwy o draffig. Bydd dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer Metro De-orllewin Cymru a'r angen am fuddsoddiad i sicrhau newid i ddulliau Teithio Llesol a Thrafnidiaeth Gyhoeddus ynghyd â datblygu'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol y flwyddyn nesaf hefyd yn cael dylanwad mawr ar newid dulliau teithio.

Er nad yw Awdurdodau Lleol yn rheoli'r ysgogiadau i sicrhau newid dulliau teithio, mae llawer iawn o waith wedi'i wneud i ddatblygu seilwaith Teithio Llesol ac ymyriadau newid ymddygiad yn y Sir ac mae gan bob tref fawr Brif Gynllun Teithio Llesol ar waith.

Bydd y blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod yn Sir Gaerfyrddin yn canolbwyntio ar wneud cynnydd o ran y camau gweithredu arfaethedig ar gyfer Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer Caerfyrddin a Llanelli, a gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac Asiant Cefnffyrdd De Cymru i ddilyn cynnydd Astudiaeth Drafnidiaeth Llandeilo sy'n cynnwys y mesurau sy'n weddill o'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Llandeilo. Bydd rhai o'r mesurau allweddol yn cynnwys parthau 20mya ychwanegol ar strydoedd preswyl, arwyddion cyfeirio ychwanegol i helpu cerddwyr i ddod o hyd i'w ffordd, a gwelliannau pellach i lwybrau troed gan gynnwys adeiladu llwybrau troed rhannu defnydd. Bydd adolygiad o wasanaeth Parcio a Theithio Caerfyrddin yn cael ei gwblhau, ynghyd ag adolygiad cyffredinol o fflyd y Cyngor a chwblhau gwasanaeth bws trydan T1 Caerfyrddin / Aberystwyth.

Bydd ymarferion sgrinio hefyd yn cael eu cynllunio i fonitro ac asesu'r effeithiau a ddylai ddod yn sgil Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands a datblygu cynyddol mewn rhannau eraill o'r Sir. Bydd $NO2_2$ yn cael ei fonitro ymhellach yng Nghaerfyrddin a Llanelli i sicrhau nad yw unrhyw gynllun gweithredu a roddir ar waith yn symud y broblem i leoliad arall.

Lle bynnag y bo'n bosibl, bydd ymdrechion yn cael eu gwneud i ymgysylltu ag ysgolion a leolir yn ein Hardaloedd Rheoli Ansawdd Aer i godi ymwybyddiaeth o lygredd aer lleol ac annog teithio llesol. Cynllunnir monitro lefelau nitrogen deuocsid o amgylch gatiau ysgol ar gyfer ysgolion yn y sir sydd yn ein trefi mewn Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cydnabod yr hyn y gellir ei gyflawni i wella ansawdd aer ac mae'r Pandemig COVID-19 wedi darlunio'r sefyllfa orau posib yn 2020, pryd cedwir teithio nad yw'n hanfodol i leiafswm. Rydym hefyd yn cydnabod bod nifer o swyddfeydd y Cyngor wedi'u lleoli o fewn ein Hardaloedd Rheoli Ansawdd Aer, ac felly eir i ymdrech i gynyddu ein cyfraniad ein hunain tuag at wella ansawdd aer.


## Sut i fod yn rhan o hyn

Ansawdd aer yw'r risg amgylcheddol fwyaf i iechyd y cyhoedd o hyd, felly mae llawer o ffyrdd y gallwch chi helpu i wella ansawdd aer yn eich ardal. Ceisiwch leihau'r defnydd o geir ar gyfer teithiau un unigolyn, drwy rannu ceir, defnyddio dulliau teithio amgen cynaliadwy megis cerbydau trydan a thrafnidiaeth gyhoeddus, beicio, neu gerdded i'r gwaith.

Gall trigolion gwledig roi cynnig ar Bwcabus – y Model Trafnidiaeth ar gyfer Cefn Gwlad Cymru yn Sir Gaerfyrddin sy'n darparu mynediad i siroedd cyfagos Powys a Cheredigion. Mae gwasanaeth Bwcabus yn galluogi pobl i deithio rhwng pentrefi a threfi lleol ym mharth Bwcabus neu i gysylltu â'r prif wasanaethau bysiau er mwyn teithio ymhellach i lefydd megis Aberaeron, Aberystwyth, Aberteifi a Chaerfyrddin.

Mae newid eich cerbyd petrol neu ddiesel am gar trydan yn helpu i wella ansawdd aer ac yn lleihau allyriadau lle rydych chi'n teithio. Mae yna hefyd lawer mwy o leoedd ar gael i wefru ceir trydan yn y Sir ac i helpu i gynllunio'ch taith. Gellir canfod rhagor o wybodaeth am gerbydau trydan, lleoliadau gwefru a'r grantiau sydd ar gael yma.

**Map o'r Gorsafoedd Gwefru Ceir Trydan ym meysydd parcio Sir Gaerfyrddin**



Mae 77% o bobl yn Sir Gaerfyrddin yn cymudo mewn car, 0.78% yn cymudo ar feic a 9.5% yn cymudo ar droed. Ein nod yw gweld cynnydd yn nifer y bobl sy'n cymudo ar feic ac ar droed, felly rydym yn eich annog i gymudo cymaint â phosibl trwy deithio llesol.



Os hoffech roi cynnig ar feic trydan neu logi un i gymudo, gallwch logi Beic Trydan Brompton o Orsaf Ddocio yng Ngorsaf Fysiau Caerfyrddin, ym maes parcio Teras Seaview ym Mhorth Tywyn neu yng Ngorsaf Drenau Llanelli. Mae rhagor o wybodaeth am sut i logi beic ar gael yma:

https://www.bromptonbikehire.com/docks/3163-carmarthenbusstation
https://www.bromptonbikehire.com/docks/3164-carmarthenburryport
https://www.bromptonbikehire.com/docks/3165-
llanellihttps://www.bromptonbikehire.cm/docks/3165-llanelli

Teithiwch yn fwy llesol drwy gymryd rhan mewn wythnosau cerdded a beicio cenedlaethol a gwnewch ddefnydd da o'r llwybrau beicio a wellwyd ar draws Sir Gaerfyrddin. Gallwch wella llygredd ger y gatiau ysgol drwy beidio â chadw injans ceir yn rhedeg wrth aros a gwella llwybrau cerdded a beicio ar gyfer ysgolion drwy ymuno â chynlluniau megis Living Streets i annog plant i deithio'n llesol.

Mae rhagor o wybodaeth am deithio llesol megis dod o hyd i lwybr beicio/llwybr troed neu hawl dramwy gyhoeddus ar gael ar ein tudalen we teithio llesol.

Gall unrhyw un gymryd rhan ar Ddiwrnod Aer Glân Cymru, a chyfrannu at ymdrech fyd-eang i wneud yr aer yn lanach ac yn iachach i bawb. Gallwch gael rhagor o wybodaeth drwy fynd i: https://www.cleanairday.org.uk/wales

I gael rhagor o wybodaeth am ansawdd aer yn Sir Gaerfyrddin, ewch i:

https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/iechyd-yr-amgylchedd/ansawdd-aer/

Neu ffoniwch 01267 234567

# Tabl Cynnwys

**Crynodeb Gweithredol: Ansawdd Aer yn Ein Hardal....i**

Ansawdd Aer yn Sir Gaerfyrddin .... i

Camau Gweithredu i Wella Ansawdd Aer .... iv

Blaenoriaethau a Heriau Lleol .... v

Sut i fod yn rhan o hyn.... vii

**1 Camau Gweithredu i Wella Ansawdd Aer ....1**

Gwaith Blaenorol Mewn Perthynas ag Ansawdd Aer .... 1

Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer .... 7

Rhoi Cynlluniau Gweithredu ar Waith .... 12

**2 Data Monitro Ansawdd Aer a Chymhariaeth ag Amcanion Ansawdd Aer ....46**

Crynodeb o Waith Monitro a Wnaed yn 2022 .... 46

2.1.1 Safleoedd Monitro Awtomatig .... 46

2.1.2 Safleoedd Monitro nad Ydynt yn Awtomatig .... 46

Canlyniadau Monitro Ansawdd Aer 2022 .... 68

Cymhariaeth o Ganlyniadau Monitro 2022 â Blynyddoedd Blaenorol a'r Amcanion Ansawdd Aer .... 78

2.1.3 Nitrogen Deuocsid ($NO_2$) .... 83

2.1.4 Deunydd Gronynnol ($PM_{10}$) .... 84

2.1.5 Deunydd Gronynnol ($PM_{2.5}$) .... 85

2.1.6 Llygryddion Eraill a Gaiff eu Monitro .... 85

Crynodeb o Gydymffurfiad ag Amcanion y Strategaeth Ansawdd Aer yn 2022 .... 86

**3 Datblygiadau Lleol Newydd ....87**

Ffynonellau Traffig Ffyrdd (a Thrafnidiaeth Arall) .... 91

Ffynonellau Diwydiannol / sy'n Ffoi neu Heb eu Rheoli / Ffynonellau Masnachol .... 95

3.2.3 Ffynonellau Masnachol neu Ddomestig .... 97

3.3 Ffynonellau Eraill .... 99

**4 Polisïau a Strategaethau sy'n Effeithio ar Lygredd yn yr Awyr ....100**

Strategaeth Ansawdd Aer Leol/Ranbarthol .... 100

Polisïau Cynllunio Ansawdd Aer .... 101

Cynlluniau a Strategaethau Trafnidiaeth Lleol .... 103

Cynlluniau a Strategaethau Teithio Llesol.... 103

Amcanion Llesiant Awdurdodau Lleol .... 104

Cynlluniau a Strategaethau Seilwaith Gwyrdd .... 104

Strategaethau Newid Hinsawdd .... 105

**5 Casgliad a Chamau Gweithredu Arfaethedig ....107**

Casgliadau o Ddata Monitro Newydd .... 107

Casgliadau yn Ymwneud â Datblygiadau Lleol Newydd .... 109

Casgliadau Eraill ........ 110
Camau Gweithredu Arfaethedig ........ 111
**Cyfeiriadau ........ 114**
**Atodiadau ........ 116**
**Atodiad A: Data Sicrhau Ansawdd / Rheoli Ansawdd ........ 117**
**Atodiad B: Crynodeb o Reoli Ansawdd yr Aer yn Lleol ........ 122**
Diben Adroddiad Cynnydd Blynyddol ........ 122
Amcanion Ansawdd Aer ........ 122
**Atodiad C: Sicrhau Ansawdd / Rheoli Ansawdd Data Monitro Ansawdd Aer ........ 124**
Sicrhau Ansawdd / Rheoli Ansawdd Monitro Tiwbiau Tryledu ........ 124
Data Blynyddol Tiwb Tryledu ........ 125
Ffactorau Addasu Tuedd Tiwbiau Tryledu ........ 127
Gostyngiad $NO_2$ gyda Phellter o'r Ffordd ........ 127
**Atodiad D: Mapiau o Ffiniau Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer ........ 130**
**Rhestr Termau ........ 133**

## Tablau

**Tabl 11- Crynodeb o Adrodd ar Reoli Ansawdd yr Aer yn Lleol** .....5
Tabl 1.2 – Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer a Ddatganwyd .....8
Tabl 1.3 – Cynnydd ar Fesurau i Wella Ansawdd Aer .....17
**Tabl 1.4 – Mesurau'r Cynllun Gweithredu a Gwblhawyd neu Nad Ydynt yn cael eu Dilyn a'r Rhesymau dros y Penderfyniad hwnnw** .....43
Tabl 2.1 Canlyniadau sgrinio yn Ffair-fach.....49
Tabl 22 – Manylion Safleoedd Monitro nad Ydynt yn Awtomatig .....51
Tabl 2.3 – Canlyniadau Monitro Tiwb Tryledu $NO_2$ Cymedrig Blynyddol (µg/m$^3$).....68
Tabl 3.1 - Ceisiadau Cynllunio .....87
**Tabl 3.2 – Canlyniadau'r safleoedd y gallai Ffordd Gyswllt Gorllewin Caerfyrddin fod yn effeithio arnynt** .....92
**Tabl 3.3 – Canlyniadau safleoedd y gallai'r gwelliannau i gyffordd Thomas Arms, Llanelli fod yn effeithio arnynt** .....93

## Ffigurau

Ffigur 1 – Map(iau) o Safleoedd Monitro nad ydynt yn Awtomatig.....59
Ffigur 2 - Map o Safleoedd Monitro $NO_2$ Llandeilo nad ydynt yn Awtomatig (AQMA) .....59
Ffigur 3 - Map o Safleoedd Monitro $NO_2$ Caerfyrddin nad ydynt yn Awtomatig (AQMA)....60
Ffigur 4 - Map o Safleoedd Monitro $NO_2$ Llanelli nad ydynt yn Awtomatig (AQMA) .....61
**Ffigur 5 - Map o Safleoedd Monitro $NO_2$ Llanelli nad ydynt yn Awtomatig (dim Ardal Rheoli Ansawdd Aer)**.....62
**Ffigur 6 - Map o Safle Monitro $NO_2$ 16 Heol Trostre, Llanelli nad yw'n Awtomatig (Ymarfer Sgrinio)** .....62
Ffigur 7 - Map o Safleoedd Monitro $NO_2$ Ffair-fach, Llandeilo nad ydynt yn Awtomatig (Ymarfer sgrinio) .....63
Ffigur 8 - Map o Safleoedd Monitro $NO_2$ Porth Tywyn nad ydynt yn Awtomatig .....64
Ffigur 9 - Map o Safleoedd Monitro $NO_2$ Rhydaman nad ydynt yn Awtomatig.....64
**Ffigur 10 - Map o Safleoedd Monitro $NO_2$ yn Llangennech, Llanelli nad ydynt yn Awtomatig** .....65
**Ffigur 11 - Map o Safle Monitro $NO_2$ 16 Stryd Florence,** .....65
Ffigur 12 - Map o Safleoedd Monitro $NO_2$ Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands nad ydynt yn Awtomatig.....66

Ffigur 13 - Map o Safleoedd Monitro $NO_2$ Talacharn nad ydynt yn Awtomatig (Ymarfer Sgrinio) ....67
Ffigur 14 – Tueddiadau o ran Crynodiadau Cymedr Blynyddol $NO_2$....74
Ffigur 15 – Tueddiadau Ardal Rheoli Ansawdd Aer Caerfyrddin o ran Crynodiadau Cymedr Blynyddol $NO_2$ ....74
**Ffigur 16– Tueddiadau Llandeilo o ran Crynodiadau Cymedr Blynyddol $NO_2$**....75
**Ffigur 17– Tueddiadau Llanelli o ran Crynodiadau Cymedr Blynyddol $NO_2$**....76
**Ffigurau 18 – Tueddiadau o ran Crynodiadau Cymedr Blynyddol $NO_2$ y tu allan i Ardal Rheoli Ansawdd Aer**....77
**Ffigur 19: Tuedd Pum Mlynedd yn Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llanelli (Canlyniadau $NO_2$ uchaf)** ....80
**Ffigur** :**20 Tuedd Pum Mlynedd yn Ardal Rheoli Ansawdd Aer Caerfyrddin (Canlyniadau $NO_2$ uchaf)**....82
**Ffigur** :**21 Tuedd Pum Mlynedd yn Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llandeilo (Canlyniadau $NO_2$ uchaf)** ....82
Ffigur 22 : Cymharu canlyniadau nad ydynt yn flynyddol a chanlyniadau blynyddol........126

# 1 Camau Gweithredu i Wella Ansawdd Aer

## Gwaith Blaenorol Mewn Perthynas ag Ansawdd Aer

Aeth Adolygiad ac Asesiad Ansawdd Aer cyntaf Cyngor Sir Caerfyrddin allan ar gyfer ymgynghoriad ar ffurf ddrafft yn ystod haf 2001. Gwnaed yr asesiad gan gyfeirio at Reoliadau Ansawdd Aer 2000. Dim ond sylffwr deuocsid a nitrogen deuocsid a nodwyd yn asesiad Cam 1 fel elfennau lle roedd asesiad Cam 2 yn ofynnol. Daeth yr adolygiad drafft i'r casgliad nad oedd asesiad trydydd cam yn angenrheidiol ar gyfer unrhyw lygrydd.

Mewn ymateb i'r sylwadau a dderbyniwyd oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru o ran lefelau nitrogen deuocsid o draffig ffyrdd, gwnaeth Cyngor Sir Caerfyrddin gomisiynu ymgynghorwyr i gynnal adolygiad ac asesiad trydydd cam o ran lefelau nitrogen deuocsid o draffig ffyrdd ar hyd ffordd benodol.

Cafodd adroddiad terfynol yr adolygiad a'r asesiad trydydd cam ei lunio ym mis Mawrth 2002 a daeth i'r casgliad ei fod yn annhebygol y byddai lefelau nitrogen deuocsid o ffynonellau traffig ffyrdd yn fwy na'r amcanion ac nad oedd unrhyw angen bryd hynny i ddatgan Ardal Rheoli Ansawdd Aer. Fodd bynnag, ystyriwyd ar gyfer asesiadau yn y dyfodol y byddai archwiliad pellach o effeithiau canion strydoedd yn fuddiol.

Dechreuwyd ar Asesiad Diweddaru a Sgrinio yn 2003 a'i gyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2004. Daethpwyd i nifer o gasgliadau ond cafodd cynnydd ar unrhyw rai o'r argymhellion ei ohirio tan i'r canllawiau gael eu cadarnhau. Gwnaeth blaenoriaethau llwythi gwaith o fewn Cyngor Sir Caerfyrddin olygu na chafodd unrhyw ddogfennau ffurfiol pellach eu llunio tan yr Asesiad Diweddaru a Sgrinio nesaf.

Cynhaliwyd Asesiad Diweddaru a Sgrinio yn 2006, a oedd yn cynnwys Adroddiad Cynnydd ar gyfer 2005 (a gyflwynwyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2007), a daeth i'r casgliad nad oedd unrhyw angen symud ymlaen at asesiad manwl ar gyfer carbon monocsid, bensen, 1,3-biwtadïen, plwm, nitrogen deuocsid, sylffwr deuocsid neu $PM_{10}$. Fodd bynnag, daeth yr adroddiad i'r casgliad fod angen astudiaeth cyd-leoliad nitrogen deuocsid er mwyn dilysu'r canlyniadau. Hefyd, er mwyn lleihau'r potensial o amlygiad cyhoeddus i sylffwr deuocsid yng Ngorsaf Rheilffordd Gwili, roedd angen i Adran Diogelu’r Cyhoedd Cyngor Sir Caerfyrddin weithio gyda rheolwyr y cwmni rheilffordd. Mae hyn wedi

parhau gyda chyfarwyddyd gweithio yn ymwneud ag amser segura injans stêm i fod yn llai na 15 munud pan fônt wrth ymyl y platfform.

Gwnaeth yr Adroddiad Cynnydd 2008 gwreiddiol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddod i'r casgliad y bu cynnydd o ran y nifer o safleoedd tiwb a oedd wedi bod yn fwy na'r amcan blynyddol. Roedd cyfanswm o wyth safle wedi methu â bodloni'r amcan, a oedd yn fwy na'r disgwyl ac a oedd wedi cael ei ragfynegi. Nodwyd bod newid sylweddol o ran y ffigur addasu tuedd tiwb a ddefnyddiwyd o'i gymharu â'r ychydig o flynyddoedd blaenorol. Y ffigur oedd 0.90.

Fodd bynnag, ar ôl cyflwyno'r adroddiad, gwnaeth yr awdurdod dderbyn gohebiaeth oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru yn nodi bod y ffigur addasu tuedd diweddaraf wedi cael ei adolygu ac o ganlyniad wedi newid i 0.77. Hefyd, bod defnyddio'r offeryn newydd "$NO_2$ gyda phellter o'r ffyrdd" i bob pwrpas yn lleihau'r nifer o safleoedd tiwb a oedd yn methu'r amcan cymedr blynyddol. Cafodd adroddiad 2008 ei addasu'n fewnol i adlewyrchu'r newidiadau a darparu gwybodaeth hanesyddol gywir. Canlyniad net hyn oedd bod dim ond un lleoliad tiwb perthnasol wedi'i nodi fel un a oedd yn fwy na'r amcan ansawdd aer.

Gwnaeth Asesiad Diweddaru a Sgrinio 2009 nodi'r angen i symud ymlaen at asesiad manwl ar gyfer $NO_2$ yn Llandeilo, yn seiliedig ar fynd y tu hwnt i'r amcan cymedr blynyddol o 40µg/$m^3$ ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf ac nad oedd y gwaith ar y ffordd liniaru arfaethedig yn debygol o ddechrau yn ystod y pum mlynedd nesaf o leiaf. Gwnaeth yr Asesiad Diweddaru a Sgrinio hefyd argymell adolygiad llawn o'r rhwydwaith tiwb tryledu ac asesiadau ar gyfer y meini prawf ychwanegol a nodwyd yng Nghanllawiau Technegol (09).

Gwnaeth Adroddiad Cynnydd 2010 ddarparu manylion yr asesiad manwl a sefydlwyd yn Llandeilo, ynghyd â darparu gwybodaeth am sut roedd y rhwydwaith tiwbiau tryledu wedi newid yn dilyn yr adolygiad yn 2009. Cafodd adolygiadau pellach o'r rhwydwaith tiwb eu hargymell.

Cafodd Adroddiad Asesu Manwl Llandeilo 2010 ei gyflwyno a'i dderbyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2010. Daeth yr adroddiad i'r casgliad y dylai ymgynghoriad cyhoeddus ddechrau ar gyfer y dynodiad arfaethedig o Ardal Rheoli Ansawdd Aer o fewn y dref ac y dylai asesiad pellach ddilyn yr asesiad manwl. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad a chafodd Gorchymyn Ardal Rheoli Ansawdd Aer ei ddatgan ym mis Tachwedd 2011.

Gwnaeth Adroddiad Cynnydd 2011 ddarparu manylion pellach ar gyfer addasiadau i'r rhwydwaith tiwbiau tryledu a chynigion ar gyfer yr asesiadau manwl posibl a allai fod yn ofynnol ar gyfer trefi Caerfyrddin a Llanelli.

Gwnaeth Adroddiad Diweddaru a Sgrinio 2012 adolygu'r gwaith yn Llandeilo ers dynodi'r Ardal Rheoli Ansawdd Aer. Gwnaeth adrodd y byddai cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu ac y byddai hyn yn cael ei gyflawni drwy sefydlu grŵp llywio a grŵp cynllunio gweithredu. Roedd y cynllun gweithredu i'w gyflwyno yn ddiweddarach yn 2013. Wedi'i gynnwys yn yr Asesiad Diweddaru a Sgrinio roedd yr adroddiadau cynigion ar gyfer yr asesiadau manwl i'w cyflawni ar gyfer trefi Caerfyrddin a Llanelli, ynghyd â manylion addasiadau pellach a wnaed o ran y rhwydwaith tiwbiau tryledu yng ngweddill y sir.

Cafodd Adroddiad Asesiad Pellach Llandeilo ei gyflwyno a daethpwyd i'r casgliad fod cyfiawnhad dros yr awdurdod yn dynodi Ardal Rheoli Ansawdd Aer ar gyfer y dref a bod ffin yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer yn briodol. Cafodd gwaith dosrannu ffynonellau ei gyflawni a nodwyd y gostyngiad angenrheidiol mewn $NO_2$. Defnyddiwyd y canlyniadau o'r gwaith asesiad pellach i gynorthwyo gyda datblygu'r cynllun gweithredu.

Cyflwynwyd adroddiadau asesu manwl ar gyfer trefi Caerfyrddin a Llanelli a daethant i'r casgliad nad oedd y canlyniadau monitro wedi nodi'r ardal gormodiant a bod angen mwy o waith i adnabod ffiniau posibl. Cynigiwyd a gweithredwyd addasiadau i rwydweithiau monitro’r asesiadau manwl ar gyfer y ddwy dref o fis Ionawr 2013.

Gwnaeth yr asesiadau manwl a addaswyd barhau drwy gydol 2013 ar gyfer y ddwy dref a gwnaeth adolygiad o'r canlyniadau sefydlu bod yr ardaloedd gormodiant yn lleol iawn ac yn debygol o fod i'w priodoli i nodweddion y lleoliad. Cyflwynwyd adroddiadau ar gyfer y ddau asesiad manwl estynedig ym mis Chwefror 2014 a chafodd y casgliadau a'r argymhellion eu derbyn gan Lywodraeth Cymru.

Gwnaeth gwaith ar Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llandeilo barhau drwy gydol 2013 gyda chynllun gweithredu drafft yn cael ei ddatblygu yn ymgorffori adborth oddi wrth randdeiliaid amrywiol, a chafodd adroddiad ar y gwaith ynghyd â chynllun gweithredu drafft eu cyflwyno ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Medi 2013. Sefydlwyd canolfannau galw heibio mewn dau leoliad (Ffair-fach a Llandeilo) dros gyfnod o bythefnos a defnyddiwyd sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad i adolygu'r cynllun gweithredu drafft. Gellir dod o hyd i fap o ffin Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llandeilo yn Atodiad D: Mapiau o Ffiniau Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer. Yn 2014, cafodd y Cynllun

Gweithredu ei gwblhau a'i gyhoeddi gyda gwaith yn parhau ar gynigion Cam 1. Gwnaeth y broses ddynodi ar gyfer Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer yn nhrefi Caerfyrddin a Llanelli hefyd ddechrau gydag adroddiadau'n cael eu cyflwyno i'r pwyllgorau cyngor amrywiol i'w cymeradwyo. Er y gobeithiwyd y byddai'r gorchmynion wedi cael eu cyhoeddi erbyn diwedd 2015, roedd ymrwymiadau gwaith yn golygu nad oedd hynny'n bosibl.

Cafodd Asesiad Diweddaru a Sgrinio 2015 ei gyflwyno a'i dderbyn.

Gwnaeth y gwaith ar ddynodi'r Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer ar gyfer Caerfyrddin a Llanelli barhau yn ystod 2016 gyda'r gorchmynion yn cael eu llofnodi a'u cyhoeddi ar 2 Awst 2016. Gellir dod o hyd i fapiau o ffin Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer Llanelli a Chaerfyrddin yn Atodiad D. Cafodd cynlluniau gweithredu dilynol ar gyfer Caerfyrddin a Llanelli eu drafftio yn 2017, gan gwmpasu adborth oddi wrth randdeiliaid amrywiol. Cafodd adroddiad o'r gwaith ynghyd â'r cynigion yn y cynllun gweithredu drafft eu cyflwyno wedyn ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Gorffennaf 2017 tan fis Medi 2017. Cafodd sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad eu defnyddio i adolygu'r cynllun gweithredu drafft a chyflwynwyd adroddiad i Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2017.

Gwnaed gwelliannau i'r Cynlluniau Gweithredu gan gynnwys adborth o arfarniad Llywodraeth Cymru, yna ymgynghorwyd ynghylch y cynllun diwygiedig â rhanddeiliaid o grŵp llywio'r cynllun gweithredu ym mis Gorffennaf 2018 a chafodd ei gynnwys yn Adroddiad Cynnydd Blynyddol 2018. Cyflwynwyd y Cynllun Gweithredu terfynol ar gyfer Llanelli a Chaerfyrddin i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo ym mis Rhagfyr 2019. Adroddwyd ar gynnydd y Cynlluniau Gweithredu yn yr adroddiadau cynnydd blynyddol.

Cafodd y Cynllun Gweithredu ar gyfer Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llandeilo ei gynllunio ar gyfer 2020, fodd bynnag bu oedi a chafodd ei ohirio gyda phandemig Covid19. Bwriadwyd cynnal yr adolygiad hwn yn 2022 yn dilyn penderfyniad gan Lywodraeth Cymru i argymell yr opsiwn terfynol a ffefrir ar Ffordd Osgoi Llandeilo, o dan Astudiaeth Trafnidiaeth Llandeilo. Mae'r penderfyniad terfynol, fodd bynnag, yn parhau i gael ei ohirio ac o ganlyniad mae hynny wedi atal y cynnydd hwn. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin bob amser wedi dadlau mai Ffordd Osgoi yw'r unig ateb ymarferol i fynd i'r afael â'r problemau sy'n gysylltiedig â thraffig yr A483 sy'n teithio drwy Landeilo.

Nid oedd Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2020 yn nodi unrhyw achosion o ormodiant o ran yr Amcan Ansawdd Aer blynyddol yn Llandeilo yn ystod 2019, a hynny am y tro cyntaf

ers i'r Ardal Rheoli Ansawdd Aer gael ei datgan. Fodd bynnag, roedd dau safle yn cydymffurfio'n ffiniol.

Yn 2021 datblygodd Cyngor Sir Caerfyrddin gynllun cyflawni Ansawdd Aer ar gyfer y Sir a oedd yn ymgorffori'r holl fesurau oedd heb eu cwblhau o'r Cynlluniau Gweithredu Ansawdd Aer presennol, ar gyfer Llandeilo, Caerfyrddin a Llanelli, ac a oedd yn cynnwys mesurau ychwanegol ledled y sir i helpu i ddylanwadu ar welliannau i ansawdd aer ledled y Sir. Nid oedd Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2021 yn nodi unrhyw achosion o ormodiant o ran yr Amcan Ansawdd Aer blynyddol ym mhob un o'r tair Ardal Rheoli Ansawdd Aer yn y Sir.

Nid oedd Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2022 yn nodi unrhyw achosion o ormodiant o ran yr Amcan Ansawdd Aer blynyddol yn ystod 2021 am y drydedd flwyddyn yn olynol yn Llandeilo ac am yr ail flwyddyn yn olynol yn Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer Caerfyrddin a Llanelli.

**Tabl 11- Crynodeb o Adrodd ar Reoli Ansawdd yr Aer yn Lleol**

| **Adroddiad Ansawdd Aer** | **Cyflwynwyd** |
|---|---|
| Adolygiad Ansawdd Aer Cyntaf (2001) | 2002 |
| Asesiad Diweddaru a Sgrinio (2003) | 2004 |
| Adroddiad Cynnydd (2005) | 2007 |
| Asesiad Diweddaru a Sgrinio (2006) | 2007 |
| Adroddiad Cynnydd (2008) | 2008 |
| Asesiad Diweddaru a Sgrinio (2009) | 2009 |
| Adroddiad Cynnydd (2010) | 2010 |
| Asesiad Manwl Llandeilo (2010) | 2010 |
| Adroddiad Cynnydd (2011) | 2011 |
| Datganiad Ardal Rheoli Ansawdd Aer (Llandeilo) (11/11/11) | 2011 |
| Asesiad Diweddaru a Sgrinio (2012) | 2012 |
| Asesiad Pellach Llandeilo (2012) | 2012 |

| | |
|---|---|
| Asesiad Manwl Caerfyrddin (Rhagfyr 2012) + Adroddiad Rhwydwaith Asesiad Manwl a Addaswyd atodedig (ar gyfer Ionawr 2013) | 2013 |
| Asesiad Manwl Llanelli (Rhagfyr 2012) + Adroddiad Rhwydwaith Asesiad Manwl a Addaswyd atodedig (ar gyfer Ionawr 2013) | 2013 |
| Adroddiad Cynnydd (2013) | 2013 |
| Adroddiad Cynllun Gweithredu Drafft ar gyfer Llandeilo (Ymgynghoriad Cyhoeddus) | 2013 |
| Adroddiad Asesu Manwl Estynedig ar gyfer Caerfyrddin | 2014 |
| Adroddiad Asesu Manwl Estynedig ar gyfer Llanelli | 2014 |
| Adroddiad Cynllun Gweithredu Llandeilo | 2014 |
| Cynllun Gweithredu Llandeilo | 2014 |
| Adroddiad Cynnydd (2014) | 2014 |
| Asesiad Diweddaru a Sgrinio (2015) | 2015 |
| Adolygiad Cyntaf Cynllun Gweithredu Llandeilo (2016) | 2016 |
| Adroddiad Cynnydd (2016) | 2016 |
| Datganiad Ardal Rheoli Ansawdd Aer (Caerfyrddin a Llanelli) (02/08/16) | 2016 |
| Adroddiad Adolygu Sgrinio Ansawdd Aer Sir Gaerfyrddin (2016) | 2017 |
| Adolygiad Ail Flwyddyn Cynllun Gweithredu Llandeilo (2016) | 2017 |
| Adroddiad Cynllun Gweithredu Drafft Caerfyrddin a Llanelli | 2017 |
| Adroddiad Cynnydd (2017) | 2018 |
| Adroddiad Adolygu Sgrinio Ansawdd Aer Sir Gaerfyrddin (2017) | 2018 |
| Cynllun Gweithredu Llandeilo - Trydydd Adolygiad Dichonoldeb o Opsiynau Cam 1 sy'n Weddill (2017) | 2018 |
| Adroddiad Cynnydd Blynyddol (2018) | 2019 |

| | |
|---|---|
| Adroddiad Adolygu Sgrinio Ansawdd Aer Sir Gaerfyrddin (2018) | 2019 |
| Adolygiad pedwaredd flwyddyn Cynllun Gweithredu Llandeilo (2018) | 2019 |
| Cynllun Gweithredu Terfynol ar gyfer Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer Caerfyrddin a Llanelli | 2019 |
| Adroddiad Cynnydd Blynyddol (2019) | 2020 |
| Adroddiad Cynnydd Blynyddol (2020) | 2021 |
| Adroddiad Cynnydd Blynyddol (2021) | 2022 |
| Adroddiad Cynnydd Blynyddol (2022) | 2023 |


## Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer

Mae Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer yn cael eu datgan pan fo ansawdd aer yn agos at neu uwchlaw lefel dderbyniol o lygredd (a adwaenir fel yr amcan ansawdd aer (gweler Atodiad A)). Ar ôl datgan Ardal Rheoli Ansawdd Aer, mae'n rhaid i'r awdurdod baratoi cynllun gweithredu ansawdd aer o fewn 18 mis yn amlinellu'r mesurau mae'n bwriadu eu rhoi ar waith er mwyn gwella ansawdd aer o leiaf at yr amcanion ansawdd aer, os nad hyd yn oed yn well. Mae Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer yn cael eu gweld gan awdurdodau lleol fel y mannau i ganolbwyntio arnynt er mwyn sianelu adnoddau i'r ardaloedd llygredd mwyaf brys fel blaenoriaeth.


Gellir dod o hyd i grynodeb o'r Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer a gafodd eu datgan gan Gyngor Sir Caerfyrddin Tabl 1.2. Mae gwybodaeth bellach sy'n gysylltiedig ag Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer Lleol a ddatganwyd neu a ddiddymwyd, gan gynnwys mapiau o ffiniau Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer, ar gael ar-lein yma: https://uk-air.defra.gov.uk/aqma/local-authorities?la_id=395 Gallwch weld y rhestr lawn yma: gwefan Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer.

**Tabl 1.2 – Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer a Ddatganwyd**


| ARDAL RHEOLI ANSAWDD AER | Amcan(ion) Ansawdd Aer Perthnasol | Sylwadau ar Dueddiadau Ansawdd Aer | Tref | Disgrifiad | Cynllun Gweithred u |
|---|---|---|---|---|---|
| Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llandeilo | Cymedr blynyddol $NO_2$ | Mae canlyniadau monitro eleni yn dangos gwelliant sylweddol mewn ansawdd aer o'i gymharu â'r blynyddoedd cyn Covid. Fodd bynnag, bu cynnydd mewn $NO_2$ o'i gymharu â 2020. Nid oes unrhyw ormodiant wedi'i nodi am y bedwaredd flwyddyn yn olynol. | Llandeilo | Hyd yr A483 o gyffordd cylchfan yr A483 gyda'r A476 yn Ffair-fach i'r gogledd ar hyd Teras Tywi ar hyd Pont Llandeilo i mewn i Stryd y Bont yna Stryd Rhosmaen drwy ganol y dref tan gyffordd cylchfan yr A483 gyda'r A40. | Cynllun Gweithredu Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llandeilo |



| ARDAL RHEOLI ANSAWDD AER | Amcan(ion) Ansawdd Aer Perthnasol | Sylwadau ar Dueddiadau Ansawdd Aer | Tref | Disgrifiad | Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| Ardal Rheoli Ansawdd Aer Caerfyrddin | Cymedr blynyddol $NO_2$ | Mae canlyniadau monitro eleni yn dangos gwelliant sylweddol mewn ansawdd aer o'i gymharu â'r blynyddoedd cyn Covid. Fodd bynnag, gwelwyd cynnydd bychan mewn $NO_2$ yn 2021 ar draws y rhan fwyaf o'r Ardal Rheoli Ansawdd Aer o gymharu â 2020. Ar y cyfan mae gostyngiad bach pellach wedi bod yn 2022. Mae DAC/08 yn parhau i fod â'r lefelau uchaf yng Nghaerfyrddin, er nad oes unrhyw achosion o ormodiant wedi'u nodi ers 2019. | Caerfyrddin | Mae'r ardal ddynodedig yn ymgorffori cyffordd Heol Ffynnon Job ar y B4312 yn Nhre Ioan ac yn teithio tua'r dwyrain i fyny Rhiw'r Gofeb ac i lawr Heol Picton i gyfarfod cylchfan Heol y Gwyddau. Mae'n parhau ar hyd Heol y Gwyddau, gan fynd ar drywydd y gogledd i fyny Heol Dŵr i'r gyffordd â Ffordd Glannant a Heol Pentrefelin, ymlaen i Heol y Sgubor a Theras Francis ac yn parhau i Waun Dew cyn troi i'r dde ar hyd Lôn yr Hen Dderwen a chyrraedd cylchfan yr Hen Dderwen. Mae'r ffin yn troi i'r dwyrain ar hyd Heol y Prior, drwy Abaty'r Ddôl ac mor bell â chylchfan Tanerdy ar yr A484, sef ochr fwyaf dwyreiniol yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer. Yng nghylchfan yr Hen Dderwen mae'r ffin hefyd yn mynd i'r dde ar hyd Heol y Prior a thrwy Heol yr Eglwys, Heol Spilman ac ymlaen i'r gyffordd â'r A484 islaw Neuadd y Sir. Mae'r ffin yn teithio i'r de ar draws Pont Tywi mor bell â chylchfan Pont Tywi, sef graddau deheuol yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer. O'r gyffordd islaw Neuadd y Sir, mae'r ffin yn teithio i'r gorllewin ar hyd Ffordd y Cwrwg ac | Cynllun Gweithredu Ardal Rheoli Ansawdd Aer Caerfyrddin |



| ARDAL RHEOLI ANSAWDD AER | Amcan(ion) Ansawdd Aer Perthnasol | Sylwadau ar Dueddiadau Ansawdd Aer | Tref | Disgrifiad | Cynllun Gweithred u |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ymlaen at gylchfan Morfa cyn anelu i'r gogledd i fyny Lôn Morfa i gyfarfod cylchfan Heol y Gwyddau ac yna mae'n anelu yn ôl i'r gorllewin i gyffordd Heol Ffynnon Job, gan gwblhau ffin yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer. | |
| Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llanelli | Cymedr blynyddol $NO_2$ | Mae canlyniadau monitro eleni yn dangos gwelliant sylweddol mewn ansawdd aer o gymharu â'r blynyddoedd cyn Covid, ond ni fu cynnydd amlwg mewn $NO_2$ yn 2022 yn yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer o gymharu â 2021. Nid oes unrhyw achosion o ormodiant wedi'u nodi ers 2019. | Llanelli | Mae'r ardal ddynodedig yn dechrau o'r rhan o'r A484 sy'n cael ei hadnabod fel Teras Bassett yn bell o'r gorllewin ar y gyffordd â Heol Waun Eos, gan deithio i'r dwyrain drwy Heol y Sandy ac yn cynnwys cylchfan Heol y Sandy. Mae'n parhau i ddilyn y cyfeiriad i'r dwyrain ar hyd A484 Heol Pen-bre cyn troi i'r gogledd i fyny Heol Newydd mor bell â'r gylchfan fach yn Ffwrnais, ac yna mae'n teithio yn ôl ar hyd Hen Heol mor bell â'r gyffordd â Stryd Thomas ar yr A476. Mae'r ffin wedyn yn teithio i'r gogledd-ddwyrain ar hyd yr A476 drwy Heol Felinfoel a Phanteg, mor bell â'r gylchfan fach sy'n ymuno â Rhes y Ffermwyr. Mae'r ffin yn teithio yn ôl i'r de-orllewin ar hyd yr A476 i lawr at Stryd Thomas, gan droi tua'r chwith ar hyd yr A484 a pharhau i'r gylchfan, a throi tua'r dde yn dilyn yr A4214 ar hyd Stepney Place. Mae'r ffin yn parhau ar hyd cyfres o gylchfannau bach, gan fynd drwy Stryd Robinson Uchaf a Stryd Murray cyn troi i'r de ar y gyffordd â Heol yr Orsaf. Mae'r ffin yn parhau ar hyd yr A4214 drwy Stryd yr Eglwys, Stryd y Neuadd, West End i | Cynllun Gweithredu Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llanelli |



| ARDAL RHEOLI ANSAWDD AER | Amcan(ion) Ansawdd Aer Perthnasol | Sylwadau ar Dueddiadau Ansawdd Aer | Tref | Disgrifiad | Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Heol Pen-bre, eto gan gynnwys cylchfan Heol y Sandy, cyn teithio yn ôl i'r gorllewin ar hyd Heol y Sandy ac ymlaen drwy Deras Bassett cyn cwblhau'r ffin ar y gyffordd fwyaf gorllewinol gyda Heol Waun Eos. | |

Gellir gweld mapiau o ffiniau Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer yn Sir Gaerfyrddin ar https://uk-air.defra.gov.uk/aqma/local-authorities?la_id=395 ac maent wedi'u cynnwys yn Atodiad D.

## Rhoi Cynlluniau Gweithredu ar Waith

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi bwrw ati gyda nifer o fesurau yn ystod 2022 ar drywydd gwella ansawdd aer lleol. Mae manylion yr holl fesurau a gwblhawyd, sydd ar waith neu'n cael eu cynllunio yn cael eu nodi yn Tabl 1.3. Gellir dod o hyd i fwy o fanylion ar y mesurau hyn yn y Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer sy'n ymwneud ag unrhyw Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer Lleol dynodedig.

Mae'r Cynlluniau Gweithredu Ansawdd Aer yn cael eu hadolygu'n gyson ac yn cael eu diweddaru pan gredir bod hynny'n angenrheidiol, ond nid yn llai aml nag unwaith bob pum mlynedd. Mae diweddariadau o'r fath yn cael eu cwblhau mewn ymgynghoriad agos â chymunedau lleol.

Mesurau allweddol a gafodd eu cwblhau yn 2022 oedd:

- Datblygwyd y **Strategaeth Seilwaith Cerbydau Trydan** yn 2021 a chafodd ei mabwysiadu a'i chyhoeddi yn 2022. Gellir ei gweld yma
- Mae **seilwaith gwefru cerbydau trydan** wedi ac yn parhau i gael ei datblygu ar draws y Sir mewn lleoliadau strategol gyda blaenoriaeth ar lwybrau strategol, atyniadau/cyrchfannau teithiau ac adfywio;
  - Mae 43 o bwyntiau gwefru wedi'u lleoli mewn trefi, lleoliadau ymwelwyr, canolfannau hamdden ac ar y rhwydwaith priffyrdd strategol.
  - Ar hyn o bryd caiff seilwaith gwefru ei osod mewn depos allweddol i gefnogi'r trawsnewid i Gerbydau Allyriadau Isel Iawn.
  - Agorodd Hwb Gwefru Chwim Cross Hands i'r cyhoedd ddiwedd mis Mawrth 2022.
- **Strategaeth Seilwaith Gwyrdd a Glas –** cynhyrchwyd cam un yn 2022 a gellir ei gweld yma
- **Gwefru E-feiciau** – Gwnaed gwaith ffisegol i 8 Gorsaf Gwefru E-feiciau ar draws y sir. Cwblhawyd 4 safle yn 2022 a 3 safle yn 2023, gydag un i'w osod yn natblygiad Pentywyn pan fydd y prosiect wedi'i gwblhau ym mis Mawrth 2023.
- **E-feiciau Cargo** – Mae 12 beic wedi'u prynu i gynorthwyo busnesau lleol i ddosbarthu nwyddau. Mae cynllun cyfathrebu wedi'i drefnu i hyrwyddo'r cynllun. Bydd uned yn cael ei defnyddio drwy AGB Llanelli. Bydd hwn yn faes gwaith parhaus i ysgogi defnydd a chefnogi busnesau trwy'r broses adfer.
- **Parcio beiciau -** Mannau parcio beiciau newydd wedi'u gosod mewn 27 lleoliad yn Llanelli, Caerfyrddin a Rhydaman ac mewn canolfannau hamdden. 20 o unedau

atgyweirio beiciau wedi'u gosod ledled prif drefi'r Sir. Cafodd Mannau Parcio Beiciau cysgodol hefyd eu gosod yng Nghanolfan Hamdden Caerfyrddin, Marchnad Caerfyrddin a Stryd y Cei Rhydaman ym mis Tachwedd 2022.

- Mae **prif gynllun Caerfyrddin** wedi'i greu i edrych ar gynyddu nifer y cysylltiadau teithio llesol ledled y dref ac mae astudiaethau dichonoldeb ar y gweill yn 2023.
- **Llwybrau beicio** yn cael eu hyrwyddo ar y rhyngrwyd a darganfodsirgar.com Caiff **arwyddion cyfeirio newydd** eu gosod ar draws trefi gydag amseroedd teithio ar droed/beicio i atyniadau allweddol o arosfannau/gorsafoedd trafnidiaeth gyhoeddus.
- Caiff staff eu hannog i **rannu ceir** drwy'r cynllun Liftshare.
- Trwyddedwyd tacsi trydan ychwanegol, gan ddod â chyfanswm tacsis trydan y sir i bedwar.
- Mae parthau **20mya** o amgylch ysgolion ac ardaloedd siopa allweddol wedi'u cwblhau ac mae ffyrdd preswyl pellach hefyd wedi'u nodi i elwa o 20mya.
- **Gwelliannau i gasgliadau biniau ac ysgubo ffyrdd -** Mae'r llwybrau newydd wedi'u cynllunio er mwyn eu gwneud yn fwy effeithlon, symud i weithio mewn parthau, gan leihau'r angen i gerbydau fod yn teithio ar draws y sir gyfan ar unrhyw ddiwrnod penodol. Cyflwynwyd tri cherbyd casglu sbwriel cwbl drydan o fewn y Fflyd ym mis Ionawr 2023.
- Mae **gwaith modelu ac astudiaethau dichonoldeb** cynhwysfawr wedi'u cynnal i werthuso opsiynau i wella'r tagfeydd ar yr A484, Llanelli. Mae'r opsiynau wedi bod yn destun ymgynghoriad â rhanddeiliaid. Ar y cyfan, roedd cefnogaeth i welliannau seilwaith. Roedd y gwaith yn rhan o astudiaeth ehangach ar gyfer seilwaith yn Llanelli a oedd yn destun yr Adolygiad Ffyrdd. Disgwylir canlyniad yr adolygiad ffyrdd. Yn y cyfamser mae gwaith wedi dechrau i hyrwyddo Teithio Llesol gydag ysgolion yn yr ardal. Bydd yr ymyriadau yn helpu i wneud trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy dibynadwy.
- **Gwelliannau llwybrau troed** – Mae gwaith yn parhau i gael ei wneud i wella llwybrau teithio llesol a llwybrau troed rhannu defnydd yn dilyn yr ymatebion i'r ymgynghoriad teithio llesol i wella cysylltedd teithio llesol. Mae ein Strategaeth Teithio Llesol yn cynnwys Prif Gynllun Teithio Llesol i ddatblygu seilwaith ar gyfer pob prif dref.
- Gweithredwyd a hyrwyddwyd **stryd ysgol** ym Mharc Elkington, Porth Tywyn, gyda char camera yn ei gorfodi.

- Mae'r gwasanaeth bws **T1 Caerfyrddin / Aberystwyth** wrthi'n trosglwyddo i fflyd drydan. Ar y ffordd i ddarparu bws trydan T1 erbyn mis Chwefror 2023 mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru.
- Mae effeithiau **Ffordd Gyswllt Gorllewin Caerfyrddin** wedi cael eu monitro a'u hasesu. Mae tiwbiau tryledu wedi'u gosod ar y llwybr arall (Hen Heol Sanclêr a Heol Ffynnon Job) sy'n teithio drwy Ardal Rheoli Ansawdd Aer Caerfyrddin, i nodi a fu gostyngiad mewn traffig a $NO_2$ yn dilyn hynny ar hyd y ffyrdd hyn. Mae Ffordd y Coleg hefyd wedi ei chynnwys fel y gallwn nodi a yw'r ffordd gyswllt wedi arwain at unrhyw gynnydd mewn traffig a llygredd sy'n teithio drwy'r ardal hon. Y farn oedd nad oedd data 2020 a 2021 yn adlewyrchiad cywir o unrhyw effaith y mae'r ffordd gyswllt hon wedi'i chael ac felly mae'r gwaith monitro wedi parhau.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn disgwyl i'r mesurau canlynol gael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn adrodd nesaf:

I ddechrau, y bwriad oedd cychwyn ar y gwaith ar adeiladu ffordd liniaru Llandeilo ar ddiwedd 2019. Fodd bynnag, ar ddechrau 2020 cafodd y gwaith hwn wedyn ei ohirio tan Hydref 2022 er mwyn ystyried amcanion ddaeth i law yn ystod y broses ymgynghori. Y bwriad wedyn oedd cynnal ymgynghoriad pellach gyda rhanddeiliaid tua Tachwedd-Rhagfyr 2019, ond yng ngoleuni'r gwaith pellach sydd ei angen, trefnwyd yr ymgynghoriad WelTAG Cam 2 diweddaraf hwn ar yr astudiaeth hon ar gyfer Ebrill 2020, ond yn anffodus cafodd ei ohirio eto i fis Medi 2020, oherwydd pandemig COVID. Cyhoeddwyd diweddariad pellach yn nodi na fyddai'r gwaith yn dechrau tan 2025 ar gyfer mesur hirdymor fel hwn. Serch hynny bydd gwaith ar fesurau byrrach a mwy yn y tymor canolig yn digwydd yn gynt. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn dal i aros am y canlyniad terfynol a argymhellir yn dilyn asesiad WelTAG Cam 2 gan Lywodraeth Cymru, a ohiriwyd i'w gyhoeddi yng ngaeaf 2022. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn parhau i fod o'r farn mai Ffordd Osgoi yw'r unig opsiwn a fydd yn sicrhau gwelliannau sylweddol i Ansawdd Aer ac yn cefnogi mesurau cyd-fuddiol eraill i wella diogelwch cerddwyr ac annog mwy o deithio llesol.

# 2 Data Monitro Ansawdd Aer a Chymhariaeth ag Amcanion Ansawdd Aer

## Crynodeb o Waith Monitro a Wnaed yn 2022

### 2.1.1 Safleoedd Monitro Awtomatig

Mae'r adran hon yn nodi pa fonitro sydd wedi digwydd a sut mae'r canlyniadau yn cymharu â'r amcanion.

Nid oes gan Gyngor Sir Caerfyrddin unrhyw safleoedd monitro awtomatig (parhaus) o fewn ei ardal weinyddol.

### 2.1.2 Safleoedd Monitro nad Ydynt yn Awtomatig

Gwnaeth Cyngor Sir Caerfyrddin gyflawni gwaith monitro $NO_2$ nad yw'n awtomatig (goddefol) mewn 94  safle yn ystod 2022.MaeTabl 22 – Manylion Safleoedd Monitro nad Ydynt yn Awtomatig yn cyflwyno manylion y safleoedd.

Darperir mapiau sy'n dangos lleoliad y safleoedd monitro yn Ffigur 1 – Map(iau) o Safleoedd Monitro nad ydynt yn Awtomatig. Mae manylion pellach ar Sicrhau Ansawdd/Rheoli Ansawdd ac addasiad tuedd ar gyfer y tiwbiau tryledu wedi eu cynnwys yn Atodiad C.

## 2.1.3 Manylion yr ymarferion sgrinio

### 2.1.3.1 Sgrinio yn Nhalacharn

Cafodd gwaith monitro Nitrogen Deuocsid yn Nhalacharn ei sefydlu ar gyfer 2022 yn dilyn adroddiadau am gynnydd mewn teithio, yn enwedig yn ystod cyfnodau'r haf.  Gwelodd yr ardal gynnydd mewn ymwelwyr yn ystod y pandemig pan anogwyd 'gwyliau aros gartref' a bu datblygiad hefyd i gynyddu'r safleoedd gwersylla lleol. Nid oes llawer o draffig yn yr ardal er bod nifer o gerbydau nwyddau trwm a thractorau yn defnyddio'r prif lwybr sy'n teithio drwy'r dref. Mae'r dirwedd yn gul iawn mewn mannau, gyda therasau o adeiladau. Ystyriwyd y byddai'r dref yn elwa ar fonitro Nitrogen Deuocsid yn ystod 2022, i asesu'r pryderon a godwyd. Gosodwyd pedwar safle tiwb tryledu gyda'r cyfeirnodau LAN/1, LAN/2, LAN/3 a LAN/4 fel y dangosir yn Ffigur 13 - Map o Safleoedd Monitro $NO_2$

Talacharn nad ydynt yn Awtomatig (Ymarfer Sgrinio) , a leolir yn Stryd Clifton, Stryd Wogan a Heol Gosport. Yn ystod 2022 rhoddodd LAN/1, LAN/3 a LAN/4 ganlyniadau blynyddol tebyg o 8.6µg/m$^3$, 8.4µg/m$^3$ ac 8.1µg/m$^3$ yn y drefn honno. Fodd bynnag, rhoddodd LAN/2, sydd wedi'i leoli y tu allan i feddygfa deulu ac ar ael gul bryn, ganlyniad blynyddol ychydig yn uwch o 10.1µg/m$^3$. Serch hynny, ni thorrwyd ar yr amcan ansawdd aer o gwbl yn unrhyw un o'r lleoliadau sgrinio a aseswyd.

**2.1.3.2 Sgrinio yn Llanelli**

Mae'r gwaith sgrinio yn ward Tyisha yn Llanelli, i'r de o ffin Ardal Rheoli Ansawdd Aer, wedi parhau ers 2020. Mae pedwar safle wedi'u lleoli ar hyd Heol yr Orsaf, Llanelli gan gynnwys TYL2, TYL3, TYL4 a TYL5, ac roeddent i gyd yn rhoi canlyniadau rhwng 13.6µg/m$^3$ a 15.7µg/m$^3$. Mae tiwb tryledu arall, ymhellach i'r de o'r heol hon ac i'r de o Orsaf Reilffordd Llanelli yn Heol y Doc Newydd, ac sydd â'r label TYL1, yn rhoi canlyniad ychydig yn uwch o 18.6µg/m$^3$. Gosodwyd TYL5 i ddisodli TYL3 gerllaw, nad oedd modd mynd ato tua diwedd 2021 oherwydd gwaith sgaffaldau. Serch hynny, mae TYL5 wedi'i leoli ar ffasâd eiddo preswyl ac mae'n caniatáu amlygiad mwy cynrychioladol, tra bod TYL3 ar bolyn lamp ar ochr y ffordd, felly penderfynwyd tynnu TYL3 i lawr yn ystod 2022. Gellir gweld map o leoliadau y safleoedd tiwb yn Ffigur 5 - Map o Safleoedd Monitro **$NO_2$ Llanelli** Mae datblygiad wedi'i gynllunio yn yr ardal hon ac felly dylai monitro helpu i nodi unrhyw effeithiau yn y dyfodol.

Sefydlwyd safle tiwb newydd hefyd ar bolyn lamp ger 12 George Street, Llanelli a chafodd y cyfeirnod TYL6. Mae datblygiad pellach wedi'i gynllunio gerllaw Ysgol Penrhos ac adroddwyd bod y stryd gul hon o dai teras yn dioddef tagfeydd yn ystod yr oriau brig. Gellir dod o hyd i leoliad y safle hwn hefyd yn **Ffigur 5.** Adroddodd yr astudiaeth sgrinio 12 mis ganlyniad blynyddol o 9.5µg/m$^3$ ac roedd felly'n sylweddol is na'r amcan ansawdd aer.

Sefydlwyd safle newydd yn 16 Heol Trostre, Llanelli (Carm/146) tua diwedd 2021, yn dilyn pryderon am faint y traffig ac ansawdd aer yn effeithio ar iechyd trigolion. Dangosodd cyfrifiadau traffig a gynhaliwyd yn 2017 oddeutu 16337 AADT, gan ostwng i 13500 yn 2020. Dim ond gwerth pedwar mis o ddata dilys a gasglwyd rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2021 a'r canlyniad blynyddol oedd 2021µg/m$^3$ sy'n is na'r amcan ansawdd aer. Fodd bynnag, bydd y safle yn parhau i gael ei sgrinio tan ddiwedd 2022, o ystyried maint y traffig ac i roi gwell darlun o'r amlygiad wrth i ymddygiad teithio arferol ailddechrau. Roedd canlyniad blynyddol 2022 yn welliant bach o gymharu â'r flwyddyn flaenorol sef 13.8µg/m$^3$.

Cwblhawyd y gwaith sgrinio ar y safle hwn a thynnwyd y safle tiwb gan ei fod yn dangos cydymffurfiaeth â'r Amcan Ansawdd Aer.

Roedd dau safle tiwbiau tryledu yn parhau i fonitro $NO_2$ yn ymyl y ffordd yn Llangennech, Llanelli, sef pentref sydd cryn bellter o ffin Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llanelli. Er hynny, mae'r brif ffordd sy'n teithio drwy'r pentref yn eithaf cul mewn mannau ac mae sawl tŷ teras yno, ac mae'r lle cyfyng ar y ffordd yn creu anawsterau i draffig dwyffordd fynd heibio ar yr un pryd sy'n gallu arwain at dagfeydd yn ystod oriau brig. Sefydlwyd tiwbiau i ddechrau yn 2019 ar gyfer astudiaeth 9 mis ond maent wedi parhau i fonitro unrhyw newidiadau a allai godi o ddatblygiadau'r dyfodol. Mae'r ddau safle yn monitro allyriadau ochr y ffordd ar Stryd y Bont (LLG3) a Heol Afon (LLG2). Gellir gweld map yn **Ffigur 10 - Map o Safleoedd Monitro NO2 yn Llangennech, Llanelli nad ydynt yn AwtomatigFfigur 10**. Ni nodwyd unrhyw ormodiant o ran yr amcan ansawdd aer gan fod y ddau safle wedi cofnodi lefel crynodiad o dan 16µg/$m^3$.

Sefydlwyd dau safle ychwanegol newydd hefyd yn Llangennech yn 2022 gyda'r cyfeirnodau LLG4 a LLG5. Maent wedi'u lleoli yng nghyffiniau Parc Busnes y Strade i adolygu ac asesu lefelau amgylchynol presennol $NO_2$. Mae hyn yn dilyn gwybodaeth am nifer o foeleri biomas sy'n gweithredu yn yr ystâd ddiwydiannol a phryderon gan breswylwyr am gynigion am drwydded i losgi pren gwastraff heb ei halogi. Gellir dod o hyd i leoliad y safle hefyd yn **Ffigur 10**. Canlyniadau blynyddol 2022 ar gyfer LLG4 a LLG5 oedd 9.1µg/$m^3$ a 6.9µg/$m^3$ yn y drefn honno. Bydd LLG5 yn cael ei dynnu i lawr ar gyfer 2023, er y bydd yna safle newydd arall yn cael ei nodi yn y cyffiniau. Bydd hwn yn fwy cynrychioliadol o amlygiad y preswylwyr er mwyn parhau i fonitro unrhyw newidiadau o'r newid mewn tanwydd i bren gwastraff.

#### 2.1.3.3 Sgrinio yn Ffair-fach, Llandeilo

Ym mis Chwefror 2021, ailosodwyd safleoedd tiwbiau tryledu yn ardal Ffair-fach, i'r de o ffin Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llandeilo. Roedd yr ardal hon wedi'i monitro yn flaenorol a'i gwaredu yn 2018 yn sgil cofnodi canlyniadau isel. Fodd bynnag, roedd cynlluniau i gael gwared ar y gylchfan a chyflwyno goleuadau traffig yn lle hynny, er mwyn gwella diogelwch cerddwyr gan ei fod yn llwybr a ddefnyddir yn aml gan blant sy'n cerdded i'r ysgolion cyfagos. Penderfynodd asesiad ansawdd aer na ddylai'r newid gael effaith sylweddol ar ansawdd aer, ond gallai gynyddu rhywfaint o dagfeydd a chiwiau ar yr adegau prysuraf. Roedd y safleoedd yn cynnwys FA/03(A), FA/04(A), FA/06(A) a FA/07(A). Gellir gweld map o leoliad y safle tiwb yn Ffigur 7 - Map o Safleoedd Monitro NO2 Ffair-fach, Llandeilo nad ydynt yn Awtomatig (Ymarfer sgrinio). Gellir gweld y

canlyniadau blynyddol yn Nhabl 2.1 isod, a rhoddodd FA/03(A) y darlleniad uchaf sydd wedi'i leoli o fewn ffin ddeheuol Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llandeilo.

**Tabl 2.1 Canlyniadau sgrinio yn Ffair-fach**

| Cyfeirnod y Safle | Enw'r Safle | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|
| **FA/04(A)** | Capel Ffair-fach | 8.9 | 9.9 |
| **FA/06(A)** | 10 Heol Myrddin, Ffair-fach | 10.5 | 11.7 |
| **FA/03(A)** | 29 Teras Tywi | 14.2 | 16.6 |
| **FA/07(A)** | Heol Bethlehem (gyferbyn â'r ysgol) | 5.8 | 6.5 |

Gorffennodd y gwaith i'r goleuadau traffig yn 2021, ac mae canlyniadau monitro 2022 wedi dangos cynnydd bach mewn lefelau $NO_2$. Gallai hyn fod wedi deillio o fwy o dagfeydd neu efallai oherwydd cynnydd cyffredinol mewn traffig o gymharu â 2021, o ystyried bod cyfyngiadau symud dros dro COVID hefyd wedi bod yn 2021. Derbyniwyd cwynion am lefel y tagfeydd ar adegau brig, felly bydd y gwaith monitro yn parhau i mewn i 2023 i asesu'r effaith lawn.

#### 2.1.3.4 Sgrinio yn Cross Hands

Parhaodd y gwaith monitro yn ardal gyfagos y Ffordd Gyswllt Economaidd arfaethedig yn Cross Hands (Carm/ELR 9, 10, 11, 12, 21 a 22). Cafodd Carm/ELR 16, 19 ac 20) a thri o fewn y SoDdGA (Carm/ELR6, 7 ac 8) sydd wedi'u lleoli wrth ymyl y ffordd gyswllt economaidd eu gwaredu ar gyfer 2020 a 2021 oherwydd bod y gwaith adeiladu yn symud i gam arall, er i'r rhain gael eu hailosod yn ystod 2022. Fodd bynnag, nid oedd modd ailosod Carm/ELR 14, 15 a 18 ar ôl eu gwaredu yn 2019 am eu bod wedi'u lleoli wrth ochr y ffordd gyswllt newydd a'u bod yn rhwystro'r gwaith adeiladu. Bydd yr ymarfer sgrinio hwn yn ein galluogi i fonitro lefelau presennol $NO_2$, monitro unrhyw effeithiau yn ystod y gwaith adeiladu ac asesu'r effaith y bydd y ffordd gyswllt economaidd yn ei chael ar ôl ei chwblhau a'i hagor yn Awst 2022. Gellir gweld map o'r ardal a safleoedd y tiwbiau yn **Ffigur 12 - Map o Safleoedd Monitro NO2 Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands nad** ydynt yn Awtomatig. Hyd yma ni fu unrhyw effeithiau sylweddol yn ystod y gwaith adeiladu. Bydd asesiad llawn yn cael ei wneud yn adroddiad cynnydd blynyddol 2024, a fydd yn cynnwys data 2023 ar ôl agor y ffordd gyswllt newydd.

Darperir mapiau sy'n dangos lleoliad y safleoedd monitro yn **Ffigur 1 – Map(iau) o Safleoedd Monitro nad** ydynt yn Awtomatig. Mae manylion pellach ar Sicrhau

Ansawdd/Rheoli Ansawdd ac addasiad tuedd ar gyfer y tiwbiau tryledu wedi eu cynnwys yn **Atodiad C: Sicrhau Ansawdd / Rheoli Ansawdd Data** Monitro Ansawdd Aer .

**Tabl 22 – Manylion Safleoedd Monitro nad Ydynt yn Awtomatig**

| Cyfeirnod y Safle | Enw'r Safle | Math o Safle | Yn Gysylltiedig ag Ardal Rheoli Ansawdd Aer a Enwir? | Cyfeirnod Grid X yr Arolwg Ordnans | Cyfeirnod Grid Y yr Arolwg Ordnans | Uchder y Safle (m) | Wedi'i Gasglu gyda Dadansoddwr Parhaus? | Y pellter o'r monitor i'r amlygiad perthnasol agosaf (m) (1) | Y Pellter o'r Palmant i'r Amlygiad Perthnasol Agosaf (m) | Y Pellter o'r Palmant i'r Monitor (m) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Carm/089 | Rhydaman – Lôn Tir y Dail (2) | Ar ymyl y ffordd | Ddim yn berthnasol | 262804 | 212204 | 2.6 | Nac ydy | 0.5 | 1.5 | 1.0 |
| Carm/064 | Rhydaman – Stryd y Gwynt | Ar ymyl y ffordd | Ddim yn berthnasol | 262936 | 212285 | 2.9 | Nac ydy | 1.0 | 3.0 | 2.0 |
| Carm/090 | Rhydaman – y Stryd Fawr (2) | Ar ymyl y ffordd | Ddim yn berthnasol | 263028 | 212324 | 2.8 | Nac ydy | 0.0 | 3.0 | 3.0 |
| DAL/14 | 10 Heol y Sandy | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | Llanelli | 249701 | 200598 | 2.8 | Nac ydy | 0.0 | 4.9 | 4.9 |
| DAL/15 | 33 Heol y Sandy | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | Llanelli | 249727 | 200608 | 2.5 | Nac ydy | 0.0 | 4.7 | 4.7 |
| Carm/077 | Heol y Sandy (2) | Ar ymyl y ffordd | Llanelli | 249606 | 200638 | 2.8 | Nac ydy | 4.0 | 5.7 | 1.7 |
| DAL/22 | 44 Heol y Sandy (3) | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | Llanelli | 249610 | 200632 | 2.8 | Nac ydy | 0.0 | 5.6 | 5.6 |
| DAL/26 | 123 Heol y Sandy | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | Llanelli | 249483 | 200713 | 2.6 | Nac ydy | 0.0 | 7.5 | 7.5 |
| DAL/27 | Heol y Sandy (4) | Ar ymyl y ffordd | Llanelli | 249483 | 200709 | 2.9 | Nac ydy | 4.2 | 7.5 | 3.3 |
| DAL/16 | 96 Heol y Sandy | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | Llanelli | 249456 | 200706 | 2.7 | Nac ydy | 0.0 | 5.1 | 5.1 |
| DAL/17 | 131 Heol y Sandy | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | Llanelli | 249463 | 200724 | 2.8 | Nac ydy | 0.0 | 5.3 | 5.3 |
| Carm/141 | Llanelli – 3 Hen Heol | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | Llanelli | 250649 | 200786 | 2.9 | Nac ydy | 0.0 | 1.5 | 1.5 |
| DAL/07 | Ger 13 Heol Felinfoel | Ar ymyl y ffordd | Llanelli | 250717 | 200818 | 2.8 | Nac ydy | 0.5 | 1.3 | 0.8 |
| DAL/23 | 50 Heol Felinfoel | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | Llanelli | 250754 | 200870 | 2.9 | Nac ydy | 0.0 | 2.1 | 2.1 |

| Cyfeirnod y Safle | Enw'r Safle | Math o Safle | Yn Gysylltiedig ag Ardal Rheoli Ansawdd Aer a Enwir? | Cyfeirnod Grid X yr Arolwg Ordnans | Cyfeirnod Grid Y yr Arolwg Ordnans | Uchder y Safle (m) | Wedi'i Gasglu gyda Dadansoddwr Parhaus? | Y pellter o'r monitor i'r amlygiad perthnasol agosaf (m) (1) | Y Pellter o'r Palmant i'r Amlygiad Perthnasol Agosaf (m) | Y Pellter o'r Palmant i'r Monitor (m) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DAL/09 | Stryd Thomas (Barnardos) | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | Llanelli | 250709 | 200673 | 2.8 | Nac ydy | 0.0 | 2.7 | 2.7 |
| Carm/104 | Stryd Thomas (2) | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | Llanelli | 250719 | 200689 | 3.0 | Nac ydy | 0.0 | 1.7 | 1.7 |
| DAL/10 | Stryd Thomas (Siop Briodas) | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | Llanelli | 250734 | 200603 | 2.7 | Nac ydy | 0.0 | 1.6 | 1.6 |
| Carm/069 | West End | Ar ymyl y ffordd | Llanelli | 250458 | 200603 | 2.8 | Nac ydy | 6.0 | 6.2 | 0.2 |
| DAL/12 | West End (Creative Cakes) | Ar ymyl y ffordd | Llanelli | 250411 | 200616 | 2.8 | Nac ydy | 1.7 | 1.9 | 0.2 |
| DAL/28 | West End, Ysgol Pentip | Ar ymyl y ffordd | Llanelli | 250344 | 200631 | 2.4 | Nac ydy | 0.4 | 2.8 | 2.4 |
| DAL/04 | 51 Heol Panteg | Ar ymyl y ffordd | Ddim yn berthnasol | 251623 | 201976 | 2.8 | Nac ydy | 0.3 | 1.3 | 1.0 |
| Carm/114 | Panteg | Ar ymyl y ffordd | Ddim yn berthnasol | 251665 | 202013 | 2.7 | Nac ydy | 0.4 | 1.6 | 1.2 |
| Carm/113 | Cwm Lliedi | Ar ymyl y ffordd | Ddim yn berthnasol | 251951 | 202411 | 2.9 | Nac ydy | 0.4 | 1.5 | 1.1 |
| Carm/135 | 23 Teras Bassett | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | Llanelli | 248512 | 200892 | 2.5 | Nac ydy | 0.0 | 1.7 | 1.7 |
| TYL1 | 34 Heol yr Orsaf | Ar ymyl y ffordd | Ddim yn berthnasol | 250567 | 199977 | 2.8 | Nac ydy | 0.2 | 5.2 | 5.0 |
| TYL2 | 132 Heol yr Orsaf | Ar ymyl y ffordd | Ddim yn berthnasol | 250713 | 199530 | 2.5 | Nac ydy | 0.3 | 5.1 | 4.8 |
| TYL3 | 107 Heol yr Orsaf | Ar ymyl y ffordd | Ddim yn berthnasol | 250740 | 199503 | 2.5 | Nac ydy | 1.0 | 3.9 | 3.0 |
| TYL4 | 47 Heol y Doc Newydd | Ar ymyl y ffordd | Ddim yn berthnasol | 250895 | 199157 | 2.5 | Nac ydy | 0.4 | 1.7 | 1.4 |
| TYL5 | 101 Heol yr Orsaf, Llanelli | Ar ymyl y ffordd | Ddim yn berthnasol | 250735 | 199517 | 2.5 | Nac ydy | 0.0 | 1.1 | 1.1 |

| Cyfeirnod y Safle | Enw'r Safle | Math o Safle | Yn Gysylltiedig ag Ardal Rheoli Ansawdd Aer a Enwir? | Cyfeirnod Grid X yr Arolwg Ordnans | Cyfeirnod Grid Y yr Arolwg Ordnans | Uchder y Safle (m) | Wedi'i Gasglu gyda Dadansoddwr Parhaus? | Y pellter o'r monitor i'r amlygiad perthnasol agosaf (m) (1) | Y Pellter o'r Palmant i'r Amlygiad Perthnasol Agosaf (m) | Y Pellter o'r Palmant i'r Monitor (m) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Carm/146 | 16 Heol Trostre Isaf, Llanelli | Ar ymyl y ffordd | Ddim yn berthnasol | 251808 | 198929 | 2.3 | Nac ydy | 0.0 | 2.1 | 2.1 |
| DAC/06 | Meithrinfa Glenholme – Waun Dew | Ar ymyl y ffordd | Caerfyrddin | 241546 | 220536 | 2.7 | Nac ydy | 2.2 | 3.0 | 0.8 |
| DAC/13 | Caerfyrddin – 72 Waun Dew (2) | Ar ymyl y ffordd | Caerfyrddin | 241559 | 220554 | 2.7 | Nac ydy | 0.3 | 1.3 | 1.0 |
| Carm/109 | Caerfyrddin – Waun Dew | Ar ymyl y ffordd | Caerfyrddin | 241596 | 220563 | 2.7 | Nac ydy | 0.2 | 0.8 | 0.6 |
| DAC/08 | Caerfyrddin – 85 Heol y Prior (dwyrain) | Ar ymyl y ffordd | Caerfyrddin | 241876 | 220565 | 2.7 | Nac ydy | 0.4 | 1.5 | 1.1 |
| DAC/14 | Caerfyrddin – 50 Heol y Prior | Ar ymyl y ffordd | Caerfyrddin | 241932 | 220583 | 2.9 | Nac ydy | 0.4 | 1.7 | 1.3 |
| DAC/15 | Caerfyrddin – cylchfan yr Hen Dderwen (dwyrain) | Ar ymyl y ffordd | Caerfyrddin | 241816 | 220519 | 2.9 | Nac ydy | 1.5 | 3.9 | 2.4 |
| Carm/111 | Caerfyrddin - Heol y Llan | Ar ymyl y ffordd | Caerfyrddin | 241539 | 220179 | 3.0 | Nac ydy | 0.7 | 3.5 | 2.8 |
| DAC/12 | Caerfyrddin – 24 Heol Spilman | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | Caerfyrddin | 241492 | 220171 | 2.8 | Nac ydy | 0.0 | 3.0 | 3.0 |
| DAC/04 | Caerfyrddin – Heol Dŵr (Swyddfa Brawf) | Ar ymyl y palmant/Ffasâd | Caerfyrddin | 240931 | 220144 | 2.8 | Nac ydy | 0.0 | 0.9 | 0.9 |
| Carm/072 | Caerfyrddin - Cylchfan Heol y Gwyddau | Ar ymyl y ffordd | Caerfyrddin | 240688 | 220057 | 2.8 | Nac ydy | 0.3 | 3.3 | 3.0 |
| DAC/02 | Caerfyrddin – 15 Park Terrace | Ar ymyl y ffordd | Caerfyrddin | 240618 | 220041 | 3.0 | Nac ydy | 0.4 | 1.4 | 1.0 |

| Cyfeirnod y Safle | Enw'r Safle | Math o Safle | Yn Gysylltiedig ag Ardal Rheoli Ansawdd Aer a Enwir? | Cyfeirnod Grid X yr Arolwg Ordnans | Cyfeirnod Grid Y yr Arolwg Ordnans | Uchder y Safle (m) | Wedi'i Gasglu gyda Dadansoddwr Parhaus? | Y pellter o'r monitor i'r amlygiad perthnasol agosaf (m) (1) | Y Pellter o'r Palmant i'r Amlygiad Perthnasol Agosaf (m) | Y Pellter o'r Palmant i'r Monitor (m) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DAC/16 | Caerfyrddin – 6 Park Terrace | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | Caerfyrddin | 240557 | 220026 | 2.7 | Nac ydy | 0.0 | 1.4 | 1.4 |
| Carm/001 | Caerfyrddin - Heol y Gwyddau | Ar ymyl y ffordd | Caerfyrddin | 240798 | 220155 | 2.8 | Nac ydy | 0.3 | 2.0 | 1.7 |
| Carm/084 | Caerfyrddin – Heol Dŵr | Ar ymyl y ffordd | Caerfyrddin | 240831 | 220272 | 2.8 | Nac ydy | 0.3 | 1.2 | 0.9 |
| DAC/05 | Caerfyrddin – 44 Heol Dŵr | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | Caerfyrddin | 240797 | 220297 | 2.7 | Nac ydy | 0.0 | 1.3 | 1.3 |
| Carm/106 | Caerfyrddin – Heol y Gwyddau (A) | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | Caerfyrddin | 240979 | 220244 | 2.9 | Nac ydy | 0.0 | 1.4 | 1.4 |
| Carm/134 | Caerfyrddin – 2 Ffordd y Coleg | Arall/Ffasâd | Ddim yn berthnasol | 240377 | 220397 | 3.0 | Nac ydy | 0.0 | 5.6 | 5.6 |
| Carm/126 | Tre Ioan – 2 Heol Ffynnon Job | Ar ymyl y ffordd | Ddim yn berthnasol | 239914 | 219829 | 2.8 | Nac ydy | 0.8 | 2.9 | 2.1 |
| Carm/132 | Tre Ioan - 7 Hen Heol Sanclêr | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | Ddim yn berthnasol | 239865 | 219745 | 2.6 | Nac ydy | 0.0 | 7.0 | 7.0 |
| FA/01 | Cylchfan y gogledd (Rhif 8 Stryd Rhosmaen) | Ar ymyl y ffordd | Llandeilo | 263190 | 223000 | 2.6 | Nac ydy | 1.5 | 3.1 | 1.6 |
| DA/15 | Stryd Rhosmaen (Rhif 15) (gogledd) | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | Llandeilo | 263150 | 222763 | 2.6 | Nac ydy | 0.0 | 3.1 | 3.1 |
| DA/01 | Stryd Rhosmaen (Rhif 69) | Ar ymyl y ffordd | Llandeilo | 263076 | 222596 | 2.7 | Nac ydy | 3.0 | 4.3 | 1.3 |
| DA/03 | Stryd Rhosmaen (Rhif 87) | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | Llandeilo | 263021 | 222503 | 2.9 | Nac ydy | 0.0 | 4.4 | 4.4 |

| Cyfeirnod y Safle | Enw'r Safle | Math o Safle | Yn Gysylltiedig ag Ardal Rheoli Ansawdd Aer a Enwir? | Cyfeirnod Grid X yr Arolwg Ordnans | Cyfeirnod Grid Y yr Arolwg Ordnans | Uchder y Safle (m) | Wedi'i Gasglu gyda Dadansoddwr Parhaus? | Y pellter o'r monitor i'r amlygiad perthnasol agosaf (m) (1) | Y Pellter o'r Palmant i'r Amlygiad Perthnasol Agosaf (m) | Y Pellter o'r Palmant i'r Monitor (m) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Carm/013 | Llandeilo – Stryd Rhosmaen | Ar ymyl y ffordd | Llandeilo | 263006 | 222505 | 2.8 | Nac ydy | 2.5 | 2.9 | 0.4 |
| DA/05 (A), (B) ac (C) | Stryd Rhosmaen (Cigydd Evans) | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | Llandeilo | 262982 | 222445 | 3.0 | Nac ydy | 0.0 | 1.5 | 1.5 |
| DA/07 | Stryd Rhosmaen (Gwesty'r Castell) | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | Llandeilo | 262966 | 222412 | 2.9 | Nac ydy | 0.0 | 1.7 | 1.7 |
| Carm/083 | Llandeilo – Stryd Rhosmaen (2) | Ar ymyl y ffordd | Llandeilo | 262959 | 222396 | 2.8 | Nac ydy | 1.0 | 2.5 | 1.5 |
| DA/09 | Stryd Rhosmaen (Rhif 123) | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | Llandeilo | 262951 | 222375 | 2.9 | Nac ydy | 0.0 | 1.2 | 1.2 |
| DA/10 | Stryd Rhosmaen (Rhif 133) (Siop Grefftau) | Ar ymyl y palmant/Ffasâd | Llandeilo | 262933 | 222345 | 2.9 | Nac ydy | 0.0 | 0.8 | 0.8 |
| DA/11 | Stryd Rhosmaen (Rhif 74 (Siop Steil) | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | Llandeilo | 262924 | 222346 | 3.0 | Nac ydy | 0.0 | 1.7 | 1.7 |
| DA/12 | Stryd y Brenin (Travel House) | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | Llandeilo | 262908 | 222329 | 2.9 | Nac ydy | 0.0 | 1.0 | 1.0 |
| DA/13 | Stryd Rhosmaen (ardal y parc) | Ar ymyl y ffordd | Llandeilo | 262906 | 222299 | 2.9 | Nac ydy | 4.0 | 4.9 | 0.9 |
| DA/14 | Stryd Rhosmaen (postyn y bin gerllaw'r safle bysiau) | Ar ymyl y ffordd | Llandeilo | 262902 | 222250 | 2.8 | Nac ydy | 3.0 | 4.2 | 1.2 |

| Cyfeirnod y Safle | Enw'r Safle | Math o Safle | Yn Gysylltiedig ag Ardal Rheoli Ansawdd Aer a Enwir? | Cyfeirnod Grid X yr Arolwg Ordnans | Cyfeirnod Grid Y yr Arolwg Ordnans | Uchder y Safle (m) | Wedi'i Gasglu gyda Dadansoddwr Parhaus? | Y pellter o'r monitor i'r amlygiad perthnasol agosaf (m) [(1)] | Y Pellter o'r Palmant i'r Amlygiad Perthnasol Agosaf (m) | Y Pellter o'r Palmant i'r Monitor (m) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DA/16 | Stryd y Bont (yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol) (de) | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | Llandeilo | 262848 | 222170 | 2.6 | Nac ydy | 0.0 | 2.3 | 2.3 |
| Carm/127 | 41 Stryd Newydd, Porth Tywyn | Ar ymyl y ffordd | Ddim yn berthnasol | 244999 | 200840 | 3.0 | Nac ydy | 2.5 | 2.9 | 0.5 |
| Carm/128 | Banc Lloyds, Stryd Newydd, Porth Tywyn | Ar ymyl y ffordd | Ddim yn berthnasol | 244857 | 200828 | 2.9 | Nac ydy | 0.5 | 1.4 | 0.9 |
| LLG2 | Llangennech – 28 Ffordd Afon | Ar ymyl y ffordd | Ddim yn berthnasol | 256144 | 201792 | 2.5 | Nac ydy | 0.0 | 2.1 | 2.1 |
| LLG3 | Llangennech – 26 Stryd y Bont | Ar ymyl y ffordd | Ddim yn berthnasol | 256050 | 201600 | 2.4 | Nac ydy | 0.3 | 2.2 | 1.9 |
| Carm/ELR1 | Cross Hands (2) (N) | Ar ymyl y ffordd | Ddim yn berthnasol | 256458 | 213067 | 2.7 | Nac ydy | 6.1 | 7.7 | 1.5 |
| Carm/ELR2 | Cross Hands (tŷ) (gogledd) | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | Ddim yn berthnasol | 256465 | 213085 | 2.7 | Nac ydy | 0.0 | 6.0 | 6.0 |
| Carm / ELR3 | Chwe Ffordd Gors-las | Ar ymyl y ffordd | Ddim yn berthnasol | 257027 | 213774 | 2.6 | Nac ydy | 3.5 | 5.1 | 1.7 |
| Carm/ELR4 | Chwe Ffordd Gors-las (2) | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | Ddim yn berthnasol | 257022 | 213777 | 2.7 | Nac ydy | 0.0 | 6.9 | 6.9 |
| Carm/ELR6 | SoDdGA (B)(5m) | Arall | Ddim yn berthnasol | 257550 | 214505 | 2.3 | Nac ydy | - | - | - |
| Carm/ELR7 | SoDdGA (C)(10m) | Arall | Ddim yn berthnasol | 257553 | 214503 | 2.4 | Nac ydy | - | - | - |
| Carm/ELR8 | SoDdGA (D)(20m) | Arall | Ddim yn berthnasol | 257562 | 214497 | 2.3 | Nac ydy | - | - | - |
| Carm/ELR9 | Heol y Gât (ger Rhif 81) | Ar ymyl y ffordd | Ddim yn berthnasol | 257837 | 214594 | 2.7 | Nac ydy | 3.5 | 5.3 | 1.8 |

| Cyfeirnod y Safle | Enw'r Safle | Math o Safle | Yn Gysylltiedig ag Ardal Rheoli Ansawdd Aer a Enwir? | Cyfeirnod Grid X yr Arolwg Ordnans | Cyfeirnod Grid Y yr Arolwg Ordnans | Uchder y Safle (m) | Wedi'i Gasglu gyda Dadansoddwr Parhaus? | Y pellter o'r monitor i'r amlygiad perthnasol agosaf (m) (1) | Y Pellter o'r Palmant i'r Amlygiad Perthnasol Agosaf (m) | Y Pellter o'r Palmant i'r Monitor (m) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Carm/ELR10 | Heol Norton (ger Rhif 43) | Ar ymyl y ffordd | Ddim yn berthnasol | 258269 | 213646 | 2.8 | Nac ydy | 4.5 | 6.8 | 2.3 |
| Carm/ELR10(B) | 35 Heol Norton | Ar ymyl y ffordd | Ddim yn berthnasol | 258288 | 213651 | 2.7 | Nac ydy | 0.0 | 3.7 | 3.7 |
| Carm/ELR11 | Heol Norton (ger cyffordd y ffordd gyswllt economaidd DP 24) | Ar ymyl y ffordd | Ddim yn berthnasol | 257752 | 213562 | 2.5 | Nac ydy | 4.5 | 6.3 | 1.8 |
| Carm/ELR12 | Heol Norton (ger Rhif 94) | Ar ymyl y ffordd | Ddim yn berthnasol | 257563 | 213717 | 2.7 | Nac ydy | 1.2 | 1.3 | 0.1 |
| Carm/ELR16 | ELR (gorllewin) (D) (20m) | Arall | Ddim yn berthnasol | 257664 | 214087 | 2.6 | N | - | - | 20.0 |
| Carm/ELR19 | ELR (dwyrain) (C) (10m) | Arall | Ddim yn berthnasol | 257730 | 214100 | 2.61 | N | - | - | 10.0 |
| Carm/ELR20 | ELR (dwyrain) (D) (20m) | Arall | Ddim yn berthnasol | 257749 | 214104 | 2.68 | N | - | - | 20.0 |
| Carm/ELR21 | Heol y Llew Du (ger Helyg) | Ar ymyl y ffordd | Ddim yn berthnasol | 257564 | 212950 | 2.6 | Nac ydy | 15.1 | 16.7 | 1.6 |
| Carm/ELR22 | Heol y Llew Du (ger Gorse Villa) | Ar ymyl y ffordd | Ddim yn berthnasol | 257666 | 212864 | 2.8 | Nac ydy | 3.2 | 5.4 | 2.2 |
| FA/04(A) | Capel Ffair-fach | Ar ymyl y ffordd | Nac ydy | 262869 | 221274 | 2.6 | Nac ydy | 1.8 | 2.9 | 1.1 |
| FA/06(A) | 10 Heol Myrddin, Ffair-fach | Ar ymyl y ffordd | Nac ydy | 262780 | 221469 | 2.5 | Nac ydy | 5.0 | 6.1 | 1.1 |
| FA/03(A) | 29 Teras Tywi | Ar ymyl y ffordd | Llandeilo | 262853 | 221512 | 2.7 | Nac ydy | 0.0 | 3.4 | 3.4 |
| FA/07(A) | Heol Bethlehem (gyferbyn â'r ysgol) | Ar ymyl y ffordd | Nac ydy | 262980 | 221490 | 2.7 | Nac ydy | 16.0 | 17.5 | 1.5 |
| TYL6 | 12 Stryd Sior | Ar ymyl y ffordd | Nac ydy | 250529 | 199371 | 2.7 | Nac ydy | 0.3 | 1.4 | 1.1 |


| Cyfeirnod y Safle | Enw'r Safle | Math o Safle | Yn Gysylltiedig ag Ardal Rheoli Ansawdd Aer a Enwir? | Cyfeirnod Grid X yr Arolwg Ordnans | Cyfeirnod Grid Y yr Arolwg Ordnans | Uchder y Safle (m) | Wedi'i Gasglu gyda Dadansoddwr Parhaus? | Y pellter o'r monitor i'r amlygiad perthnasol agosaf (m) (1) | Y Pellter o'r Palmant i'r Amlygiad Perthnasol Agosaf (m) | Y Pellter o'r Palmant i'r Monitor (m) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| LLG4 | Llangennech - Llandaff House, Heol Mwrwg | Ar ymyl y ffordd | Nac ydy | 255890 | 201898 | 2.6 | Nac ydy | 4.5 | 5.7 | 1.7 |
| LLG5 | Llangennech - ger The Paddocks, Heol Mwrwg | Arall | Nac ydy | 255638 | 201847 | 2.6 | Nac ydy | 24.1 | 29.3 | 5.2 |
| Carm/147 | Rhydaman - 16 Ffordd Florence | Arall | Nac ydy | 262436 | 212935 | 2.5 | Nac ydy | 0.0 | 7.4 | 7.4 |
| LAN/1 | Talacharn - Clifton House, Stryd Clifton | Ar ymyl y ffordd | Nac ydy | 230163 | 211120 | 2.5 | Nac ydy | 0.0 | 1.8 | 1.8 |
| LAN/2 | Talacharn - Meddygfa Talacharn, Stryd Wogan | Ar ymyl y ffordd | Nac ydy | 230161 | 210795 | 2.6 | Nac ydy | 2.1 | 3.0 | 0.9 |
| LAN/3 | Talacharn - 9 Stryd Wogan | Ar ymyl y ffordd | Nac ydy | 230116 | 210766 | 2.5 | Nac ydy | 1.3 | 2.6 | 1.3 |
| LAN/4 | Talacharn - Heol Gosport | Ar ymyl y ffordd | Nac ydy | 230112 | 210591 | 2.6 | Nac ydy | 1.7 | 3.2 | 1.5 |

**Nodiadau:**


(1) Mae 0m yn dangos bod y monitor sydd wedi'i osod yn cynrychioli amlygiad ac felly nid oes angen cyfrifiad pellter.

**Ffigur 1 – Map(iau) o Safleoedd Monitro nad ydynt yn Awtomatig**


**Ffigur 2 - Map o Safleoedd Monitro $NO_2$ Llandeilo nad ydynt yn Awtomatig (AQMA)**




**Ffigur 3 - Map o Safleoedd Monitro $NO_2$ Caerfyrddin nad ydynt yn Awtomatig (AQMA)**



**Ffigur 4 - Map o Safleoedd Monitro $NO_2$ Llanelli nad ydynt yn Awtomatig (AQMA)**



**Ffigur 5 - Map o Safleoedd Monitro $NO_2$ Llanelli nad ydynt yn Awtomatig (dim Ardal Rheoli Ansawdd Aer)**








**Ffigur 6 - Map o Safle Monitro $NO_2$ 16 Heol Trostre, Llanelli nad yw'n Awtomatig (Ymarfer Sgrinio)**


**Ffigur 7 - Map o Safleoedd Monitro $NO_2$ Ffair-fach, Llandeilo nad ydynt yn Awtomatig (Ymarfer sgrinio)**



**Ffigur 8 - Map o Safleoedd Monitro $NO_2$ Porth Tywyn nad ydynt yn Awtomatig**





**Ffigur 9 - Map o Safleoedd Monitro $NO_2$ Rhydaman nad ydynt yn Awtomatig**




**Ffigur 10 - Map o Safleoedd Monitro $NO_2$ yn Llangennech, Llanelli nad ydynt yn Awtomatig**








**Ffigur 11 - Map o Safle Monitro $NO_2$ 16 Stryd Florence,**
**Rhydaman nad yw'n Awtomatig (Ymarfer Sgrinio)**

**Ffigur 12 - Map o Safleoedd Monitro $NO_2$ Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands nad ydynt yn Awtomatig**



**Ffigur 13 - Map o Safleoedd Monitro $NO_2$ Talacharn nad ydynt yn Awtomatig (Ymarfer Sgrinio)**



# Canlyniadau Monitro Ansawdd Aer 2022

**Tabl 2.3 – Canlyniadau Monitro Tiwb Tryledu $NO_2$ Cymedrig Blynyddol (µg/m$^3$)**

| Cyfeirnod Tiwb Tryledu | Cyfeirnod Grid X yr Arolwg Ordnans (Dwyreiniad) | Cyfeirnod Grid Y yr Arolwg Ordnans (Gogleddiad) | Math o Safle | Casglu Data Dilys ar gyfer y Cyfnod Monitro (%) | Casglu Data Dilys 2022 (%) | Crynodiad Cymedr Blynyddol NO2 (µg/m$^3$) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
| Carm/089 | 262804 | 212204 | Ar ymyl y ffordd | 100 | 100.0 | 23.0 | 18.6 | 15.1 | 15.8 | 17.2 |
| Carm/064 | 262936 | 212285 | Ar ymyl y ffordd | 100 | 100.0 | 23.2 | 21.3 | 18.6 | 20.0 | 19.9 |
| Carm/090 | 263028 | 212324 | Ar ymyl y ffordd | 100 | 100.0 | 27.0 | 24.9 | 19.8 | 21.7 | 21.3 |
| DAL/14 | 249701 | 200598 | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | 100 | 100.0 | 25.3 | 22.8 | 17.0 | 18.6 | 19.0 |
| DAL/15 | 249727 | 200608 | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | 100 | 100.0 | 21.3 | 20.2 | 15.4 | 16.9 | 17.5 |
| Carm/077 | 249606 | 200638 | Ar ymyl y ffordd | 100 | 100.0 | **41.7** | 38.6 | 30.2 | 32.9 | 33.8 |
| DAL/22 | 249610 | 200632 | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | 100 | 100.0 | 33.9 | 29.7 | 24.7 | 27.6 | 26.6 |
| DAL/26 | 249483 | 200713 | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | 100 | 100.0 | 22.8 | 20.7 | 15.3 | 17.2 | 17.5 |
| DAL/27 | 249483 | 200709 | Ar ymyl y ffordd | 100 | 100.0 | 26.2 | 24.3 | 17.9 | 20.5 | 21.8 |
| DAL/16 | 249456 | 200706 | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | 100 | 100.0 | 22.6 | 19.8 | 11.1 | 15.4 | 15.9 |
| DAL/17 | 249463 | 200724 | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | 100 | 100.0 | 22.8 | 21.6 | 14.6 | 18.1 | 17.5 |
| Carm/141 | 250649 | 200786 | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | 83.3 | 82.7 | 26.1 | 24.0 | 18.9 | 21.4 | 21.5 |
| DAL/07 | 250717 | 200818 | Ar ymyl y ffordd | 83.3 | 84.6 | **44.4** | **41.2** | 31.6 | 37.4 | 37.9 |
| DAL/23 | 250754 | 200870 | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | 100 | 100.0 | 22.2 | 20.1 | 15.8 | 17.4 | 18.0 |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DAL/09 | 250709 | 200673 | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | 91.7 | 92.3 | 38.5 | 37.6 | 31.5 | 34.4 | 31.1 |
| Carm/104 | 250719 | 200689 | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | 91.7 | 92.3 | 36.4 | 32.7 | 25.6 | 28.5 | 28.2 |
| DAL/10 | 250734 | 200603 | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | 91.7 | 92.3 | 33.7 | 31.6 | 24.7 | 25.4 | 27.2 |
| Carm/069 | 250458 | 200603 | Ar ymyl y ffordd | 100 | 100.0 | 35.0 | 33.2 | 26.6 | 28.0 | 27.6 |
| DAL/12 | 250411 | 200616 | Ar ymyl y ffordd | 100 | 100.0 | 27.9 | 27.4 | 20.2 | 22.3 | 24.0 |
| DAL/28 | 250344 | 200631 | Ar ymyl y ffordd | 100 | 100.0 | 24.9 | 20.4 | 17.2 | 18.4 | 17.8 |
| DAL/04 | 251623 | 201976 | Ar ymyl y ffordd | 91.7 | 92.3 | 30.4 | 26.6 | 21.2 | 21.2 | 22.2 |
| Carm/114 | 251665 | 202013 | Ar ymyl y ffordd | 91.7 | 92.3 | 32.9 | 30.8 | 24.0 | 25.0 | 25.1 |
| Carm/113 | 251951 | 202411 | Ar ymyl y ffordd | 100 | 100.0 | 33.9 | 31.5 | 22.6 | 24.3 | 25.1 |
| Carm/135 | 248512 | 200892 | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | 100 | 100.0 | 25.7 | 23.6 | 16.9 | 21.0 | 20.1 |
| TYL1 | 250567 | 199977 | Ar ymyl y ffordd | 100 | 100.0 | - | - | 16.2 | 17.6 | 18.2 |
| TYL2 | 250713 | 199530 | Ar ymyl y ffordd | 75 | 48.1 | - | - | 14.6 | 14.0 | 15.7 |
| TYL3 | 250740 | 199503 | Ar ymyl y ffordd | 75 | 25.0 | - | - | 14.4 | 16.0 | 13.6 |
| TYL4 | 250895 | 199157 | Ar ymyl y ffordd | 91.7 | 92.3 | - | - | 14.5 | 15.7 | 15.0 |
| TYL5 | 250735 | 199517 | Ar ymyl y ffordd | 100 | 100.0 | - | - | - | 14.3 | 14.6 |
| Carm/146 | 251808 | 198929 | Ar ymyl y ffordd | 75 | 75.0 | - | - | - | 15.1 | 13.8 |
| DAC/06 | 241546 | 220536 | Ar ymyl y ffordd | 91.7 | 92.3 | 27.0 | 28.3 | 21.8 | 21.9 | 21.9 |
| DAC/13 | 241559 | 220554 | Ar ymyl y ffordd | 91.7 | 92.3 | 31.1 | 29.9 | 22.5 | 23.7 | 24.5 |
| Carm/109 | 241596 | 220563 | Ar ymyl y ffordd | 100 | 100.0 | 36.9 | 32.4 | 25.2 | 27.0 | 26.7 |
| DAC/08 | 241876 | 220565 | Ar ymyl y ffordd | 91.7 | 92.3 | **51.2** | **46.9** | 37.2 | 38.8 | 39.9 |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DAC/14 | 241932 | 220583 | Ar ymyl y ffordd | 100 | 100.0 | 32.4 | 30.8 | 21.6 | 23.8 | 23.7 |
| DAC/15 | 241816 | 220519 | Ar ymyl y ffordd | 91.7 | 92.3 | 27.6 | 25.7 | 20.1 | 19.7 | 18.8 |
| Carm/111 | 241539 | 220179 | Ar ymyl y ffordd | 100 | 100.0 | 30.3 | 28.6 | 21.4 | 20.8 | 22.2 |
| DAC/12 | 241492 | 220171 | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | 100 | 100.0 | 31.5 | 29.8 | 20.2 | 23.4 | 21.9 |
| DAC/04 | 240931 | 220144 | Ar ymyl y palmant/Ffasâd | 63.6 | 55.8 | 23.1 | 21.2 | 16.4 | 16.0 | 15.0 |
| Carm/072 | 240688 | 220057 | Ar ymyl y ffordd | 100 | 100.0 | 30.0 | 28.0 | 22.6 | 23.0 | 22.5 |
| DAC/02 | 240618 | 220041 | Ar ymyl y ffordd | 100 | 100.0 | 38.3 | **40.0** | 29.6 | 31.9 | 31.4 |
| DAC/16 | 240557 | 220026 | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | 100 | 100.0 | 37.9 | 32.8 | 26.2 | 28.4 | 27.8 |
| Carm/001 | 240798 | 220155 | Ar ymyl y ffordd | 100 | 100.0 | 30.9 | 27.7 | 21.6 | 22.8 | 22.4 |
| Carm/084 | 240831 | 220272 | Ar ymyl y ffordd | 83.3 | 82.7 | 32.3 | 27.6 | 22.4 | 26.4 | 23.8 |
| DAC/05 | 240797 | 220297 | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | 100 | 100.0 | 32.4 | 31.5 | 23.0 | 26.3 | 25.4 |
| Carm/106 | 240979 | 220244 | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | 91.7 | 92.3 | 34.4 | 33.1 | 24.2 | 24.8 | 25.5 |
| Carm/134 | 240377 | 220397 | Arall/Ffasâd | 100 | 100.0 | 12.5 | 11.5 | 8.5 | 9.5 | 9.2 |
| Carm/126 | 239914 | 219829 | Ar ymyl y ffordd | 91.7 | 92.3 | 22.2 | 19.6 | 15.9 | 17.2 | 16.2 |
| Carm/132 | 239865 | 219745 | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | 83.3 | 84.6 | 16.8 | 15.5 | 12.1 | 14.2 | 11.7 |
| FA/01 | 263190 | 223000 | Ar ymyl y ffordd | 100 | 100.0 | 14.9 | 13.6 | 10.7 | 10.5 | 11.7 |
| DA/15 | 263150 | 222763 | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | 100 | 100.0 | 22.9 | 22.0 | 17.4 | 16.3 | 18.4 |
| DA/01 | 263076 | 222596 | Ar ymyl y ffordd | 100 | 100.0 | 23.5 | 20.4 | 15.8 | 16.7 | 16.1 |
| DA/03 | 263021 | 222503 | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | 100 | 100.0 | 23.5 | 22.1 | 18.1 | 17.4 | 18.1 |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Carm/013 | 263006 | 222505 | Ar ymyl y ffordd | 100 | 100.0 | 30.3 | 28.6 | 22.5 | 22.0 | 23.4 |
| DA/05 (A), (B) ac (C) | 262982 | 222445 | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | 50 | 50.0 | 34.6 | 30.3 | 24.4 | 26.6 | 25.0 |
| DA/07 | 262966 | 222412 | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | 100 | 100.0 | 37.9 | 33.3 | 26.2 | 28.2 | 27.4 |
| Carm/083 | 262959 | 222396 | Ar ymyl y ffordd | 100 | 100.0 | **40.1** | 36.8 | 27.4 | 31.7 | 28.5 |
| DA/09 | 262951 | 222375 | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | 100 | 100.0 | **40.1** | 38.6 | 29.4 | 32.2 | 30.9 |
| DA/10 | 262933 | 222345 | Ar ymyl y palmant/Ffasâd | 100 | 100.0 | **41.3** | 34.8 | 24.3 | 29.5 | 28.8 |
| DA/11 | 262924 | 222346 | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | 100 | 76.9 | 35.6 | 34.1 | 24.4 | 28.2 | 25.2 |
| DA/12 | 262908 | 222329 | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | 91.7 | 90.4 | 21.2 | 19.5 | 12.3 | 14.6 | 15.6 |
| DA/13 | 262906 | 222299 | Ar ymyl y ffordd | 100 | 100.0 | 33.8 | 31.7 | 22.0 | 24.2 | 24.3 |
| DA/14 | 262902 | 222250 | Ar ymyl y ffordd | 91.7 | 92.3 | 22.2 | 22.7 | 17.2 | 19.0 | 19.2 |
| DA/16 | 262848 | 222170 | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | 100 | 100.0 | 31.4 | 27.1 | 21.4 | 23.9 | 23.2 |
| Carm/127 | 244999 | 200840 | Ar ymyl y ffordd | 100 | 100.0 | 12.6 | 11.6 | 9.0 | 9.5 | 9.1 |
| Carm/128 | 244857 | 200828 | Ar ymyl y ffordd | 91.7 | 92.3 | 14.7 | 14.0 | 11.1 | 12.0 | 12.0 |
| LLG2 | 256144 | 201792 | Ar ymyl y ffordd | 100 | 100.0 | - | 18.3 | 15.7 | 15.2 | 15.7 |
| LLG3 | 256050 | 201600 | Ar ymyl y ffordd | 100 | 100.0 | - | 18.0 | 13.3 | 13.9 | 14.2 |
| Carm/ELR1 | 256458 | 213067 | Ar ymyl y ffordd | 83.3 | 84.6 | 34.3 | 33.0 | 24.0 | 24.8 | 25.5 |
| Carm/ELR2 | 256465 | 213085 | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | 100 | 100.0 | 22.4 | 20.3 | 16.5 | 16.7 | 17.3 |
| Carm / ELR3 | 257027 | 213774 | Ar ymyl y ffordd | 91.7 | 92.3 | 17.3 | 16.5 | 12.0 | 14.1 | 13.8 |
| Carm/ELR4 | 257022 | 213777 | Ar ymyl y ffordd/ffasâd | 50 | 15.4 | 15.0 | 14.0 | 11.1 | 11.2 | - |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Carm/ELR6 | 257550 | 214505 | Arall | 80 | 32.7 | 10.2 | 9.7 | - | - | 6.1 |
| Carm/ELR7 | 257553 | 214503 | Arall | 80 | 32.7 | 8.6 | 8.5 | - | - | 5.4 |
| Carm/ELR8 | 257562 | 214497 | Arall | 80 | 32.7 | 8.2 | 7.0 | - | - | 4.8 |
| Carm/ELR9 | 257837 | 214594 | Ar ymyl y ffordd | 100 | 100.0 | 7.7 | 7.2 | 5.3 | 5.6 | 5.7 |
| Carm/ELR10 | 258269 | 213646 | Ar ymyl y ffordd | | | 12.6 | 12.5 | 8.7 | - | - |
| ELR/10(B) | 258288 | 213651 | Ar ymyl y ffordd | 91.7 | 92.3 | - | - | - | 9.1 | 10.5 |
| Carm/ELR11 | 257752 | 213562 | Ar ymyl y ffordd | 75 | 73.1 | 9.6 | 9.8 | 7.5 | 8.0 | 8.7 |
| Carm/ELR12 | 257563 | 213717 | Ar ymyl y ffordd | 100 | 100.0 | 12.2 | 12.2 | 9.4 | 9.9 | 9.2 |
| Carm/ELR16 | 257664 | 214087 | Arall | 50 | 17.3 | 6.9 | 5.6 | - | - | - |
| Carm/ELR19 | 257730 | 214100 | Arall | 100 | 92.3 | 6.5 | 5.9 | - | - | 4.1 |
| Carm/ELR20 | 257749 | 214104 | Arall | 100 | 92.3 | 6.2 | 5.9 | - | - | 4.2 |
| Carm/ELR21 | 257564 | 212950 | Ar ymyl y ffordd | 83.3 | 84.6 | 10.2 | 9.7 | 7.6 | 8.6 | 7.2 |
| Carm/ELR22 | 257666 | 212864 | Ar ymyl y ffordd | 91.7 | 92.3 | 15.8 | 15.2 | 11.8 | 12.7 | 12.7 |
| FA/04(A) | 262869 | 221274 | Ar ymyl y ffordd | 91.7 | 92.3 | - | - | - | 8.9 | 9.9 |
| FA/06(A) | 262780 | 221469 | Ar ymyl y ffordd | 75 | 73.1 | - | - | - | 10.5 | 11.7 |
| FA/03(A) | 262853 | 221512 | Ar ymyl y ffordd | 91.7 | 92.3 | - | - | - | 14.2 | 16.6 |
| FA/07(A) | 262980 | 221490 | Ar ymyl y ffordd | 66.7 | 65.4 | - | - | - | 5.8 | 6.5 |
| ELR/10(B) | 258288 | 213651 | Ar ymyl y ffordd | 91.7 | 92.3 | - | - | - | 9.1 | 10.5 |
| TYL6 | 250529 | 199371 | Ar ymyl y ffordd | 91.7 | 92.3 | - | - | - | - | 9.5 |
| LLG4 | 255890 | 201898 | Ar ymyl y ffordd | 100 | 100.0 | - | - | - | - | 9.1 |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| LLG5 | 255638 | 201847 | Arall | 100 | 100.0 | - | - | - | - | 6.9 |
| Carm/147 | 262436 | 212935 | Arall | 100 | 34.6 | - | - | - | - | 6.1 |
| LAN/1 | 230163 | 211120 | Ar ymyl y ffordd | 100 | 100.0 | - | - | - | - | 8.6 |
| LAN/2 | 230161 | 210795 | Ar ymyl y ffordd | 91.7 | 92.3 | - | - | - | - | 10.1 |
| LAN/3 | 230116 | 210766 | Ar ymyl y ffordd | 91.7 | 92.3 | - | - | - | - | 8.4 |
| LAN/4 | 230112 | 210591 | Ar ymyl y ffordd | 100 | 76.9 | - | - | - | - | 8.1 |

**Nodiadau:**

Dangosir gormodiant o'r amcan cymedr blynyddol NO2 o 40µg/$m^3$ mewn **print trwm.**

Dangosir cymedr blynyddol $NO_2$ sy'n fwy na 60µg/$m^3$, sy'n arwydd o ormodiant posibl o'r amcan cymedr un awr $NO_2$, mewn **print trwm ac wedi'i danlinellu.**


Mae'r cymedrau ar gyfer y tiwbiau tryledu wedi cael eu cywiro ar gyfer tuedd. Dangosir yr holl gymedrau fel ffigurau blynyddol yn unol â LAQM.TG22 os yw'r casglu data dilys ar gyfer y flwyddyn galendr lawn yn llai na 75%. Gweler Atodiad C am fanylion.

(1) Casglu data ar gyfer y cyfnod monitro, mewn achosion pan oedd y gwaith monitro ond wedi cael ei gyflawni am ran o'r flwyddyn.


(2) Casglu data ar gyfer y flwyddyn galendr lawn (e.e. os oedd y gwaith monitro yn cael ei gyflawni am chwe mis, uchafswm y data a gasglwyd ar gyfer y flwyddyn galendr lawn yw 50%).

**Ffigur 14 – Tueddiadau o ran Crynodiadau Cymedr Blynyddol $NO_2$**


**Ffigur 15 – Tueddiadau Ardal Rheoli Ansawdd Aer Caerfyrddin o ran Crynodiadau Cymedr Blynyddol $NO_2$**




**Ffigur 16– Tueddiadau Llandeilo o ran Crynodiadau Cymedr Blynyddol $NO_2$**





**Ffigur 17– Tueddiadau Llanelli o ran Crynodiadau Cymedr Blynyddol $NO_2$**




**Ffigurau 18 – Tueddiadau o ran Crynodiadau Cymedr Blynyddol $NO_2$ y tu allan i Ardal Rheoli Ansawdd Aer**



# Cymhariaeth o Ganlyniadau Monitro 2022 â Blynyddoedd Blaenorol a'r Amcanion Ansawdd Aer

## Cyfnodau monitro a chasglu data dilys

Cafodd rhwydwaith o fonitro 88 o diwbiau tryledu $NO_2$ yn Rhydaman, Caerfyrddin, Llanelli, Llangennech, Porth Tywyn, Llandeilo a Cross Hands ei sefydlu ar gyfer y flwyddyn galendr lawn, gyda newidiadau tiwbiau'n cyd-fynd â'r cyfnodau amlygiad a argymhellwyd gan ddesg gymorth Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol. Cafodd 6 safle ychwanegol hefyd eu sefydlu am 11 mis neu lai, a oedd yn dod i gyfanswm o 94 lleoliad yn ystod 2022. Roedd tiwbiau ar goll neu heb amlygiad yn achos 47 o'r safleoedd hyn, a wnaeth leihau canran y data dilys a gasglwyd ar gyfer y flwyddyn galendr lawn. Dangosir hyn ar **Tabl 2.3** – Canlyniadau Monitro Tiwb Tryledu NO2 Cymedrig Blynyddol (µg/m3). Er gwaethaf y lleihad hwn mewn casglu data dilys, nid oedd angen dangos y cymedr blynyddol a addaswyd ar gyfer tuedd ar ffurf flynyddol ar gyfer 36 o'r safleoedd oherwydd bod mwy na 75% o'r flwyddyn galendr lawn wedi'i chasglu.

Roedd gan un ar ddeg o'r cyfanswm o 94 o safleoedd monitro gyfnod monitro byrrach na'r flwyddyn galendr lawn a gwnaethant gasglu llai na 75% o ddata dilys. Fodd bynnag, casglodd naw o'r safleoedd hyn fwy na 3 mis o ddata dilys. Roedd hyn yn cynnwys dau safle tiwb newydd o fewn dau ymarfer sgrinio newydd.

Dim ond 2 fis o ddata dilys a gasglodd Carm/ELR4 a Carm/ELR16 ill dau, ac felly nid oedd modd eu cyflwyno ar ffurf flynyddol. Roedd angen cyflwyno canlyniadau ar ffurf flynyddol ar gyfer naw safle oherwydd bod y data a gasglwyd ar gyfer y safleoedd hyn yn llai na 75%. Roedd hyn yn cynnwys TYL2, TYL3, DAC/04, DA/05 (A)(B)&(C), Carm/ELR6, Carm/ELR7, Carm/ELR8, FA/07(A) a Carm/147.

Yn 2021 cafodd un safle presennol gyda'r cyfeirnod TYL3 yn Heol yr Orsaf Llanelli (y tu allan i'r Ardal Rheoli Ansawdd Aer) ei ddisodli gan TYL5 ac roedd yn cael ei ystyried yn lleoliad mwy addas sy'n adlewyrchu amlygiad y derbynnydd agosaf, felly tynnwyd y safle hwn i lawr ym mis Mai ond roedd wedi dal 3 mis o ddata dilys. Gerllaw, cafodd safle TYL2 a oedd yn anhygyrch ar ddechrau'r flwyddyn ei adfer ym mis Mai 2022 ond dim ond chwe mis o ddata dilys a ddaliwyd ganddo ac felly cafodd y canlyniadau eu cyflwyno ar sail flynyddol.

Roedd gan DAC/04 yn Heol Dŵr, (Swyddfa Brawf) Caerfyrddin a FA/07(A) Heol Bethlehem, Ffair-fach nifer o diwbiau coll yn ystod y flwyddyn galendr a dim ond 7 mis o

ddata dilys a ddaliwyd gan y ddau safle a oedd yn golygu bod angen cyflwyno'r canlyniadau ar ffurf flynyddol.

Roedd nifer o diwbiau coll hefyd yn gysylltiedig â DA/05 (A)(B)&(C), safle tiwb triphlyg y tu allan i Gigyddion Evans, Llandeilo a dim ond 6 mis o ddata dilys a gasglwyd. Cafodd y canlyniadau eu cyflwyno ar ffurf flynyddol ar ôl hynny.

Cafodd pum safle presennol eu tynnu i lawr yn gynnar gan fod eu lleoliad yn anhygyrch oherwydd llystyfiant yn ystod y flwyddyn galendr, roedd hyn yn cynnwys Carm/ELR4, Carm/ELR6, Carm/ELR7, Carm/ELR8, a Carm/ELR16 a oedd yn amgylchynu'r Ffordd Gyswllt Economaidd newydd yn Gors-las.

Sefydlwyd safle newydd yn 16 Stryd Florence, Rhydaman (Carm/147) yn dilyn pryderon am ansawdd aer o weithgareddau mwg safle metel sgrap cyfagos yn effeithio ar iechyd trigolion. Ychydig iawn o draffig oedd gan yr ardal hon ac fel ymarfer sgrinio byr dim ond gwerth pedwar mis o ddata dilys a gasglwyd rhwng mis Medi a mis Rhagfyr er bod modd cyflwyno'r data ar ffurf flynyddol o hyd.

Roedd gan ddau safle arall gyfnod monitro oedd yn fyrrach na mis calendr llawn, gan gynnwys safle presennol y cyfeirir ato fel DA/11 yn Llandeilo, a gollodd y 3 mis cyntaf o amlygiad gan fod sgaffaldau yn rhwystro mynediad at diwb y safle. Yn ail, dim ond cyfnod monitro o 9 mis a gafodd safle LAN/4 Heol Gosport, Talacharn. Ar gyfer y ddau safle felly dechreuodd y gwaith monitro ym mis Ebrill 2022, ond gwnaethant ddal 9 mis o ddata ac felly nid oedd angen cyflwyno'r canlyniadau ar unrhyw ffurf flynyddol bellach.

Gellir dod o hyd i fanylion pellach am ddangos y data hwn ar ffurf flynyddol yn Atodiad C Data Blynyddol Tiwb Tryledu  a dyma’r ffurf a ddefnyddir ar gyfer y canlyniad wedi’i addasu ar gyfer tuedd data yn Tabl 2.3 – Canlyniadau Monitro Tiwb Tryledu $NO_2$ Cymedrig Blynyddol (µg/m$^3$) uchod.

## Monitro canlyniadau sy'n fwy na / yn agos at yr amcan ansawdd aer blynyddol

Nid oedd unrhyw leoliadau tiwbiau tryledu yn fwy na'r Amcan Ansawdd Aer cymedr blynyddol yn 2020, 2021 a 2022, ond cofnododd dau safle ganlyniad ar y ffin uwchlaw 35µg/m$^3$ yn 2021 ac yn 2022. Mae'r safleoedd hynny sydd wedi mynd yn fwy na'r amcan ansawdd aer yn flaenorol wedi'u nodi isod ac mae'r data perthnasol wedi'i gyflwyno yn Tabl 2.3 – Canlyniadau Monitro Tiwb Tryledu NO2 Cymedrig Blynyddol (µg/m3) uchod.

Gellir gweld y data crai ar gyfer 2022 yn Nhabl A.1 Atodiad A: Data Sicrhau Ansawdd / Rheoli Ansawdd .

## Llanelli


Adroddwyd bod un safle yn Llanelli yn fwy na'r amcan ansawdd aer ar gyfer 2019, sef 13 Heol Felinfoel (DAL/07), a oedd wedi bod yn fwy na'r amcan ansawdd aer yn ystod y saith mlynedd blaenorol ond er ei fod wedi gweld gostyngiadau dros y blynyddoedd diwethaf o 47.4µg/m$^3$ (2017) i 44.4µg/m$^3$ (2018) i 41.2µg/m$^3$ (2019). 2020 oedd y tro cyntaf yr oeddem yn gallu adrodd cydymffurfiaeth â'r Amcan Ansawdd Aer, sef 31.6µg/m$^3$. Roedd canlyniadau 2021 ar y safle hwn wedi cynyddu i 37.4µg/m$^3$ ac mae'n parhau i gydymffurfio o ychydig ar gyfer 2022 gyda 37.9µg/m$^3$.

Mae Stryd Thomas (Barnados) (DAL/09) wedi'i lleoli tua 140m i lawr y rhiw o 13 Heol Felinfoel, a'r tro diwethaf i'r lleoliad fod yn fwy na'r amcan ansawdd aer oedd yn 2017, a parodd ar y ffin yn 2019 a 2018 ar ôl gostwng islaw'r amcan ansawdd aer am y tro cyntaf yn y pum mlynedd blaenorol. Roedd wedi gostwng yn sylweddol ar gyfer 2020, gan gofnodi canlyniad cyfartalog blynyddol tebyg i 13 Heol Felinfoel, sef 31.5µg/m$^3$, eto yn 2021 cynyddodd i 34.4µg/m$^3$. Fodd bynnag, mae 2022 wedi adrodd canlyniad tebyg i 2020 sef 31.1µg/m$^3$. Mae gwelliannau wedi'u gwneud i'r gyffordd ger y safle hwn yn 2021, gan symud y traffig ymhellach i ffwrdd o rai o'r derbynyddion. Nid yw'n ymddangos bod y newidiadau wedi cael effaith andwyol ar lefelau $NO_2$.

Roedd Carm/077 yn Heol y Sandy (2) yn fwy na'r amcan ansawdd aer am y tro cyntaf yn 2018 ar ôl gweld cynnydd graddol dros dair blynedd, ond yn ystod 2019 roedd y canlyniadau'n parhau i fod ar y ffin, sef 38.9µg/m$^3$. Mae'n werth nodi bod y safle hwn wedi'i leoli ger y palmant a rhai metrau i ffwrdd o'r derbynnydd perthnasol. Yn 2020, gostyngodd y cyfartaledd blynyddol ar gyfer y safle hwn i 30.2µg/m$^3$ a chynyddodd ond ychydig i 32.9µg/m$^3$ yn 2021 a 33.8µg/m$^3$ yn 2022.

Y tri safle uchod yw'r unig safleoedd monitro yn Llanelli i adrodd cyfartaledd blynyddol sy'n fwy na 30µg/m3 o 2020 i 2022.

**Ffigur 19: Tuedd Pum Mlynedd yn Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llanelli (Canlyniadau $NO_2$ uchaf)**





Gwelodd y mwyafrif o safleoedd yn Llanelli lefelau tebyg o $NO_2$ yn 2022 o gymharu â 2021 gyda pheth cynnydd ymylol ac eraill yn gostwng ychydig, felly gwelliant amlwg yn gyffredinol. Serch hynny, ceir tuedd bendant am i lawr o gymharu â'r blynyddoedd cyn 2020 ac mae'r duedd hon yn ymddangos yn gyson ar draws y rhwydwaith monitro cyfan yn Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llanelli.

## Caerfyrddin

Yng Nghaerfyrddin nid oedd unrhyw achosion o fod yn fwy na'r Amcan Ansawdd Aer blynyddol yn 2020, 2021 na 2022, ond yn 2019 roedd dau leoliad yn uwch. Y lleoliadau oedd 85 Heol y Prior (E) (DAC/08), a oedd wedi bod yn fwy na'r Amcan Ansawdd Aer am yr wyth mlynedd cyn 2020 ond wedi gostwng o 46.9µg/m$^3$ yn 2019 i 37.2µg/m$^3$ yn 2020, 38.8µg/m$^3$ yn 2021 ac wedi cofnodi canlyniad ffiniol arall o 39.9µg/m$^3$ eleni. Yn ail, cynyddodd 15 Park Terrace (DAC/02), a gofnododd 38.3µg/m$^3$ yn 2018, i 40µg/m$^3$ yn 2019 ac yna gostwng i 29.6µg/m$^3$ yn 2020, ac mae wedi parhau i gydymffurfio yn 2021 gyda 31.9µg/m$^3$ a 31.4µg/m$^3$ in 2022.

Mae'r holl safleoedd monitro yng Nghaerfyrddin wedi gweld gostyngiad mewn crynodiad o'i gymharu â 2019. Y tiwb â'r darlleniad uchaf yn y sir am y ddegfed flwyddyn yn olynol oedd 85 Heol y Prior (dwyrain) (DAC/08). Y canlyniad blynyddol oedd 39.9µg/m$^3$, ac mae wedi parhau i gydymffurfio'n ffiniol am dair blynedd, gan roi canlyniadau o 38.8µg/m$^3$ (2021), 37.2µg/m$^3$ (2020), 46.9µg/m$^3$ (2019), 51.2µg/m$^3$ (2018) a 57µg/m$^3$ (2017). Hwn oedd yr unig safle monitro yng Nghaerfyrddin a nododd ganlyniad cyfartalog blynyddol dros 36µg/m$^3$. Yn yr un modd â Llanelli, gwnaeth y rhan fwyaf o safleoedd yn Ardal Rheoli Ansawdd Aer Caerfyrddin, weld gostyngiad mewn $NO_2$ o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol.


**Ffigur :20 Tuedd Pum Mlynedd yn Ardal Rheoli Ansawdd Aer Caerfyrddin ($NO_2$ Canlyniadau uchaf)**




## Llandeilo

Rhwng 2019 a 2022 nid oedd gan Landeilo unrhyw safleoedd a oedd yn fwy na'r Amcan Ansawdd Aer blynyddol, dim ond dau leoliad oedd yn agos i'r ffin o hyd yn ystod 2019, a chofnododd yr holl safleoedd monitro ganlyniadau cyfartalog blynyddol o dan 30µg/m$^3$ yn 2020. Fodd bynnag, cynyddodd hyn o ychydig yn 2021 gyda thri safle yn rhoi darlleniad $NO_2$ a oedd yn uwch na 30µg/m$^3$, ond mae wedi gostwng eto yn 2022 gyda dim ond un safle (DA/09) yn rhoi canlyniad blynyddol uwchben 30µg/m$^3$ ac nid oes unrhyw safle yn Llandeilo yn cydymffurfio'n ffiniol o hyd. Mae hyn yn welliant mawr o'i gymharu â 2018 lle nodwyd bod tri safle wedi croesi'r amcan ansawdd aer cyn cyfrifo unrhyw ostyngiad $NO_2$ gyda phellter. Roeddent yn cynnwys 123 Rhos-maen St (DA/09) a Stryd Rhosmaen (2) (Carm/083) lle cofnododd y ddau 40.1µg/m$^3$ (2018), ar y ffin rhwng 36-38µg/m$^3$ yn 2019 a 32-33µg/m$^3$ (2021). Yn achos Rhif 133 (DA/10) a gofnododd 41.3µg/m$^3$ yn 2018, bu gostyngiad i 34.8µg/m$^3$ yn 2019, 24.3µg/m$^3$ (2020), 29.5µg/m$^3$ (2021) ac mae bellach wedi adrodd 28.8µg/m$^3$ ar gyfer 2021.

**Ffigur :21 Tuedd Pum Mlynedd yn Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llandeilo (Canlyniadau $NO_2$ uchaf)**




2019 oedd y flwyddyn gyntaf lle roedd pob lleoliad monitro yn Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llandeilo wedi disgyn yn is na'r amcan ansawdd aer blynyddol ac mae wedi cynnal y gostyngiad hwn ymhellach i mewn i 2022.

Mae'r tueddiadau llawn dros y pum mlynedd diwethaf ar gyfer rhwydwaith monitro Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer Llanelli, Caerfyrddin a Llandeilo wedi'u dangos yn Ffigur 14 – Tueddiadau o ran Crynodiadau Cymedr Blynyddol $NO_2$ uchod. Mae pob un o'r safleoedd monitro tryledu yn profi tuedd am i lawr, gyda'r gwelliant mwyaf sylweddol o bell ffordd i'w weld yn 2020, eto mae canlyniadau 2022 yn debyg iawn yn achos sawl safle, yn benodol Caerfyrddin a Llandeilo.

### 2.1.3 Nitrogen Deuocsid ($NO_2$)

**Data Monitro Tiwbiau Tryledu**

Cafodd dau safle yn y rhwydwaith o diwbiau tryledu eu cywiro ar gyfer gostyngiad $NO_2$ gyda phellter oherwydd bod y cymedr blynyddol ôl-duedd (a'i gyflwyno ar ffurf flynyddol) wedi disgyn o fewn 10% i'r amcan ansawdd aer. Y safle hwn oedd Caerfyrddin - 85 Heol y Prior (E) (DAC/08) a'r un ger 13 Heol Felinfoel (DAL/07).

Gwnaed y cyfrifiad yn unol â pharagraff 7.212 Canllawiau Technegol LAQM (22), gan ddefnyddio 'Teclyn Prosesu Tiwbiau Tryledu' y Llinell Gymorth LAQM, sy'n cyfuno'r teclyn ar-lein i gyfrifo pellter Llinell Gymorth LAQM (Fersiwn 4.2) er mwyn cynhyrchu'r canlyniadau $NO_2$ a ragfynegwyd ar gyfer y gostyngiad gyda phellter.

Ar ôl defnyddio'r offeryn prosesu Tiwbiau Tryledu i gyfrifo'r gostyngiad gyda phellter ar gyfer DAC/08 (85 Heol y Prior, Caerfyrddin), gostyngodd y canlyniad o 39.9ug/$m^3$ i grynodiad disgwyliedig o 37.6ug/$m^3$. Mae hwn yn welliant sylweddol o gymharu â chanlyniad 2019 a oedd yn fwy na'r Amcan Ansawdd Aer Blynyddol yn 44.3ug/$m^3$ ar ôl cyfrifo'r gostyngiad gyda phellter, eto roedd cynnydd bychan o 2021 a gyfrifwyd fel 36.8ug/$m^3$.

Ar ôl defnyddio'r offeryn prosesu Tiwbiau Tryledu i gyfrifo'r gostyngiad gyda phellter ar gyfer y safle ger 13 Heol Felinfoel (DAL/07), gostyngodd y canlyniad o 37.9ug/$m^3$ i grynodiad disgwyliedig o 34.9ug/$m^3$. Mae hwn yn welliant bach o gymharu â chanlyniad 2019 a oedd yn fwy na'r Amcan Ansawdd Aer Blynyddol sef 38.1ug/$m^3$ ar ôl cyfrifo'r gostyngiad gyda phellter, eto roedd yn debyg iawn i ganlyniadau 2021 a ragfynegodd 34.6ug/$m^3$.

Ceir manylion pellach ar gyfrifiadau pellter yn Atodiad C Gostyngiad NO2 gyda Phellter o'r Ffordd. At ei gilydd, mae cyfanswm y safleoedd sy'n fwy na'r Amcan Ansawdd Aer o gymharu â 2019 wedi gostwng o un i ddim; 85 Heol y Prior, Caerfyrddin (E) sydd yn parhau i feddu ar y darlleniad uchaf o blith yr holl safleoedd monitro yn y sir. Mae'r safle hwn wastad wedi cael ei gydnabod fel man problemus o fewn Ardal Rheoli Ansawdd Aer Caerfyrddin. Ni ddangosodd unrhyw safleoedd ormodiant o 60ug/$m^3$ neu fwy sy'n dangos ei bod yn annhebygol y bydd unrhyw risg o fynd y tu hwnt i'r amcan un awr.

Mae un safle tiwb triphlyg, sydd yn Llandeilo (DA/05 – Stryd Rhosmaen (Cigydd Evans)), a bydd hwn yn cael ei gynnal ar gyfer monitro ac asesu'n barhaus y gwaith ar y cynllun gweithredu.

Roedd gan yr holl safleoedd tiwb a oedd yn gysylltiedig â Phorth Tywyn a Rhydaman ganlyniadau ymhell islaw'r amcan ansawdd aer, yn ôl y disgwyl, ond bydd y safleoedd monitro yn parhau i gael eu cynnal i'w defnyddio fel datblygiadau o amgylch y trefi.

Mae'r canlyniadau data crai misol ar gyfer data 2022, gan gynnwys y rhagfynegiad pellter a gyfrifwyd, wedi'u cynnwys yn Nhabl A1 Atodiad A: Data Sicrhau Ansawdd / Rheoli Ansawdd .

### 2.1.4 Deunydd Gronynnol ($PM_{10}$)

Nid yw Cyngor Sir Caerfyrddin yn monitro $PM_{10}$.

Yn ystod blynyddoedd blaenorol, mae ymarferion monitro $PM_{10}$ wedi'u cyflawni mewn lleoliadau amrywiol ar draws y sir lle yr ystyriwyd y gallai fod problem bosibl neu mewn ymateb i gwynion ynglŷn â gweithgareddau diwydiannol. Nid oedd unrhyw rai o'r arolygon blaenorol wedi nodi unrhyw achosion o dorri lefelau amcan $PM_{10}$. Yn sgil cyfyngiadau ariannol sy'n parhau, credwyd ei fod yn briodol peidio â pharhau â'r arolygon blynyddol, oni bai fod gofyniad penodol yn cael ei nodi, a chanolbwyntio ar y problemau ansawdd aer a oedd yn hysbys eu bod yn bodoli, h.y. $NO_2$ sy'n gysylltiedig â thraffig. Nid oedd unrhyw broblemau penodol a nodwyd yn ystod 2022 yr oedd angen cyflawni arolwg monitro gronynnol ar eu cyfer.

### 2.1.5 Deunydd Gronynnol ($PM_{2.5}$)

Nid yw Cyngor Sir Caerfyrddin yn monitro $PM_{2.5}$, ac ar hyn o bryd nid oes unrhyw gynlluniau i wneud hynny yn y dyfodol.

### 2.1.6 Llygryddion Eraill a Gaiff eu Monitro

Ni fu unrhyw waith monitro ffurfiol o sylffwr deuocsid gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Fodd bynnag, roedd asesiadau ac adroddiadau blaenorol wedi nodi bod y potensial ar gyfer gormodiant o'r cymedr 15 munud yn sgil locomotifau stêm yn segura mewn gorsaf ym Mronwydd, Caerfyrddin. Byddai'r locomotifau yn aml yn segura ger y platfform am gyfnodau yn fwy na 15 munud lle byddai aelodau o'r cyhoedd yn aros o fewn 15 metr o'r locomotifau.

Gwnaeth trafodaethau â rheolwyr y cwmni rheilffordd arwain at hysbysiad gwaith penodedig cytunedig yn cael ei gyhoeddi a oedd yn cyfyngu ar yr amser aros ar y platfform i lai na deg munud. Mae'r cytundeb hwn wedi bod ar waith am nifer o flynyddoedd ac mae'n dal i gael ei fonitro.

Cytunwyd y bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn cynnal ymweliadau cydymffurfiaeth heb rybudd i gadarnhau bod gofynion yr hysbysiad gwaith penodedig yn cael eu cynnal. Ni welwyd unrhyw broblemau yn ystod 2022.

Nid yw Cyngor Sir Caerfyrddin yn cyflawni gwaith monitro ar gyfer bensen. Nid oes unrhyw ofynion ar gyfer llygryddion eraill i gael eu monitro gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

## Crynodeb o Gydymffurfiad ag Amcanion y Strategaeth Ansawdd Aer yn 2022

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi astudio'r canlyniadau o fonitro yn y Sir. Mae'r crynodiadau i gyd yn is na'r Amcanion, felly nid oes angen rhagor o weithredu. Gwelwyd bod rhai crynodiadau yng Nghaerfyrddin a Llanelli yn agos i'r Amcanion ac felly mae angen ymchwilio ymhellach. Er nad oes gormodiant o ran Nitrogen Deuocsid, nid yw Cyngor Sir Caerfyrddin yn bwriadu dirymu Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer Llandeilo, Llanelli na Chaerfyrddin, gan fod angen ymchwilio pellach cyn penderfynu a oes angen gwneud hynny.  Felly, dylai'r Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer hyn barhau.

# 3 Datblygiadau Lleol Newydd

Derbyniwyd nifer o geisiadau cynllunio yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf ar gyfer prosiectau sy'n cwmpasu nifer o flynyddoedd a rhai ceisiadau mwy diweddar. Gwnaed cais am Asesiadau Ansawdd Aer ar gyfer rhai o'r cynigion er mwyn penderfynu a fydd y datblygiadau yn arwain at effaith negyddol ar ansawdd aer lleol. Mae Tabl 3.1 isod yn crynhoi'r manylion hyn.

**Tabl 3.1 - Ceisiadau Cynllunio**

| Cyfeirnod | Lleoliad | Cais am Wybodaeth | Ymateb | Statws |
|---|---|---|---|---|
| PL/04251<br>PL/04400 | Pentre Awel, Canolfan Llesiant Llanelli | Strategaeth Arwyddion, cynllun teithio a chynllun rheoli adeiladu. Cyflwynwyd y Datganiad Amgylcheddol gan gynnwys asesiad o risg llwch ac asesiad o ansawdd yr aer yn sgil cynnydd mewn traffig. | Daeth yr Asesiad Ansawdd Aer i'r casgliad bod effaith ddibwys yn sgil gwaith adeiladu gydag effaith andwyol fach weithredol ar Heol y Sandy. Roedd mesurau lliniaru wedi'u cynnwys. | Materion a gadwyd yn ôl - Rhoddwyd caniatâd |
| PL/03651 | Tir yng Ngarreglwyd, Pen-bre | 100 eiddo preswyl, cynllun teithio wedi'i gyflwyno. | Daeth Asesiad Ansawdd Aer yn ystod amlinelliad S/21597 i'r casgliad nad oedd unrhyw effaith sylweddol | Gwrthodwyd yn 2019, caniatawyd apêl yn 2022 |
| PL/04746 | Tir i'r de o Dôl y Dderwen, Llan-gain, Caerfyrddin | Materion a gadwyd yn ôl ar gyfer 36 o dai | Nid oes angen Asesiad Ansawdd Aer | Rhoddwyd caniatâd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| PL/04604<br>a<br>PL/03748 | Tir ger yr Ysgol Gynradd, Talacharn | 42 o dai, cynllun y safle wedi'i gyflwyno | Nid yw sgrinio'r Asesiad Ansawdd Aer yn dangos unrhyw effaith sylweddol. | Caniatawyd apêl ar gyfer cais amlinellol W/3545, caniatawyd materion a gadwyd yn ôl. |
| PL/04627 | Tir yn Frondeg, Gorllewin Caerfyrddin | 93 o unedau preswyl, 209 o leoedd parcio, cyflwynwyd cynllun rheoli llwch | 450 o deithiau cerbydau islaw'r trothwy sgrinio ar gyfer Asesiad Ansawdd Aer | Caniatâd Cynllunio Llawn wedi'i roi |
| PL/02576 | Tir i'r gogledd o Hen Heol Sanclêr (B4312) i'r de o Heol Pentremeurig ac i'r gorllewin o Gaerfyrddin | Cyflwyno 250 o unedau preswyl yn raddol ar gyfer cais cynllunio cyfeirnod W/2776 | Nid oes angen Asesiad Ansawdd Aer ar y cam cais amlinellol | Rhoddwyd caniatâd |
| PL/00435 | Plot C1 Burns Parc Pen-sarn, Caerfyrddin, SA31 2NF | Cyfleuster gweithgynhyrchu/warws newydd gyda swyddfa ategol a gwaith seilwaith cysylltiedig | Nid oedd yr Asesiad Ansawdd Aer yn dangos unrhyw effaith sylweddol | Rhoddwyd caniatâd |
| PL/05187 | Tir yng Nghefncaeau, Pemberton, Llanelli, | cais amlinellol ar gyfer 90 o unedau preswyl. Cyflwynwyd ymarfer sgrinio Asesiad Ansawdd Aer gydag asesiad risg llwch | Dim effaith sylweddol o'r Asesiad Ansawdd Aer | Yn cael ei adolygu |
| PL/04717 | Hen Ganolfan Bridio Gwartheg, Travellers Rest, Tre Ioan, Caerfyrddin | 21 o dai, 97 o deithiau felly mae islaw'r trothwy sgrinio | Nid oes angen Asesiad Ansawdd Aer | Rhoddwyd caniatâd |
| PL/04776<br>a<br>PL/03790 | Safle tai yn Ffos Las, Cydweli | Cyflwynwyd cynllun rheoli llwch ar gyfer 141 o anheddau w/20882 | | Materion a gadwyd yn ôl - |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Rhoddwyd caniatâd |
| PL/04306 | Tir gwag oddi ar Heol Santes Ann, Cwm-ffrwd, Caerfyrddin, SA31 2LZ | 23 o unedau preswyl, 111 o deithiau heb fod mewn Ardal Rheoli Ansawdd Aer | Nid oes angen Asesiad Ansawdd Aer | Cais wedi'i wrthod, apêl wedi'i chaniatáu |
| PL/03864 | Tir oddi ar Caergar, Llwynhendy, Llanelli | 18 llain, cynllun lliniaru llwch wedi'i gyflwyno | Islaw'r trothwy sgrinio ar gyfer Asesiad Ansawdd Aer | Rhoddwyd caniatâd |
| PL/04495 | Tir i'r de o Heol Cwmgarw, Brynaman | Cais amlinellol ar gyfer 60 o anheddau, | Cynhyrchu teithiau, islaw'r trothwy sgrinio ar gyfer Asesiad Ansawdd Aer | Cais amlinellol wedi'i wrthod, apêl wedi'i chaniatáu |
| PL/04430 | Tir oddi ar Heol y Parc, yr Hendy | 7 o breswylfeydd | Cynhyrchu teithiau, islaw'r trothwy sgrinio ar gyfer Asesiad Ansawdd Aer | Yn cael ei adolygu |
| PL/04079 | Tir yn Nheras Glanmor, Porth Tywyn | 32 o unedau preswyl, ac mae cynllun y safle yn cynnwys pwynt gwefru cerbydau trydan ar y cyd | Nid oes angen Asesiad Ansawdd Aer ar y cam cais amlinellol (islaw'r trothwy sgrinio) | Rhoddwyd caniatâd |
| PL/00668 | Tir oddi ar Clos Llwyn Tŷ Gwyn, Hendy-gwyn ar Daf | 15 tŷ ac adeiladu ffordd ystâd newydd | Nid oes angen Asesiad Ansawdd Aer ar y cam cais amlinellol (islaw'r trothwy sgrinio) | Rhoddwyd caniatâd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| PL/04110 | Tir ger Gerddi'r Ffynnon, Hendy-gwyn ar Daf, Caerfyrddin, SA34 0HW | Cynllun ar gyfer 9 preswylfa yn cynyddu o 8 o dan y cyfeirnod gwreiddiol W/35037 | Nid oes angen Asesiad Ansawdd Aer ar y cam cais amlinellol (islaw'r trothwy sgrinio) | Rhoddwyd caniatâd |
| PL/03374 | Tir i'r gorllewin o'r Stryd Fawr, Sanclêr | 64 o unedau preswyl | Nid oes angen Asesiad Ansawdd Aer ar y cam cais amlinellol (islaw'r trothwy sgrinio) | Rhoddwyd caniatâd |

## Ffynonellau Traffig Ffyrdd (a Thrafnidiaeth Arall)

Yn ystod 2022, ystyriwyd llygredd aer sy'n gysylltiedig â thraffig mewn gwahanol leoliadau mewn perthynas ag ymarfer parhaus yn Heol Afon i Stryd y Bont in Llangennech ac yn Heol y Doc Newydd i Heol yr Orsaf in Llanelli.

Sefydlwyd ymarfer sgrinio newydd yn Nhalacharn yn dilyn cwynion am y traffig a'r tagfeydd mynych ar hyd y ffyrdd cul drwy'r dref. Gosodwyd pedwar safle tiwb tryledu gyda'r cyfeirnodau LAN/1, LAN/2, LAN/3 a LAN/4. Ystyriwyd y byddai pob un o'r safleoedd hyn yn elwa ar fonitro Nitrogen Deuocsid yn ystod 2022. Ni thorrwyd ar yr amcan ansawdd aer o gwbl yn unrhyw un o'r lleoliadau sgrinio a aseswyd.

Yn 2021, cafodd pedwar safle tiwb tryledu eu hadfer hefyd yn Ffair-fach, Llandeilo, un ar bob cangen o'r groesffordd yng ngoleuni'r gynlluniau i gael gwared ar y gylchfan a gosod goleuadau traffig i gynorthwyo cerddwyr i groesi ac er diogelwch i blant sy'n defnyddio'r llwybr i'r ysgolion cyfagos yn rheolaidd. Dangosodd asesiad ansawdd aer y byddai'r newid yn debygol o gynyddu tagfeydd a chiwio ar adegau brig, ond na fyddai'n cael effaith andwyol sylweddol ar ansawdd yr aer yn lleol. Mae'r canlyniadau ym mhob un o'r pedwar safle wedi rhoi cynnydd ymylol (1-2ug/m$^3$) o $NO_2$; fodd bynnag, y canlyniad uchaf oedd 16.5ug/m$^3$. Cafwyd cwynion pellach am y cynnydd canfyddedig mewn traffig ciwio, ac felly mae'r gwaith monitro yn parhau am y tro. Fodd bynnag

Mae ymarfer sgrinio parhaus pellach, a ddechreuwyd ym mis Mai 2017, yn monitro $NO_2$ mewn llwybrau presennol sy'n amgylchynu Ffordd Gyswllt Economaidd arfaethedig Cross Hands. Adroddwyd manylion yr ymarfer 2 flynedd cyntaf hwn yn Adroddiad Cynnydd Blynyddol 2020, gan asesu lefelau $NO_2$ cyn ac yn ystod y gwaith adeiladu. Fodd bynnag dylid adrodd ar y casgliadau terfynol ar ôl i'r ffordd gyswllt newydd gael ei hadeiladu a'i hagor, i arsylwi ar effaith lefelau $NO_2$ ar y llwybrau cyfagos (y bwriad gwreiddiol oedd cwblhau erbyn 2019 ond ers hynny mae wedi'i ohirio tan 2022). Agorodd y Ffordd Gyswllt Economaidd hon ym mis Awst 2022, cynhaliwyd asesiad sgrinio cyn ac yn ystod y gwaith adeiladu, a bydd adroddiad ar y flwyddyn olaf o fonitro $NO_2$ yn ystod 2023 yn cael ei gynnwys yn Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2024 i asesu effaith y ffordd newydd.

Mae monitro NO2₂ wedi parhau yn Heol Ffynnon Job, Hen Heol Sanclêr a Ffordd y Coleg Caerfyrddin i fonitro unrhyw effaith ers adeiladu ac agor Ffordd Gyswllt Gorllewin Caerfyrddin. Mae'r ffordd yn cysylltu'r A40 ger Travellers Rest â Ffordd y Coleg, gan ddarparu mynediad uniongyrchol i'r rhwydwaith cefnffyrdd ar gyfer safleoedd cyflogaeth allweddol sef Parc Dewi Sant, Hafan Derwen Bwrdd Iechyd Hywel Dda a champws Caerfyrddin Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Mae'r ffordd newydd hefyd yn gwasanaethu pencadlys newydd S4C, sef Yr Egin, sy'n brosiect mawr ar gyfer Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

Y gobaith oedd y gallai'r ffordd gyswllt leihau swm y traffig sy'n defnyddio Hen Heol Sanclêr a Heol Ffynnon Job. Hyd yma, nid ydym wedi gweld unrhyw effaith sylweddol heblaw'r duedd gyffredinol am i lawr yr ydym yn ei gweld ar draws safleoedd eraill yng Nghaerfyrddin. Er hynny, ac yn bwysicach fyth, ers i'r ffordd gael ei chwblhau a'i hagor ym mis Mawrth 2019, nid ydym wedi gweld unrhyw effaith andwyol ar Ffordd y Coleg ac ymhellach tuag at Heol Dŵr, Caerfyrddin, y gallai'r ffordd gyswllt newydd fod yn annog mwy o draffig tuag atynt. Rhoddir crynodeb o ganlyniadau'r safleoedd hyn yn nhabl 3.2 isod.

**Tabl 3.2 – Canlyniadau'r safleoedd y gallai Ffordd Gyswllt Gorllewin Caerfyrddin fod yn effeithio arnynt**

| Lleoliad y Safle | Cyfeirnod Tiwb Tryledu | Crynodiad Cymedr Blynyddol NO2 (µg/m³) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2017 | 2018 | 2019* | 2020 | 2021 | 2022 |
| Caerfyrddin – 2 Ffordd y Coleg | Carm/134 | 12.1 | 12.5 | 11.5 | 8.5 | 9.5 | 9.2 |
| Tre Ioan – 2 Heol Ffynnon Job | Carm/126 | 22.5 | 22.2 | 19.6 | 15.9 | 17.2 | 16.2 |
| Tre Ioan - 7 Hen Heol Sanclêr | Carm/132 | 17.1 | 16.8 | 15.5 | 12.1 | 14.2 | 11.7 |
| Caerfyrddin – 15 Park Terrace | DAC/02 | **41.4** | 38.3 | **40.0** | 29.6 | 31.9 | 31.4 |
| Caerfyrddin – Heol Dŵr | Carm/084 | 33.1 | 32.3 | 27.6 | 22.4 | 26.4 | 23.8 |
| Caerfyrddin – 44 Heol Dŵr | DAC/05 | 32.9 | 32.4 | 31.5 | 23.0 | 26.3 | 25.4 |

*Agorwyd Ffordd Gyswllt Gorllewin Caerfyrddin ym Mawrth 2019

Mae nifer o ddatblygiadau mawr wedi'u cynllunio ger Ffordd Gyswllt Gorllewin Caerfyrddin yn y dyfodol. Mae Gorllewin Caerfyrddin wedi'i nodi'n safle strategol yng Nghynllun

Datblygu Lleol y Cyngor ac mae wedi cael ei ddynodi ar gyfer datblygiad defnydd cymysg gan gynnwys 1,100 o dai newydd, ysgol gynradd, lle cyflogaeth, canolfan siopa fach, man agored a thai fforddiadwy. Felly, bydd gwaith monitro yn parhau i arsylwi unrhyw effeithiau a gaiff hyn ar y safleoedd hyn gan fod traffig yn debygol o gynyddu unwaith y bydd y datblygiadau hynny wedi'u cwblhau.

Gwnaed gwelliannau diogelwch ffyrdd i Gyffordd Thomas Arms o Stryd Thomas i Hen Heol yn Llanelli i helpu cerddwyr i groesi'n ddiogel yn Heol Felinfoel Isaf, a gwelliannau i'r safle bws yn Stryd Thomas. Roedd hyn yn cynnwys lledu'r troedffyrdd, cael gwared ar y troad i'r chwith tua'r gogledd a fyddai'n atal cerbydau rhag parcio/segura wrth ymyl y derbynyddion ac felly yn symud traffig ymhellach i ffwrdd. Cwblhawyd y gwaith ym mis Awst 2021.

**Tabl 3.3 – Canlyniadau safleoedd y gallai'r gwelliannau i gyffordd Thomas Arms, Llanelli fod yn effeithio arnynt**

| Lleoliad y Safle | Cyfeirnod Tiwb Tryledu | Crynodiad Cymedr Blynyddol NO2 (µg/m$^3$) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2018 | 2019 | 2020 | 2021* | 2022 |
| Llanelli – 3 Hen Heol | Carm/141 | 26.1 | 24.0 | 18.9 | 21.4 | 21.5 |
| Ger 13 Heol Felinfoel | DAL/07 | **44.4** | **41.2** | 31.6 | 37.4 | 37.9 |
| Stryd Thomas (Barnardos) | DAL/09 | 38.5 | 37.6 | 31.5 | 34.4 | 31.1 |
| Stryd Thomas (2) | Carm/104 | 36.4 | 32.7 | 25.6 | 28.5 | 28.2 |

*Cwblhawyd y gwaith i'r gyffordd ym mis Awst 2021

Ar draws llawer o Sir Gaerfyrddin roedd y lefelau Nitrogen Deuocsid i raddau helaeth yn gymharol â chanlyniadau 2021 neu ychydig yn uwch, ac roeddent yn parhau i fod yn llawer is na'r blynyddoedd cyn y pandemig. Yn nodedig, yn achos Stryd Thomas (Barnados) adroddwyd gostyngiad ar gyfer 2022 o gymharu â safleoedd eraill yn y cyffiniau; dyma'r safle monitro agosaf at welliant y gyffordd. Mae'n bosibl bod y newidiadau wedi cael effaith gadarnhaol, o ystyried y gwahaniaeth mewn tuedd o gymharu â'r safleoedd cyfagos eraill. Nid oes unrhyw effaith amlwg ar Heol Felinfoel isaf ers i'r newidiadau gael eu gwneud; fodd bynnag, nid yw'r safle wedi bod yn uwch na'r Amcan Ansawdd Aer o 40µg/m$^3$ am y drydedd

flwyddyn yn olynol yn 2022, felly nid yw'n ymddangos eu bod wedi cael effaith negyddol yn yr ardal hon.

# Ffynonellau Diwydiannol / sy'n Ffoi neu Heb eu Rheoli / Ffynonellau Masnachol

## 3.2.1 Ffynonellau Diwydiannol

### 3.2.1.1 Gosodiadau newydd neu arfaethedig y mae Asesiad Ansawdd Aer wedi'i gyflawni ar eu cyfer

Derbyniwyd cais am drwydded amgylcheddol newydd ar gyfer Parc Busnes y Strade, Llangennech, Llanelli ar gyfer gweithredu pedwar boeler biomas sy'n llosgi pren gwastraff heb ei halogi. Cynhaliwyd asesiad ansawdd aer i bennu'r effaith unigol a chyfunol ar dderbynyddion sensitif ac ardaloedd cadwraeth. Daeth yr Asesiad i'r casgliad y byddai'n annhebygol o gael effaith sylweddol ar ansawdd aer lleol yn unol ag amodau'r drwydded. Rhoddwyd Trwydded Amgylcheddol newydd.

Nid yw Cyngor Sir Caerfyrddin wedi nodi unrhyw ddatblygiadau newydd eraill gyda ffynonellau sy'n ffoi neu heb eu rheoli ers yr asesiad diwethaf yn ymwneud â gosodiadau newydd neu arfaethedig y mae asesiad ansawdd aer wedi'i gyflawni ar eu cyfer.

### 3.2.1.2 Gosodiadau diwydiannol presennol lle y mae allyriadau wedi cynyddu'n sylweddol neu mae amlygiad perthnasol newydd wedi cael ei gyflwyno

Nid yw Cyngor Sir Caerfyrddin wedi nodi unrhyw ddatblygiadau newydd gyda ffynonellau sy'n ffoi neu heb eu rheoli ers yr asesiad diwethaf yn ymwneud â gosodiadau diwydiannol presennol lle mae allyriadau wedi cynyddu'n sylweddol, neu lle mae amlygiad newydd perthnasol wedi cael ei gyflwyno.

### 3.2.1.3 Gosodiadau diwydiannol newydd neu sydd wedi newid yn sylweddol heb unrhyw Asesiad Ansawdd Aer blaenorol

Mae Chwarel Torcoed yn cael ei rheoleiddio o dan drwydded Rhan B ac mae wedi amrywio'r tanwydd a ddefnyddir ar y safle ar gyfer gwaith haenu cerrig ffyrdd o dan ei thrwydded Rhan B. Mae'r newid yn golygu defnyddio nwy LPG fel prif danwydd gydag olew gwresogi fel tanwydd eilaidd yn hytrach na defnyddio olew tanwydd wedi'i brosesu yn unig. Mae'r newid yn cynnwys defnyddio tanwydd glanach a dylai leihau allyriadau llygredd. Gofynnwyd i Chwarel Torcoed gynnal asesiad ansawdd aer. Mae'r asesiad ansawdd aer yn dangos y byddai'r newid o olew tanwydd trwm tuag at LPG yn gwella

allyriadau yn sylweddol gan y byddent yn symud tuag at ffynhonnell tanwydd llawer glanach. Mae'r defnydd o olew nwy fel tanwydd argyfwng wrth gefn yn unig yn destun amodau defnydd cyfyngedig.

Nid yw Cyngor Sir Caerfyrddin wedi nodi unrhyw ddatblygiadau newydd gyda ffynonellau sy'n ffoi neu heb eu rheoli ers yr asesiad diwethaf yn ymwneud â gosodiadau newydd neu arfaethedig y mae asesiad ansawdd aer wedi'i gyflawni ar eu cyfer.

#### 3.2.1.4 Depos Tanwydd Mawr sy'n Storio Petrol

Nid yw Cyngor Sir Caerfyrddin wedi nodi unrhyw ddatblygiadau newydd gyda ffynonellau sy'n ffoi neu heb eu rheoli ers yr asesiad diwethaf yn ymwneud â depos tanwydd mawr sy'n storio petrol.

#### 3.2.1.5 Gorsafoedd Petrol

Ni fu unrhyw orsafoedd petrol newydd â thrwybwn sy'n fwy na 2000m$^3$ y flwyddyn ger ffordd brysur (>30,000 cerbyd/dydd) lle mae amlygiad perthnasol o fewn 10m i'r pympiau.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer gorsaf betrol newydd ar dir ger Cylchfan Sanclêr, Hen Heol Dinbych-y-pysgod, Sanclêr, Sir Gaerfyrddin. SA33 4JW. Mae datblygiad ar y gweill (2023) i adeiladu'r orsaf betrol newydd yn Hen Heol Dinbych-y-Pysgod, Sanclêr. Cynhaliwyd Asesiad Ansawdd Aer fel rhan o'r broses gynllunio, a ddaeth i'r casgliad na fyddai unrhyw effaith sylweddol ar ansawdd aer lleol yn sgil y cynnydd mewn traffig a fyddai'n cael ei greu. Ar ôl ei hadeiladu, byddai angen trwydded amgylcheddol rhan B ar gyfer gweithgareddau Adfer Anwedd Cam 1b a Cham II.

#### 3.2.1.6 Ffermydd Dofednod

Nid yw Cyngor Sir Caerfyrddin wedi nodi unrhyw ddatblygiadau newydd gyda ffynonellau sy'n ffoi neu heb eu rheoli ers yr asesiad diwethaf yn ymwneud â ffermydd dofednod.

### 3.2.2 Ffynonellau sy'n Ffoi neu Heb eu Rheoli

#### 3.2.2.1 Safleoedd Tirlenwi

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cadarnhau nad oes unrhyw ffynonellau newydd neu ffynonellau posibl sydd newydd eu nodi o ddeunydd gronynnol sy’n ffoi neu heb ei reoli, gan gynnwys safleoedd tirlenwi.

**3.2.2.2 Chwareli**

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cadarnhau nad oes unrhyw ffynonellau newydd neu ffynonellau posibl sydd newydd eu nodi o ddeunydd gronynnol sy’n ffoi neu heb ei reoli, gan gynnwys chwareli.

**3.2.2.3 Ffyrdd Cludo Nwyddau heb eu Hadeiladu**

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cadarnhau nad oes unrhyw ffynonellau newydd neu ffynonellau posibl sydd newydd eu nodi o ddeunydd gronynnol sy’n ffoi neu heb ei reoli, gan gynnwys ffyrdd cludo nwyddau heb eu hadeiladu ar safleoedd diwydiannol.

**3.2.2.4 Gorsafoedd Trosglwyddo Gwastraff**

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cadarnhau nad oes unrhyw ffynonellau newydd neu ffynonellau posibl sydd newydd eu nodi o ddeunydd gronynnol sy’n ffoi neu heb ei reoli, gan gynnwys safleoedd trosglwyddo gwastraff.

**3.2.2.5 Ffynonellau posibl arall o allyriadau gronynnol sy’n ffoi**

Nid oes gan Sir Gaerfyrddin unrhyw ardaloedd a nodwyd sydd â chefndir $PM_{10}$ >25µg/m$^3$. Caiff derbynyddion posibl yng nghyffiniau gweithgareddau llychlyd megis adeiladu neu ddymchwel eu sgrinio a lle bo'n berthnasol, gofynnir i ddatblygwyr asesu effeithiau llwch cynnig adeiladu neu ddymchwel. Lle nad oes angen asesiad, gofynnir i ddatblygwyr ddilyn mesurau arfer da. Ym mhob achos, disgwylir i gynllun rheoli llwch neu gynllun rheoli adeiladu gefnogi ceisiadau o'r fath, er mwyn sicrhau bod unrhyw effeithiau andwyol a nodwyd gan y datblygiad yn cael eu lliniaru fel eu bod yn risg ddibwys.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cadarnhau nad oes unrhyw ffynonellau newydd neu ffynonellau posibl sydd newydd eu nodi o ddeunydd gronynnol sy’n ffoi neu heb ei reoli, gan gynnwys ffynonellau posibl eraill o allyriadau deunydd gronynnol sy'n ffoi.

## 3.2.3 Ffynonellau Masnachol neu Ddomestig

**3.2.3.1 Gosodiadau Unigol - Peiriannau Hylosgi Biomas**

Nodwyd bod nifer o foeleri biomas wedi cael eu gosod ar draws y sir, ac nid ymgynghorwyd ynghylch llawer ohonynt drwy'r broses ymgynghori cynllunio. Mae llawer o'r peiriannau yn gysylltiedig â defnydd amaethyddol neu leoliadau masnachol lle mae'r cynlluniau Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy wedi bod yn brif reswm dros eu gosod. Mae llawer o'r peiriannau wedi'u leoli mewn mannau gwledig, er bod rhai yn ymddangos mewn trefi. Nid ystyrir bod llawer o'r rhain yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar ansawdd aer lleol, er na cheir manylion perthnasol yr holl beiriannau bob amser.

Fel o Ganllawiau Technegol Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol (22) mae'n ofynnol rhestru unrhyw osodiadau sydd â'r potensial i darfu ar ansawdd aer ag amlygiad perthnasol gerllaw.

Cynhaliwyd asesiad boeler biomas ar gyfer boeler 80kw ym Mhantypistyll, Llanwrda, ar ôl cyflwyno cais cynllunio. Yn dilyn Canllawiau Technegol Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol (LAQM TG) (22) a defnyddio offerynnau Cyfrifo Allyriadau Sgrinio Defra i gyfrifo cyfraddau allyriadau gwirioneddol ac wedi'u targedu, cafodd yr angen am asesiadau manwl pellach ei werthuso. Yn yr achos hwn, nododd y cyfleuster arfaethedig fod cyfraddau allyriadau gwirioneddol yn sylweddol is na'r cyfraddau allyriadau wedi'u targedu ar gyfer $PM_{10}$ a $NO_2$ ac y gellid eu sgrinio allan yn hyderus. Roedd capasiti'r boeler a'r defnydd o danwydd a gymeradwywyd gan BSL, yn amodol ar brawf rheoli ansawdd diwedd gwastraff, yn golygu ei fod yn is na'r trothwy gofynnol o ran trwydded amgylcheddol. Argymhellwyd bod Froling T4e 80kW yn cael ei ddefnyddio mewn ardaloedd rheoli mwg wrth losgi sglodion pren a phelenni pren yn unig.

**3.2.3.2 Effaith Gyfunol – Peiriannau Hylosgi Biomas**

Mae un lleoliad ger Llanelli wedi'i nodi fel 'crynhoad' bach o foileri biomas lle y bo potensial ar gyfer effaith leol. Derbyniwyd cais am drwydded amgylcheddol newydd ar gyfer Parc Busnes y Strade, Llangennech, Llanelli ar gyfer gweithredu pedwar boeler biomas sy'n defnyddio pren gwastraff heb ei halogi fel tanwydd. Mae'r safle diwydiannol mawr hefyd yn defnyddio pum boeler biomas arall sy'n llosgi sglodion pren gwyryf. Cynhaliwyd asesiad ansawdd aer i bennu'r effaith unigol a chyfunol ar dderbynyddion sensitif ac ardaloedd cadwraeth. Daeth yr Asesiad i'r casgliad y byddai'n annhebygol o gael effaith sylweddol ar ansawdd aer lleol yn unol ag amodau'r drwydded. Rhoddwyd Trwydded Amgylcheddol newydd.

Nid yw Cyngor Sir Caerfyrddin wedi nodi unrhyw ffynonellau masnachol neu ddomestig eraill mewn perthynas ag ardaloedd lle gallai effaith gyfunol sawl ffynhonnell hylosgi biomas fod yn berthnasol.

#### 3.2.3.3 Ffynonellau Eraill

Nid yw Cyngor Sir Caerfyrddin wedi nodi unrhyw ffynonellau masnachol neu ddomestig eraill mewn perthynas â'r isod:

- Ardaloedd lle y gallai llosgi tanwydd solet domestig fod yn berthnasol
- Peiriannau sy'n cyfuno gwres a phŵer

## 3.3 Ffynonellau Eraill

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn nodi nad oes unrhyw ddatblygiadau lleol newydd neu sydd newydd eu nodi a allai gael effaith ar ansawdd aer o fewn ardal yr awdurdod lleol.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cadarnhau bod y canlynol wedi cael eu hystyried:

- Ffynonellau traffig ffyrdd
- Ffynonellau trafnidiaeth eraill
- Ffynonellau diwydiannol
- Ffynonellau masnachol a domestig
- Datblygiadau newydd gyda ffynonellau sy'n ffoi neu heb eu rheoli

# 4 Polisïau a Strategaethau sy'n Effeithio ar Lygredd yn yr Awyr

## Strategaeth Ansawdd Aer Leol/Ranbarthol

Nid yw Cyngor Sir Caerfyrddin wedi datblygu Strategaeth Ansawdd Aer Leol benodol. Mae'r gwaith ansawdd aer yn seiliedig ar y strategaethau cenedlaethol ar gyfer monitro ansawdd aer ac mae hwn wedi'i ddefnyddio fel Cynllun Ansawdd Aer y sir. Mae'r gwaith ansawdd aer yn cael ei adolygu'n gyson i sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol ac yn briodol. Mae dynodi’r Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer yn Llandeilo, Llanelli a Chaerfyrddin a sefydlu'r grwpiau cynllunio gweithredu a llywio wedi helpu i feithrin y cysylltiadau â rhanddeiliaid mewnol.

Mae cael mwy o gysylltiadau mewnol wedi helpu i godi proffil gwaith ansawdd aer fel bod mwy o gydweithredu rhwng adrannau yn arwain at well cyfathrebu a threfniadau gweithio.

Datblygwyd dogfen ranbarthol rhwng Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Powys a Sir Benfro yn 2011–12 a oedd wedi'i hanelu at ddatblygwyr a chynllunwyr i ddarparu canllawiau ar safbwynt ansawdd aer ar ddatblygiadau newydd. Roedd y ddogfen yn seiliedig yn bennaf ar ddogfen ganllaw Environmental Protection UK “Development Control: Planning for Air Quality (2010 Update)”. Cafodd y ddogfen ganllaw gydweithredol ei hysgrifennu a'i chytuno rhwng y pedwar awdurdod a'i chyhoeddi ym mis Medi 2012. Fe'i gwnaed ar gael i adrannau cynllunio pob awdurdod ac fe'i defnyddiwyd i gynorthwyo gydag ymgyngoriadau cynllunio. Mae'r ddogfen yn dwyn y teitl “Mid and West Wales, Air Quality: A Guide for Developers”.

Ers yr adolygiad o ddogfen EPUK 2010 (a gyhoeddwyd ym mis Mai 2015 ac yn fwy diweddar ym mis Ionawr 2017), cytunwyd rhwng y pedwar awdurdod y byddai dogfen 2017 yn ffurfio sail y Strategaeth Ranbarthol. Fel rhan o'r gwaith cynllunio gweithredu, rydym yn edrych ar ddatblygu strategaethau lleol y gellir eu cymhwyso i ddatblygu gyda'r prif nod o leihau effeithiau ansawdd aer o ddatblygiadau lle bynnag y bo modd.

Drwy gyflawni ein swyddogaethau o dan Ran IV Deddf 1995, rhoddwyd ystyriaeth briodol i'r canllawiau polisi a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, sef 'Rheoli Ansawdd Aer Lleol yng Nghymru', ac mae'r pum ffordd o weithio fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r

Dyfodol (Cymru) 2015 yn cael eu mabwysiadu wrth gyflawni ein swyddogaethau i reoli ansawdd aer lleol.

## Polisïau Cynllunio Ansawdd Aer

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wrthi'n cwblhau'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig (CDLl) 2018-2033 ar gyfer ei ardal (ac eithrio'r rhan honno a gynhwysir o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog). Pan gaiff ei gwblhau'n derfynol (ei fabwysiadu), bydd y CDLl Diwygiedig yn disodli'r CDLl mabwysiedig presennol a bydd penderfyniadau ar ganiatâd cynllunio yn cael eu seilio'n bennaf ar ei gynnwys. Cafodd Cynllun Datblygu Lleol presennol Sir Gaerfyrddin ei fabwysiadu gan y Cyngor Sir ar 10 Rhagfyr 2014. Hyd nes y caiff y CDLl Diwygiedig ei fabwysiadu, bydd y CDLl 2006-2021 presennol yn parhau i fod ar waith ar gyfer pob penderfyniad cynllunio, yn unol â chyngor a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Er y dylai cynigion datblygu gael eu hystyried yn ôl polisïau a darpariaethau'r Cynllun yn gyfan gwbl (ynghyd ag ystyriaethau a pholisïau perthnasol eraill), y polisi Cynllun Datblygu Lleol mwyaf nodedig o ran ansawdd aer yw EP2: Llygredd a TR2: Lleoliad y Datblygiad – Ystyriaethau Trafnidiaeth a nodir isod:

**Polisi EP2 Llygredd**

*Lle bynnag y bo modd, dylai cynigion ar gyfer datblygiadau geisio cyfyngu ar effeithiau llygredd. Bydd yn ofynnol i ddatblygiadau newydd ddangos:*

a) *Nad ydynt yn gwrthdaro ag amcanion y Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol neu'n cael effaith andwyol i raddau arwyddocaol ar Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer dynodedig (mae'n bosibl y gosodir amodau ar ddatblygiadau a ganiateir i gydymffurfio â'r arferion gorau);*
b) *Nad ydynt yn achosi dirywiad o ran ansawdd dŵr;*
c) *Eu bod yn sicrhau y cyfyngir ar lygredd golau a sŵn, lle bo'n briodol;*
d) *Eu bod yn sicrhau yr ymdrinnir â pheryglon sy'n codi o dir halogedig trwy archwiliad tir ac asesiad risg priodol a gwaith adfer tir er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'r defnydd arfaethedig.*

| |
|---|
| **Amcanion Strategol a Gefnogir:** SO4, SO5, SO10 ac SO11 |

| |
|---|
| *Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd gyda pholisïau a chynigion perthnasol eraill y Cynllun Datblygu Lleol hwn.* |

**Polisi TR2: Lleoliad y Datblygiad - Ystyriaethau Trafnidiaeth**

**Bydd cynigion sydd â'r potensial i greu nifer sylweddol o deithiau'n cael eu caniatáu:**

a. *Os yw'r datblygiad yn cael ei leoli mewn modd sy'n gyson ag amcanion strategol y cynllun, ei fframwaith aneddiadau a'i bolisïau a chynigion;*
b. *Os yw'n hygyrch trwy ffyrdd o deithio heblaw ceir gan gynnwys trafnidiaeth gyhoeddus, beicio a cherdded;*
c. *Os gwneir darpariaeth ar gyfer ffyrdd o deithio heblaw ceir ac i bobl ag anawsterau symudedd yn nyluniad y cynnig ac wrth ddarparu cyfleusterau ar y safle;*
d. *Os yw Cynlluniau Teithio wedi cael eu hystyried a, lle bo'n briodol, eu hymgorffori.*

| |
|---|
| **Amcanion Strategol a Gefnogir:** SO1, SO2, SO3, SO4, SO5, SO6, SO8, SO9, SO10, SO11, SO12, SO13 ac SO14 |
| *Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd gyda pholisïau a chynigion perthnasol eraill y Cynllun Datblygu Lleol hwn.* |

Mae Gorchmynion Rheoli Ansawdd Aer ar gyfer Caerfyrddin a Llanelli wedi cael eu llofnodi ac mae cynlluniau gweithredu wedi cael eu datblygu. Fel rhan o'r gwaith cynllun gweithredu, mae trafodaethau'n parhau o ran pa gyfleoedd sydd ar gael i ddiweddaru'r testun atodol i Bolisi EP2 (paragraff 6.8.21) a chofleidio polisi diweddaraf Llywodraeth Cymru ar ansawdd aer.

Dylid nodi bod canllawiau clir ar amrediad o faterion Diogelu'r Amgylchedd wedi'u cynnwys o fewn Polisi Cynllunio Cymru, yn arbennig mewn perthynas ag effaith datblygu ar Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer a lleihau llygredd aer a dŵr. Nid yw'r rhain felly'n cael eu hadrodd yn y Cynllun Datblygu Lleol. Gellir dod o hyd i ddatganiadau polisi rheoli datblygu cenedlaethol ychwanegol ym Mholisi Cynllunio Cymru.

## Cynlluniau a Strategaethau Trafnidiaeth Lleol

Yn y gorffennol, roedd gan yr awdurdod Gynllun Trafnidiaeth Lleol; fodd bynnag, cafodd hwn ei ymgorffori mewn Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a sefydlwyd o dan gyfarwyddyd Llywodraeth Cymru. Mae'r rhanbarth yn cwmpasu awdurdodau unedol Castell-nedd Port Talbot, Abertawe, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Enw torfol yr awdurdodau oedd Consortiwm Cludiant Integredig De-orllewin Cymru (SWWITCH).

Nid yw'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, fel y'i cyhoeddwyd gan SWWITCH, bellach yn cael ei ddefnyddio yn yr un modd ers i'r cyllid ar gyfer y consortiwm gael ei ddileu. Disgwylir bellach y bydd y cynlluniau trafnidiaeth lleol yn cael eu datblygu ond bydd yn dal yn rhaid cael ystyriaeth briodol i'r canllawiau trafnidiaeth rhanbarthol.

Fodd bynnag, mae'r trefniant partneriaeth gyda'r awdurdodau eraill yn dal ar waith ac maent wedi datblygu cynllun trafnidiaeth lleol cyfunol ar gyfer Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn cwmpasu'r cyfnod 2015 – 2020.

Mae'r gwaith rheoli ansawdd aer lleol a oedd yn cyfrannu at y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol bellach wedi'i drosglwyddo a rhoddir ystyriaeth briodol iddo o fewn y Cynllun Trafnidiaeth Lleol a'r ymyriadau polisi a seilwaith, sy'n cael eu teilwra i helpu i wella ansawdd aer a lleihau llygredd aer o ffynonellau cludiant.

Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach am y Cynllun Trafnidiaeth Lleol gan ddefnyddio'r ddolen isod: https://www.abertawe.gov.uk/Cynlluntrafnidiaethlleol

Cyfeirir hefyd at hyn yn Strategaeth Barcio Sir Gaerfyrddin 2018, y gellir dod o hyd iddi yma: http://democratiaeth.sirgar.llyw.cymru/documents/s20624/Adroddiad.pdf?LLL=1

## Cynlluniau a Strategaethau Teithio Llesol

Cydnabyddir mai $NO_2$ o draffig ffyrdd yw'r prif destun pryder ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Felly dylid croesawu unrhyw fesurau sy'n gallu annog a hwyluso dulliau trafnidiaeth amgen. Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn rhoi gofyniad statudol ar awdurdodau lleol i nodi a gwella llwybrau cerdded a beicio, sy'n cynnwys cyhoeddi mapiau i nodi llwybrau addas, ac i ddarparu cysylltiadau â lleoliadau allweddol, megis mannau gwaith, addysg ac ati.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cyhoeddi ei fapiau rhwydwaith integredig, a gellir dod o hyd iddynt yma: https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/teithio-ffyrdd-a-pharcio/teithio-llesol/#.XGWBuFz7TIU

Mae hyn yn cyd-fynd â nod hirdymor y cyngor o ddod yn Ganolbwynt Beicio Cymru. Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach am strategaeth feicio Sir Gaerfyrddin yma: https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/busnes/twristiaeth/blaenoriaethau-twristiaeth/beicio/

## Amcanion Llesiant Awdurdodau Lleol

Yn dilyn gwaith a wnaed i lunio Asesiad Llesiant Sir Gaerfyrddin, cyhoeddodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin ar gyfer 2018-2023. http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/862/Carmarthenshire_Well-being_Plan_final 290118.pdfMae hyn yn seiliedig i raddau helaeth ar y 7 nod llesiant a'r pum ffordd o weithio (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015).

Mae Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027 Sir Gaerfyrddin yn nodi ei hamcanion llesiant, sy'n ceisio gwella llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol yn y sir yn barhaus. Diweddarwyd y strategaeth hon yn 2022 yn dilyn ymgynghoriad yn ystod haf 2022.

Mae Strategaeth Gorfforaethol 2022-27 Sir Gaerfyrddin yn cynnwys ei hamcanion llesiant ar gyfer y cyfnod. Gall Ansawdd Aer effeithio ar dri o'r pedwar amcan llesiant sydd wedi'u nodi, Amcan Llesiant 1. (Dechrau'n Dda) - Galluogi ein plant a'n pobl ifanc i gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd, Amcan Llesiant 2 (Byw a Heneiddio'n Dda) - Galluogi ein trigolion i fyw a heneiddio'n dda ac Amcan Llesiant 3 – (Cymunedau Ffyniannus) - Galluogi ein cymunedau a'n hamgylchedd i fod yn iach, yn ddiogel ac yn ffyniannus.

## Cynlluniau a Strategaethau Seilwaith Gwyrdd

Mae Strategaeth Seilwaith Gwyrdd a Glas wedi'i datblygu a gellir dod o hyd iddi yma lle mae pob ased seilwaith gwyrdd ar draws y Sir wedi cael ei fapio. Bydd hyn yn helpu i nodi meysydd lle gellid gweithredu a phlannu cynlluniau plannu coed mewn seilwaith gwyrdd ardal (at ddibenion monitro ac adrodd) ledled y Sir.

Mae'r Strategaeth yn adeiladu ar dystiolaeth ar gost-effeithiolrwydd a manteision defnyddio atebion sy'n seiliedig ar natur i fynd i'r afael ag ystod o broblemau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a llesiant. Mae cynlluniau gweithredu wedi'u datblygu i wneud gwelliannau ar draws wyth tref allweddol yn y Sir.

Mabwysiadodd y Cyngor ganllawiau cynllunio atodol ym mis Medi 2016, 'Creu Ymdeimlad o Le a Dylunio', sy'n annog datblygwyr i fabwysiadu dull seilwaith gwyrdd i gefnogi polisi GP1 o'r Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer 'Cynaliadwyedd a Dylunio o Ansawdd Uchel'.

Mae gan Strategaeth Gorfforaethol 2018-23 y Cyngor hefyd amcan Llesiant i '*Gofalu am yr amgylchedd ar hyn o bryd ac i'r dyfodol'*, sy'n adlewyrchu'r Nod 'Cymru Gydnerth' yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus bennu amcanion i gyflawni 'amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol'.

Cafodd Blaengynllun ar gyfer Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i ddiogelu cynefinoedd a bioamrywiaeth ei ddiwygio gan Gyngor Sir Caerfyrddin ym mis Chwefror 2019 ac mae ei gamau gweithredu cysylltiedig yn cynnwys cam gweithredu 7bTH: *'Bydd Priffyrdd a Thrafnidiaeth yn gweithio gyda'r adain Cadwraeth Wledig i adnabod ac amlygu cyfleoedd i ddatblygu a gweithredu seilwaith newydd sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i gydnerthedd ecolegol.*'

Cyhoeddwyd Strategaeth Pryfed Peillio ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn ddiweddar yn Awst 2020 er mwyn cyfrannu at gamau cadarnhaol ar gyfer pryfed peillio ymhob agwedd ar waith y Cyngor. Mae Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin yn gweithio i lunio Cynllun Adfer Natur Lleol i fynd i'r afael â'r materion sy'n achosi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, a chefnogi'r broses adfer.

Mae'r gwaith hwn yn cefnogi'r amcanion strategol a nodir yn 'Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru' a gynhyrchwyd gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin ac amcanion Llesiant y Cyngor a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Strategaethau Newid Hinsawdd

Mae yna fesurau yn [Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027] Sir Gaerfyrddin sy'n ymwneud â Newid Hinsawdd, yn benodol yn gysylltiedig â gweithredu a hyrwyddo'r defnydd o ynni adnewyddadwy a lleihau allbynnau carbon. Ym mis Chwefror 2019 mabwysiadodd Cyngor Sir Caerfyrddin gynnig di-garbon i fod yn garbon niwtral erbyn 2030 i gefnogi amcan llesiant 12 'Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol'. Ers hynny, ni yw'r awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i gyhoeddi cynllun gweithredu carbon sero net a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ym mis Chwefror 2020, sy'n amlinellu ein taith tuag at fod yn Awdurdod Lleol Carbon Sero Net erbyn 2030.

# 5 Casgliad a Chamau Gweithredu Arfaethedig

## Casgliadau o Ddata Monitro Newydd

Nid oes gormodiant o'r Amcan Ansawdd Aer Blynyddol ar gyfer $NO_2$ wedi bod yn 2022, 2021 neu 2020, o gymharu ag un safle yn 2019 (ar ôl cyfrifo'r pellter $NO_2$ i'r amlygiad agosaf) yn Ardal Rheoli Ansawdd Aer Caerfyrddin.

Yn achos 2021 a 2022 cofnododd dau safle ganlyniad oedd yn cydymffurfio'n ffiniol, o fewn 10% o'r Amcan Ansawdd Aer. Roeddent yn cynnwys rhif 13 Heol Felinfoel (DAL/07) ac 85 Heol y Prior (DAC/08). 85 Heol y Prior oedd yr unig safle a oedd ar y ffin o ran cydymffurfio â'r amcan ansawdd aer yn 2020 hefyd. Mae'r safle hwn yn parhau i roi'r darlleniadau uchaf yn y Sir, ond dyma'r drydedd flwyddyn yn olynol nad yw wedi mynd y tu hwnt i'r amcan ansawdd aer.

Cafodd y safleoedd ger 13 Heol Felinfoel (DAL/07) a 85 Heol y Prior (DAC/08) eu haddasu ymhellach gan nad yw'r safle monitro wedi ei leoli ar ffasâd y derbynnydd agosaf. Y crynodiad blynyddol a ragwelwyd oedd 34.9µg/m$^3$ ar gyfer DAL/07, ond roedd DAC/08 ar y ffin o ran cydymffurfio, â chrynodiad a ragwelwyd o 37.6µg/m$^3$, ar ôl cyfrifo'r gostyngiad $NO_2$ gyda phellter. Mae hyn yn debyg i 2021 (36.8µg/m$^3$) a 2020 (35.3µg/m$^3$) ond yn llawer is na'r tair blynedd blaenorol pan gofnodwyd amlygiad a ragwelwyd o 44.3µg/m$^3$ (2019), 48.5µg/m$^3$ (2018) a 53.6µg/m$^3$ (2017).

Nid oedd unrhyw safleoedd yn Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llanelli yn fwy na'r amcan ansawdd aer ar gyfer 2019-2022, o gymharu ag un gormodiant a gofnodwyd ar gyfer 2018. Roedd hyn ger 13 Heol Felin-foel (DAL/07), ac er ei bod yn ymddangos i ddechrau ei fod yn fwy na'r amcan ansawdd aer ar gyfer 2019, ar ôl cyfrifo'r pellter gostyngiad $NO_2$, gostyngodd y lefelau o 41.2µg/m$^3$ i 38.1µg/m$^3$. Yn 2020 nid oedd angen unrhyw gyfrifiad gan fod y cyfartaledd blynyddol wedi gostwng i 31.6µg/m$^3$. Mae'n dda adrodd bod y safle hwn wedi disgyn islaw'r Amcan Ansawdd Aer Blynyddol am y pedwerydd tro mewn naw mlynedd, gan ei fod yn tueddu i ddarparu'r darlleniadau uchaf yn Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llanelli.

Cofnododd pedwar safle arall ar draws y Sir ganlyniad blynyddol uwch na 30µg/m$^3$ ac roedd dau ohonynt wedi'u lleoli yn Llanelli gan gynnwys: Carm/077 Heol y Sandy (2) a

Stryd Thomas (Barnados) (DAL/09). Roedd un safle wedi'i leoli yn Ardal Rheoli Ansawdd Aer Caerfyrddin 15 Park Terrace (DAC/02) ac roedd un safle wedi'i leoli yn Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llandeilo, Stryd Rhosmaen (Rhif 123)(DA/09).

Roedd Carm/077 Heol y Sandy(2) i'w weld ar y ffin o ran yr amcan ansawdd aer yn 2019, ond ar ôl cyfrifo'r pellter gostyngiad $NO_2$, gostyngodd y lefelau o 38.9µg/m$^3$ i 29.6µg/m3, gan fod y safle monitro cryn bellter o'r derbynnydd agosaf ac ar bwys y ffordd. Ar gyfer canlyniadau 2022, 2021 a 2020, nid oedd angen cyfrifiad pellter gan nad oedd yn cofnodi canlyniad ar y ffin, ond byddai'r canlyniad a ragwelid yn debygol o adlewyrchu 44 Heol y Sandy (DAL22) yn 27.6µg/m$^3$ oherwydd bod y safle hwn yn adlewyrchu'r derbynnydd agosaf.

Bu i Stryd Thomas (Barnados) (DAL/09) gofnodi 31.1µg/m$^3$ ar gyfer 2022, 34.4µg/m$^3$ ar gyfer 2021, 31.5µg/m$^3$ ar gyfer 2020, ac roedd ar y ffin o ran cydymffurfio yn 2019 gyda chrynodiad o 37.6µg/m$^3$, ac felly am y bumed flwyddyn yn olynol nid yw wedi mynd y tu hwnt i'r Amcan Ansawdd Aer.

Ymddengys bod 15 Park Terrace (DAC/02) yn mynd y tu hwnt i'r amcan ansawdd aer yn 2019; fodd bynnag, ar ôl cyfrifo'r pellter gostyngiad $NO_2$, gostyngodd y lefelau o 40.0µg/m$^3$ i 37.6µg/m$^3$ a oedd yn gynnydd bach ers 2018 pryd y nodwyd 36µg/m$^3$. Er bod lefelau ar y safle hwn wedi gwella'n sylweddol ar gyfer 2020 gyda 29.6µg/m$^3$, gwelwyd gwelliant sylweddol yn 2021 o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol gyda 31.9µg/m$^3$ a 31.1µg/m$^3$ ar gyfer 2022. Mae'n bwysig ein bod yn parhau i ymchwilio i hyn i sicrhau bod y lefelau'n parhau i ostwng.

Hefyd, ni nododd Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llandeilo unrhyw achosion o ormodiant o ran yr amcan ansawdd aer blynyddol, a hynny am y bedwaredd flwyddyn yn olynol ers i'r Ardal Rheoli Ansawdd Aer gael ei datgan. Ni nodwyd bod gan unrhyw safleoedd yn Llandeilo ganlyniadau blynyddol a oedd yn fwy na 30µg/m$^3$ o fewn ei Hardal Rheoli Ansawdd Aer ar gyfer 2020, er bod yna ddau yn 2021 a dim ond un yn 2022, eto, roedd y canlyniadau hyn rhwng 30-32µg/m$^3$.
Roedd y ddau safle yn Llandeilo a groesodd yr Amcan Ansawdd Aer ddiwethaf yn ystod 2018, ac a oedd yn cynnwys safleoedd 123 Stryd Rhosmaen (DA/09) a gofnododd 38.6µg/m$^3$ yn 2019 ar ôl croesi'r Amcan Ansawdd Aer am y chwe blynedd flaenorol, a 133 Stryd Rhosmaen (DA/10) a aeth hefyd tu hwnt i'r Amcan Ansawdd Aer ddiwethaf yn 2018

wrth gofnodi 41.3µg/m$^3$, ond gwelwyd gostyngiad sylweddol ar gyfer 2019 wrth gofnodi 34.8µg/m$^3$, a chwymp hyd yn oed yn fwy i 24.3µg/m$^3$ ar gyfer 2020. Adroddodd 2021 a 2022 ganlyniadau tebyg o 29.5µg/m$^3$ (2021) a 28.8µg/m$^3$ (2022).

Yn 2019 roedd yn ymddangos bod Stryd Rhosmaen (2) (Carm/083) o fewn 10% o gydymffurfio wrth gofnodi 36.8µg/m$^3$ (2019) ond cofnodwyd 33.1µg/m$^3$ yn y diwedd ar ôl cyfrifo'r gostyngiad $NO_2$ gyda phellter. Fodd bynnag, cwympodd hyn i 27.4µg/m$^3$ ar gyfer 2020 a 31.7µg/m$^3$ ar gyfer 2021, ac yn fwy diweddar 28.5µg/m$^3$ ar gyfer 2022 ac felly nid oes angen cyfrifiad pellach ar gyfer y tair blynedd diwethaf.

Nid yw holl ardaloedd eraill y sir lle y mae gwaith monitro tiwbiau tryledu yn cael ei gyflawni wedi nodi unrhyw ardaloedd gormodiant eraill. Fodd bynnag, bydd angen monitro ymhellach unrhyw safleoedd sy'n parhau i gydymffurfio o drwch blewyn a gwneud rhagor o waith arnynt er mwyn sicrhau nad yw lefelau $NO^2$ yn fwy na'r amcan ansawdd aer yn y dyfodol, wrth i ddatblygiadau gael eu cynllunio yn y dyfodol, a rhag ofn nad yw'r tywydd yn cael dylanwad ffafriol ar y canlyniadau.

## Casgliadau yn Ymwneud â Datblygiadau Lleol Newydd

Mae gwaith yn parhau ar nifer o safleoedd datblygu newydd ar draws y sir yr adroddwyd amdanynt eisoes, ond hyd yn hyn nid oes unrhyw effeithiau ar ansawdd aer wedi cael eu nodi.

Cafodd Ffordd Gyswllt Gorllewin Caerfyrddin ei chwblhau a'i hagor i'r cyhoedd ym mis Mai 2019, mae'n ymddangos bod tagfeydd wedi gwella ac nid yw'r gwaith o fonitro $NO_2$ yn yr ardaloedd cyfagos wedi nodi unrhyw effaith andwyol ar ansawdd aer. Mae datblygiad yn y dyfodol wedi'i gynllunio i'r gorllewin o'r ffordd osgoi ac felly bydd y gwaith monitro yn parhau i sicrhau nad yw'r ffordd osgoi yn symud y broblem i ran arall o'r dref.

Adeiladwyd ac agorwyd Cam 2 o ddatblygiad Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands (ELR) yn 2022. Mae Cam 2 yn cysylltu Heol y Llew Du â'r A476 i'r gogledd o bentref Gors-las (cyn y gyffordd â'r B4297 Heol y Gât). Mae hyn yn cynnwys y cyswllt cyntaf o'r A476 i Heol Norton, yr ail gyswllt o Heol Norton i Heol y Llew Du ynghyd â ffordd gyswllt arall o Heol Norton i'r Ffordd Gyswllt Economaidd, a ddylai helpu i gyfeirio cerbydau cludo i'r Ffordd Gyswllt Economaidd i ffwrdd o rai eiddo preswyl. Mae'r ffordd yn agor mynediad i Safle Cyflogaeth Strategol Dwyrain Cross Hands, gan fod o fudd i'r seilwaith presennol a

gwella llifau traffig ac amseroedd teithio. Ei nod hefyd yw lliniaru tagfeydd a gwella diogelwch wrth Gylchfan yr A48 yn Cross Hands, yr A476 Heol Llandeilo a chyffordd 'chwe ffordd' Gors-las ar yr A476 sy'n cefnogi'r Rhaglen Llwybrau Diogel mewn Cymunedau a gwella ansawdd aer ar lwybrau preswyl presennol. Bydd asesiad llawn o'r effaith ar $NO^2$ yn y llwybrau cyfagos yn cael ei gynnal a'i gynnwys yn adroddiad cynnydd blynyddol 2024.

Ar ôl nodi clwstwr o foeleri biomas sy'n gweithredu yn ardal Llangennech, bydd gwaith monitro amgylchynol yn cael ei gynnal i wirio nad ydynt yn effeithio ar ansawdd aer lleol. Bydd rheoleiddio'r boeleri hefyd yn helpu i sicrhau bod terfynau allyriadau yn cael eu bodloni er mwyn lleihau effeithiau posibl.

## Casgliadau Eraill

Mae cryn dipyn o waith wedi'i wneud i greu, gwella a hyrwyddo opsiynau teithio cynaliadwy i drigolion ac ymwelwyr yn y Sir, boed hynny drwy gyllid grant neu drwy'r broses ddatblygu. Fodd bynnag, mae'n anodd dod i'r casgliad bod unrhyw ymyriad unigol yn unig wedi cael effaith gadarnhaol ar leihau lefelau nitrogen deuocsid yn ein sir. Mae'r dull partneriaeth cydweithredol a ddefnyddir gan wahanol wasanaethau yn allweddol i gyflawni unrhyw effeithiau, a chydnabyddir bod unrhyw enillion bach yn fuddiol ar y cyd o ran gwella ansawdd aer lleol.

Rhoddodd y Pandemig COVID19 hwb amserol tuag at gefnogi pobl i ymgymryd â gweithgareddau heb orfod teithio mewn car. O gyfleoedd i weithio gartref ac yn ystwyth i gael mynediad at wasanaethau yn ddigidol a chwrdd yn rhithwir, nid oes angen ystyried defnyddio'r car yn y lle cyntaf. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi defnyddio hwn fel cyfle i ymgysylltu'n well â thrigolion a busnesau i helpu i ddatblygu'r rhwydwaith teithio llesol a'r seilwaith i gefnogi'r newid hwn mewn ymddygiad teithio ymhellach, a helpu hynny i barhau y tu hwnt i'r pandemig.

Er nad oes unrhyw strategaeth ansawdd aer 'ffurfiol' yn bodoli, mae'r defnydd o ddogfen ganllaw Environmental Protection UK wedi cynyddu a chytunwyd ar ddiweddaru'r strategaeth ranbarthol a ddatblygwyd.

Er nad yw'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol bellach yn bodoli, mae nifer o'r elfennau a oedd yn rhan o'r cynllun wedi cael eu hymgorffori yn y Cydgynllun Trafnidiaeth ar gyfer De-orllewin Cymru, sy'n ymgorffori'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol. Datblygwyd hyn ar y cyd â'r awdurdodau lleol eraill ar draws y rhanbarth. Mae'r cynllun yn cydnabod yr effeithiau posibl oddi wrth ffynonellau trafnidiaeth ac mae'n cael ei adolygu wrth i fwy o ddata a gwybodaeth am ansawdd aer ar draws y rhanbarth yn dod ar gael.

Mae Strategaeth Feicio Sir Gaerfyrddin yn cyflwyno'r weledigaeth o fod yn Ganolbwynt Beicio Cymru.  Mae gwaith yn parhau i fynd rhagddo gyda gwelliannau i farchnata mwy o feicio yn Sir Gaerfyrddin, ac mae Felodrom Caerfyrddin a Chylchffordd Gaeedig Pen-bre yn ymddangos yn boblogaidd. Mae llwybrau beicio wedi'u mapio, mae mwy o fannau parcio beiciau wedi'u gosod ynghyd â nifer o orsafoedd atgyweirio beiciau. Mae gwaith yn parhau i gael ei wneud i wella llwybrau troed a beicio ar y cyd ac mae llwybr beicio Dyffryn Tywi hefyd yn parhau i fynd rhagddo.

Mae’r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) wedi cael ei fabwysiadu a'i ddiweddaru, gan gyfeirio'n benodol at ansawdd aer a'r angen i ystyried effeithiau datblygiadau ar ansawdd aer. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol hefyd yn cyfeirio at ganllawiau a pholisi cenedlaethol yn gysylltiedig ag ansawdd aer a gafodd eu hymgorffori o fewn polisïau cynllunio Cymru. Mae trafodaethau yn cael eu cynnal i ddiweddaru'r cynllun i ymgorffori'r canllawiau polisi diweddaraf a sicrhau bod effeithiau ar ansawdd aer yn cael eu lleihau.

Mae effeithiau Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands ar hyn o bryd o dan adolygiad yn sgil ei hagosatrwydd at Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac mae'r effaith bosibl o allyriadau cerbydau yn cael ei hasesu. Er nad yw'n hollol o fewn cylch gwaith Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol, er mwyn sicrhau dull gweithredu cyfannol ac ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru, ystyriwyd ei fod yn synhwyrol adrodd am ganlyniadau'r gwaith. Mae'r gwaith o fonitro $NO_2$ yn yr ardal yn parhau i mewn i 2023 a bydd yn cael ei gynnwys yn Adroddiad Cynnydd Blynyddol 2024.

## Camau Gweithredu Arfaethedig

Ni fu unrhyw ofyniad i gynnal asesiad/archwiliad pellach ar gyfer unrhyw lygrydd a nodwyd yn ystod y flwyddyn, ac nid oes angen datgan unrhyw Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer newydd. Nid oes angen newid ffiniau'r Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer hefyd gan ein bod wedi gweld gwelliant parhaus yn 2022 o gymharu â'r blynyddoedd cyn 2020. Nid oes unrhyw lwybrau neu ardaloedd ychwanegol wedi'u nodi fel safleoedd sy'n achosi pryder o bosib.

Er ein bod wedi gweld cynnydd cyffredinol mewn lefelau $NO_2$ ar gyfer 2021 o gymharu â 2020, mae canlyniadau 2022 wedi gostwng yn gyffredinol ac mae'n welliant parhaus o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol ac am y drydedd flwyddyn yn olynol nid ydym wedi gweld unrhyw achosion o fynd y tu hwnt i'r amcan ansawdd aer. Serch hynny, mae'n rhy gynnar i ystyried dirymu'r Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer ar hyn o bryd. Nid yw Llanelli a

Chaerfyrddin wedi cofnodi unrhyw ormodiant dros y tair blynedd diwethaf, ac nid yw Llandeilo wedi cael unrhyw ormodiant dros y pedair blynedd diwethaf, ac eto mae canlyniadau ar y ffin wedi'u cofnodi. Mae'n bwysig sicrhau bod y duedd am i lawr yn parhau ac na fydd ond yn adlewyrchu blwyddyn ddigynsail o ran newid mewn ymddygiad teithio. Yn ogystal, mae angen ystyried dylanwad y tywydd i sicrhau bod y gostyngiadau'n parhau er gwaetha'r newid yn y tywydd.

Bydd y gwaith monitro tiwbiau tryledu yn Llandeilo yn parhau a bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i ddatblygu astudiaeth trafnidiaeth Llandeilo a Ffair-fach a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, mewn ymgynghoriad â'r cyhoedd, i wella'r rhwydwaith priffyrdd ac ansawdd aer yn Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llandeilo. Bydd Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer Llandeilo hefyd yn cael ei adolygu yn ystod 2023 i gynnwys cynnydd yr opsiynau sydd wedi'u cynnwys yn yr astudiaeth hon a nodi unrhyw waith pellach sydd ei angen i wella ansawdd aer yn yr ardal hon. Gohiriwyd yr adolygiad hwn o 2020 o ganlyniad i oedi a achoswyd gan Bandemig COVID-19, gan ein bod am sicrhau nad yw unrhyw adolygiadau pellach yn llesteirio ond yn ategu'r gwaith sydd eisoes ar y gweill o dan Astudiaeth Trafnidiaeth Llandeilo, yn enwedig gan fod ansawdd aer yn amcan allweddol i'r gwaith hwn.

Bydd y gwaith monitro tiwbiau tryledu yn nhrefi Llanelli a Chaerfyrddin yn parhau ynghyd â'r cynnydd i fynd i'r afael â'r Cynlluniau Gweithredu gyda phartneriaid perthnasol. Mae llawer wedi newid ers i ni ymgynghori gyntaf ynghylch ein cynlluniau gweithredu ac yn dilyn y Pandemig. Felly, byddwn yn bwrw ymlaen â'r gwaith a nodwyd o dan ein Cynllun Cyflawni Ansawdd Aer, ac mae'r camau gweithredu i'w gweld yma, sy'n cwmpasu'r camau gweithredu sydd heb eu cyflawni yn ein Cynlluniau Gweithredu Ansawdd Aer a fabwysiadwyd ar gyfer Caerfyrddin, Llanelli a Llandeilo, ochr yn ochr â'r mesurau ychwanegol yn unol â blaenoriaethau allweddol eraill y Cyngor i wella ansawdd aer ar draws y Sir gyfan. Byddai camau gweithredu fel arfer yn blaenoriaethu gwella'r rhwydwaith trafnidiaeth i leihau tagfeydd. Fodd bynnag, mae camau gweithredu i helpu i annog teithio llesol a dewis dulliau teithio cynaliadwy hefyd wedi'u nodi fel rhai o bwysigrwydd neilltuol ar ôl Pandemig COVID-19, er mwyn annog newid dulliau teithio. Mae hyn yn arbennig o amlwg o'r gwelliannau mewn lefelau $NO_2$ a welwyd pan oedd llai o deithio yn ystod 2020.

Mae'r awdurdod, gan weithio mewn partneriaeth â gwasanaethau cyhoeddus eraill, wedi sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac mae'n gweithio ar y cyd â Sir Benfro a

Cheredigion i asesu a datblygu Cynlluniau Llesiant a fydd yn gweithio tuag at y saith nod llesiant a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd y gwaith Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol yn cael ei adrodd a gobeithir y bydd yn helpu i godi proffil effeithiau iechyd o ansawdd aer.

Bydd yr awdurdod yn parhau i wirio cydymffurfiaeth â'r amseroedd segura injan stêm yng ngorsaf Rheilffordd Gwili ym Mronwydd drwy ymweliadau heb rybudd. Mae yna gynlluniau i adleoli'r brif orsaf ar gyfer codi teithwyr yn Abergwili, Caerfyrddin. Mae'r platfform wedi'i leoli i'r de o Ysbyty Glangwili, ac nid oes unrhyw amlygiad perthnasol o fewn 15m. Bydd amseroedd segur yn parhau i gael eu cyfyngu i 15 munud.

Bydd gwaith yn dechrau tuag at gwblhau agweddau ar Adroddiad Cynnydd 2024 a bydd yr awdurdod yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a desg gymorth Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol i gyflawni gwelliannau i ansawdd aer.

# Cyfeiriadau


1. Gwefan Cyngor Sir Caerfyrddin ar Ansawdd Aer: https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/iechyd-yr-amgylchedd/ansawdd-aer/
2. Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer a ddatganwyd ar gyfer Sir Gaerfyrddin: https://uk-air.defra.gov.uk/aqma/local-authorities?la_id=395 http://aqma.defra.gov.uk/action-plans/14.11---llandeilo-aqma-action-plan.pdf
3. Mapiau Ffin Ardal Rheoli Ansawdd Aer; lle.gov.wales/map/airbornepollution
4. Climate Summaries, (Met Office Website) https://www.metoffice.gov.uk/research/climate/maps-and-data/summaries/index
5. Offeryn cyfrifo gostyngiad $NO_2$ gyda phellter (Gwefan Desg Gymorth Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol)
6. Offeryn Cyfrifo Canlyniadau Blynyddol (Gwefan Desg Gymorth Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol )
7. Pecyn Cymorth Allyriadau Biomas v7 (offeryn cyfrifo) (Gwefan Desg Gymorth Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol)
8. Offeryn Prosesu Tiwbiau Tryledu (Gwefan Desg Gymorth LAQM)
9. Taenlen Ffactorau Addasu Tuedd Tiwbiau Tryledu ar gyfer Medi 2023. https://laqm.defra.gov.uk/wp-content/uploads/2023/11/Database_Diffusion_Tube_Bias_Factors_v09_23-FINAL.xlsx v09-23_Final (Gwefan Desg Gymorth Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol)
10. Tiwbiau tryledu ar gyfer monitro $NO_2$ amgylchynol: Practical Guidance for Laboratories and Users (February 2008) (AEA Environment & Energy)
11. Crynodeb o Berfformiad Labordy mewn Cynllun Profi Hyfedredd AIR NO2 (Gorffennaf 2021 – Awst 2023). AIR-PT-Rounds 45 to 58 (July 2021 – August 2023) (gwefan Desg Gymorth Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol)
12. Summary of Tube Precision Results for $NO_2$ Diffusion Tube co-location studies 2020-2022 Precision and Accuracy (Gwefan Desg Gymorth Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol)
13. Local Air Quality Management Technical Guidance TG (09) – DEFRA (2009)
14. Local Air Quality Management Technical Guidance TG (22) – DEFRA (2022)
15. Defra UK Air Website for AURN Monitoring Networks
16. Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin (2014)
17. Cydgynllun Trafnidiaeth ar gyfer De-orllewin Cymru 2015 – 2020 (2015)
18. Cynllun Trafnidiaeth Leol Abertawe 2015-2020
19. Strategaeth Barcio Sir Gaerfyrddin 2018 Cyngor Sir Caerfyrddin
20. Mapiau rhwydwaith integredig Cyngor Sir Caerfyrddin

21. Strategaeth Feicio 2018 Cyngor Sir Caerfyrddin
22. Pecyn Cymorth Twristiaeth Feicio Cyngor Sir Caerfyrddin
23. Strategaeth Pryfed Peillio 2020 Cyngor Sir Caerfyrddin
24. Cynllun Llesiant 2018-2023 Cyngor Sir Caerfyrddin
25. Amcanion Llesiant 2019/20Cyngor Sir Caerfyrddin
26. Cynllun gweithredu carbon sero net Cyngor Sir Caerfyrddin
27. Strategaeth Gorfforaethol Sir Gaerfyrddin 2018-2023 (diwygiwyd Mehefin 2019)
    corporate-strategy-2022-27.pdf (llyw.cymru)
    Strategaeth Cerbydau Trydan 2022 Cyngor Sir Caerfyrddin
28. Canllawiau Polisi Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol Cymru LAQM PG 09(W) – Llywodraeth Cymru (2009)
29. Datblygu Llwybr Dyffryn Tywi: https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/busnes/datblygu-a-buddsoddiad/llwybr-dyffryn-tywi/
30. Trafnidiaeth Gymunedol Dolen Teifi: www.dolenteifi.org.uk/dolenteifi

# Atodiadau

Atodiad A: Canlyniadau Monitro Tiwbiau Tryledu Misol

Atodiad B: Crynodeb o Reoli Ansawdd yr Aer yn Lleol

Atodiad C: Sicrhau Ansawdd / Rheoli Ansawdd Data Monitro Ansawdd Aer

Atodiad D: Mapiau o Ffiniau Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer

# Atodiad A: Data Sicrhau Ansawdd / Rheoli Ansawdd

**Tabl A.1– Canlyniadau Tiwbiau Tryledu Misol Llawn ar gyfer 2022 (µg/m$^3$)**

| Cyfeirnod y Safle | Ionawr | Chwefror | Mawrth | Ebrill | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr | Data Crai | Wedi'i Addasu ar gyfer Tuedd (0.76) a'i Gyflwyno ar Ffurf Flynyddol (1) | Pellter wedi'i Gywiro i'r Amlygiad Agosaf (2) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **RHYDAMAN** | | | | | | | | | | | | | | | |
| Carm/089 | 36.6 | 20.8 | 30.7 | 21.4 | 16.2 | 15.2 | 17.8 | 19.4 | 22.9 | 18.2 | 25.4 | 27.7 | 22.7 | 17.2 | |
| Carm/064 | 39.8 | 28.3 | 26.1 | 27.4 | 21.5 | 21.1 | 20.7 | 20.0 | 22.3 | 25.1 | 31.4 | 31.2 | 26.2 | 19.9 | |
| Carm/090 | 38.1 | 33.7 | 26.8 | 27.9 | 25.4 | 24.9 | 22.4 | 20.7 | 23.2 | 29.1 | 32.6 | 31.7 | 28.0 | 21.3 | |
| **LLANELLI** | | | | | | | | | | | | | | | |
| DAL/14 | 39.1 | 30.0 | 27.0 | 24.4 | 19.3 | 20.4 | 18.6 | 20.0 | 21.8 | 21.5 | 29.7 | 27.6 | 25.0 | 19.0 | - |
| DAL/15 | 38.0 | 24.6 | 28.0 | 23.2 | 14.4 | 15.3 | 17.6 | 20.4 | 24.9 | 15.9 | 27.3 | 26.0 | 23.0 | 17.5 | - |
| Carm/077 | 58.9 | 50.3 | 51.3 | 43.4 | 41.8 | 40.5 | 34.0 | 41.6 | 35.8 | 42.5 | 50.2 | 43.3 | 44.5 | 33.8 | - |
| DAL/22 | 44.9 | 38.6 | 39.6 | 36.4 | 33.0 | 33.3 | 28.2 | 31.2 | 26.3 | 34.3 | 38.5 | 35.3 | 35.0 | 26.6 | - |
| DAL/26 | 36.3 | 21.6 | 34.6 | 24.6 | 15.3 | 14.1 | 15.8 | 20.6 | 23.0 | 17.5 | 25.4 | 28.2 | 23.1 | 17.5 | - |
| DAL/27 | 44.1 | 27.4 | 40.9 | 30.1 | 18.3 | 17.1 | 21.4 | 27.6 | 27.8 | 21.3 | 33.1 | 34.4 | 28.6 | 21.8 | - |
| DAL/16 | 33.2 | 23.7 | 28.1 | 20.7 | 15.4 | 17.5 | 15.1 | 16.9 | 17.9 | 18.4 | 24.2 | 19.5 | 20.9 | 15.9 | - |
| DAL/17 | 37.4 | 21.8 | 32.5 | 24.4 | 14.4 | 14.2 | 16.4 | 22.1 | 21.5 | 17.0 | 25.9 | 28.0 | 23.0 | 17.5 | - |
| Carm/141 | 39.4 | 30.4 | 26.7 | 26.4 | 22.4 | 24.8 | | 24.3 | 22.4 | | 34.2 | 31.4 | 28.2 | 21.5 | - |
| DAL/07 | 70.2 | | 50.4 | 45.0 | 41.1 | 41.7 | | 49.0 | 47.3 | 43.9 | 57.5 | 52.2 | 49.8 | 37.9 | 34.9 |
| DAL/23 | 35.7 | 19.3 | 34.0 | 21.8 | 15.3 | 16.5 | 16.8 | 20.5 | 21.1 | 22.1 | 29.0 | 31.6 | 23.6 | 18.0 | - |
| DAL/09 | 54.4 | | 37.4 | 42.7 | 40.5 | 45.2 | 35.7 | 42.0 | 39.3 | 40.4 | 47.5 | 25.7 | 41.0 | 31.1 | - |
| Carm/104 | 51.2 | | 45.7 | 38.8 | 27.2 | 25.7 | 31.0 | 37.7 | 34.9 | 33.6 | 38.4 | 43.8 | 37.1 | 28.2 | - |
| DAL/10 | 57.6 | 31.4 | | 37.9 | 24.9 | 29.6 | 29.8 | 37.6 | 33.6 | 29.1 | 38.0 | 44.7 | 35.8 | 27.2 | - |
| Carm/069 | 50.6 | 37.9 | 29.9 | 37.3 | 31.5 | 34.9 | 29.6 | 35.4 | 30.9 | 34.0 | 45.0 | 38.9 | 36.3 | 27.6 | - |

| Cyfeirnod y Safle | Ionawr | Chwefror | Mawrth | Ebrill | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr | Data Crai | Wedi'i Addasu ar gyfer Tuedd (0.76) a'i Gyflwyno ar Ffurf Flynyddol [(1)] | Pellter wedi'i Gywiro i'r Amlygiad Agosaf [(2)] |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DAL/12 | 49.8 | 30.5 | 41.5 | 28.8 | 22.7 | 22.8 | 21.0 | 26.6 | 29.6 | 27.8 | 38.9 | 38.5 | 31.5 | 24.0 | - |
| DAL/28 | 38.4 | 25.3 | 29.3 | 22.3 | 17.0 | 15.9 | 14.8 | 17.7 | 17.6 | 20.6 | 30.6 | 31.0 | 23.4 | 17.8 | - |
| DAL/04 | 44.1 | | 29.8 | 28.8 | 22.9 | 24.0 | 23.8 | 28.0 | 26.2 | 23.4 | 34.5 | 35.5 | 29.2 | 22.2 | - |
| Carm/114 | 53.8 | | 31.3 | 33.1 | 25.3 | 27.9 | 25.5 | 29.8 | 28.0 | 27.6 | 40.4 | 41.3 | 33.1 | 25.1 | - |
| Carm/113 | 42.4 | 31.7 | 35.5 | 34.3 | 29.1 | 31.3 | 29.4 | 34.0 | 30.6 | 30.2 | 35.8 | 31.8 | 33.0 | 25.1 | - |
| Carm/135 | 38.3 | 29.0 | 29.7 | 26.8 | 23.6 | 19.4 | 21.3 | 23.1 | 22.9 | 24.4 | 31.1 | 28.4 | 26.5 | 20.1 | - |
| TYL1 | 35.6 | 23.5 | 25.3 | 22.2 | 18.3 | 19.7 | 21.9 | 21.8 | 22.3 | 20.0 | 29.7 | 27.4 | 24.0 | 18.2 | - |
| TYL2 | | | | | | 14.1 | 14.9 | 15.4 | 17.2 | | 26.5 | 19.6 | 18.0 | 15.7 | - |
| TYL3 | 30.6 | 17.5 | | 21.1 | | | | | | | | | 23.1 | 13.6 | - |
| TYL4 | 35.6 | 16.4 | 29.0 | 19.2 | 12.5 | 11.7 | 16.1 | 18.4 | 19.7 | 16.5 | | 22.4 | 19.8 | 15.0 | - |
| TYL5 | 33.8 | 18.8 | 27.3 | 17.7 | 9.2 | 10.0 | 14.0 | 15.4 | 18.2 | 16.0 | 25.3 | 24.7 | 19.2 | 14.6 | |
| Carm/146 | 28.7 | | 28.9 | | 10.9 | 10.5 | 13.0 | 17.7 | | 13.7 | 20.4 | 19.8 | 18.2 | 13.8 | |
| **CAERFYRDDIN** | | | | | | | | | | | | | | | |
| DAC/06 | | 31.9 | 34.2 | 29.9 | 20.9 | 23.5 | 21.9 | 26.3 | 25.6 | 29.9 | 36.4 | 37.0 | 28.9 | 21.9 | - |
| DAC/13 | 46.9 | | 31.9 | 30.0 | 28.0 | 28.6 | 25.1 | 28.3 | 27.4 | 30.5 | 39.1 | 39.1 | 32.3 | 24.5 | - |
| Carm/109 | 47.5 | 36.1 | 37.8 | 34.7 | 26.9 | 28.7 | 25.2 | 31.1 | 29.4 | 32.7 | 44.7 | 46.2 | 35.1 | 26.7 | - |
| DAC/08 | 66.7 | | 50.5 | 52.5 | 41.1 | 45.2 | 48.7 | 55.1 | 50.5 | 48.3 | 59.1 | 59.4 | 52.5 | 39.9 | 37.6 |
| DAC/14 | 41.1 | 39.0 | 23.7 | 28.4 | 27.1 | 26.6 | 22.8 | 23.7 | 21.8 | 34.0 | 41.3 | 44.9 | 31.2 | 23.7 | - |
| DAC/15 | 31.7 | 31.8 | 25.6 | 24.7 | 23.4 | 24.0 | 20.5 | 20.3 | 21.7 | 19.1 | | 29.4 | 24.7 | 18.8 | - |
| Carm/111 | 37.8 | 30.8 | 29.9 | 28.1 | 24.2 | 23.6 | 22.1 | 25.2 | 25.7 | 30.7 | 35.4 | 36.9 | 29.2 | 22.2 | - |
| DAC/12 | 43.3 | 34.5 | 15.6 | 28.2 | 25.4 | 25.1 | 24.4 | 26.4 | 25.9 | 27.8 | 40.8 | 27.6 | 28.8 | 21.9 | - |
| DAC/04 | 31.6 | | 24.3 | 19.8 | | 15.1 | 17.1 | 17.0 | 19.9 | | | | 20.7 | 15.0 | - |
| Carm/072 | 38.1 | 36.4 | 28.8 | 27.6 | 23.6 | 25.7 | 23.5 | 23.9 | 24.6 | 33.1 | 39.3 | 30.9 | 29.6 | 22.5 | - |
| DAC/02 | 54.8 | 43.8 | 50.9 | 40.5 | 32.9 | 32.8 | 32.4 | 39.2 | 37.1 | 43.0 | 42.0 | 46.5 | 41.3 | 31.4 | - |

| Cyfeirnod y Safle | Ionawr | Chwefror | Mawrth | Ebrill | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr | Data Crai | Wedi'i Addasu ar gyfer Tuedd (0.76) a'i Gyflwyno ar Ffurf Flynyddol (1) | Pellter wedi'i Gywiro i'r Amlygiad Agosaf (2) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DAC/16 | 49.0 | 39.0 | 42.3 | 35.9 | 26.6 | 29.0 | 26.7 | 32.9 | 32.0 | 37.9 | 44.4 | 43.3 | 36.6 | 27.8 | - |
| Carm/001 | 45.2 | 31.7 | 32.2 | 28.7 | 20.3 | 21.3 | 21.5 | 27.2 | 24.1 | 26.7 | 37.2 | 36.9 | 29.4 | 22.4 | - |
| Carm/084 | 46.2 | 29.4 | | 30.2 | 22.4 | 22.8 | 23.9 | 29.0 | 32.1 | | 39.7 | 37.1 | 31.3 | 23.8 | - |
| DAC/05 | 46.0 | 36.3 | 39.4 | 30.8 | 27.2 | 29.4 | 25.0 | 25.3 | 30.9 | 34.3 | 39.5 | 37.2 | 33.4 | 25.4 | |
| Carm/106 | 49.5 | | 30.7 | 31.2 | 27.1 | 27.7 | 25.9 | 29.6 | 27.8 | 31.6 | 44.6 | 43.4 | 33.6 | 25.5 | |
| Carm/134 | 21.2 | 13.8 | 15.1 | 9.7 | 7.4 | 7.2 | 7.0 | 7.8 | 9.5 | 10.3 | 17.6 | 18.5 | 12.1 | 9.2 | |
| Carm/126 | | 23.5 | 25.1 | 21.3 | 16.3 | 17.0 | 17.9 | 20.1 | 19.1 | 20.1 | 27.2 | 27.5 | 21.4 | 16.2 | |
| Carm/132 | | | 20.6 | 15.7 | 11.7 | 11.8 | 12.0 | 15.3 | 13.3 | 14.4 | 17.2 | 21.9 | 15.4 | 11.7 | |
| **LLANDEILO** | | | | | | | | | | | | | | | |
| FA/01 | 22.3 | 13.2 | 16.6 | 13.6 | 11.5 | 13.1 | 13.5 | 14.6 | 13.7 | 14.5 | 19.7 | 19.1 | 15.5 | 11.7 | |
| DA/15 | 33.6 | 24.3 | 29.2 | 22.7 | 18.6 | 19.1 | 19.1 | 20.2 | 21.8 | 23.6 | 30.2 | 28.9 | 24.3 | 18.4 | |
| DA/01 | 30.6 | 23.9 | 25.0 | 20.7 | 15.8 | 16.7 | 16.4 | 18.7 | 18.8 | 18.6 | 23.1 | 26.3 | 21.2 | 16.1 | |
| DA/03 | 31.6 | 23.6 | 28.2 | 22.6 | 19.0 | 19.6 | 17.9 | 19.5 | 20.1 | 24.8 | 30.7 | 28.8 | 23.9 | 18.1 | |
| Carm/013 | 45.9 | 38.6 | 28.0 | 27.4 | 25.0 | 27.1 | 25.6 | 27.6 | 25.9 | 30.8 | 33.8 | 34.3 | 30.8 | 23.4 | |
| DA/05 (A), (B) ac (C) | 43.3 | 31.7 | | | | | | | 31.9 | 33.0 | 41.2 | 35.4 | 36.1 | 25.0 | |
| DA/07 | 45.3 | 35.1 | 39.1 | 36.5 | 29.8 | 30.3 | 30.1 | 36.4 | 34.1 | 34.7 | 43.2 | 37.5 | 36.0 | 27.4 | |
| Carm/083 | 51.5 | 32.7 | 48.6 | 42.2 | 32.4 | 31.1 | 32.5 | 42.9 | 38.5 | 26.7 | 43.1 | 28.2 | 37.5 | 28.5 | |
| DA/09 | 54.8 | 35.8 | 49.1 | 44.9 | 29.3 | 32.9 | 32.1 | 42.4 | 39.5 | 36.7 | 41.8 | 48.7 | 40.7 | 30.9 | |
| DA/10 | 55.5 | 35.9 | 43.8 | 38.9 | 28.0 | 27.0 | 32.6 | 37.9 | 37.2 | 35.2 | 39.5 | 43.3 | 37.9 | 28.8 | |
| DA/11 | | | | 36.0 | 31.0 | 31.4 | 25.7 | 33.0 | 31.6 | 31.9 | 39.1 | 38.8 | 33.2 | 25.2 | |
| DA/12 | 27.7 | 23.9 | 20.0 | 19.2 | 17.3 | 18.2 | 13.6 | 17.9 | 16.8 | 22.8 | 28.8 | | 20.6 | 15.6 | |
| DA/13 | 44.0 | 31.5 | 29.4 | 32.3 | 28.4 | 29.4 | 27.2 | 30.6 | 28.9 | 32.2 | 38.7 | 31.3 | 32.0 | 24.3 | |
| DA/14 | 36.0 | 26.8 | | 22.8 | 20.8 | 22.0 | 20.6 | 21.4 | 24.6 | 24.9 | 32.0 | 26.1 | 25.3 | 19.2 | |
| DA/16 | 42.6 | 34.5 | 27.9 | 31.5 | 27.2 | 25.9 | 28.3 | 28.4 | 28.1 | 27.6 | 29.8 | 34.1 | 30.5 | 23.2 | |

| Cyfeirnod y Safle | Ionawr | Chwefror | Mawrth | Ebrill | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr | Data Crai | Wedi'i Addasu ar gyfer Tuedd (0.76) a'i Gyflwyno ar Ffurf Flynyddol (1) | Pellter wedi'i Gywiro i'r Amlygiad Agosaf (2) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **PORTH TYWYN** | | | | | | | | | | | | | | | |
| Carm/127 | 22.2 | 10.9 | 16.6 | 12.2 | 8.2 | 6.9 | 8.4 | 9.3 | 8.2 | 9.5 | 14.4 | 17.5 | 12.0 | 9.1 | |
| Carm/128 | 25.2 | | 18.5 | 16.6 | 12.4 | 12.3 | 11.6 | 14.6 | 10.7 | 11.9 | 19.4 | 19.8 | 15.7 | 12.0 | |
| **LLANGENNECH** | | | | | | | | | | | | | | | |
| LLG2 | 31.9 | 24.8 | 25.7 | 19.3 | 13.3 | 14.8 | 15.5 | 16.5 | 17.4 | 17.9 | 24.4 | 26.6 | 20.7 | 15.7 | |
| LLG3 | 30.1 | 18.7 | 27.5 | 18.1 | 11.1 | 12.4 | 13.3 | 15.2 | 16.2 | 15.2 | 20.5 | 26.5 | 18.7 | 14.2 | |
| **FFORDD GYSWLLT ECONOMAIDD CROSS HANDS** | | | | | | | | | | | | | | | |
| Carm/ELR1 | | | 37.2 | 32.3 | 29.6 | 32.8 | 30.4 | 33.3 | 32.9 | 33.3 | 41.3 | 32.7 | 33.6 | 25.5 | |
| Carm/ELR2 | 34.5 | 18.7 | 26.6 | 21.6 | 18.3 | 19.3 | 20.1 | 21.8 | 20.8 | 21.7 | 27.1 | 23.3 | 22.8 | 17.3 | |
| Carm / ELR3 | 31.6 | | 20.4 | 16.6 | 13.2 | 12.5 | 14.0 | 14.8 | 15.5 | 17.0 | 21.5 | 22.6 | 18.2 | 13.8 | |
| Carm/ELR4 | 26.6 | | 18.7 | | | | | | | | | | - | - | |
| Carm/ELR6 | 14.9 | 10.8 | 9.6 | 8.3 | | | | | | | | | 10.9 | 6.1 | |
| Carm/ELR7 | 12.6 | 10.4 | 8.3 | 7.4 | | | | | | | | | 9.7 | 5.4 | |
| Carm/ELR8 | 10.4 | 9.0 | 8.4 | 6.4 | | | | | | | | | 8.6 | 4.8 | |
| Carm/ELR9 | 14.9 | 8.4 | 8.8 | 6.4 | 5.0 | 4.6 | 6.2 | 4.8 | 5.2 | 6.2 | 11.1 | 9.1 | 7.6 | 5.7 | |
| ELR/10(B) | 24.3 | | 15.7 | 12.1 | 9.7 | 8.4 | 8.9 | 11.7 | 12.1 | 11.1 | 19.6 | 18.8 | 13.9 | 10.5 | |
| Carm/ELR11 | 21.3 | | 13.7 | | | 8.0 | 6.8 | 6.1 | 8.3 | 10.1 | 15.1 | 14.0 | 11.5 | 8.7 | |
| Carm/ELR12 | 21.1 | 15.7 | 13.6 | 10.0 | 9.5 | 8.1 | 10.0 | 7.3 | 8.0 | 10.2 | 18.1 | 14.0 | 12.1 | 9.2 | |
| Carm/ELR16 | | | 7.4 | 4.2 | | | | | | | | | | | |
| Carm/ELR19 | | 8.0 | 6.8 | 4.1 | 3.8 | 3.1 | 3.4 | 2.6 | 3.9 | 4.2 | 9.6 | 9.4 | 5.4 | 4.1 | |
| Carm/ELR20 | | 7.6 | 7.7 | 4.0 | 3.9 | 3.3 | 3.9 | 2.6 | 3.3 | 5.2 | 10.7 | 8.4 | 5.5 | 4.2 | |
| Carm/ELR21 | 18.3 | | | 7.9 | 6.9 | 6.5 | 7.1 | 6.6 | 7.1 | 8.4 | 13.3 | 12.2 | 9.4 | 7.2 | |
| Carm/ELR22 | 27.8 | | 18.0 | 14.3 | 12.9 | 13.2 | 12.8 | 12.9 | 13.8 | 12.9 | 24.9 | 19.7 | 16.7 | 12.7 | |
| **FFAIR-FACH** | | | | | | | | | | | | | | | |
| FA/04(A) | 19.6 | | 12.1 | 11.8 | 10.7 | 11.6 | 11.5 | 11.9 | 10.6 | 10.8 | 16.9 | 15.1 | 13.0 | 9.9 | |
| FA/06(A) | 22.7 | | 18.1 | | 11.6 | 10.7 | 13.5 | 13.8 | 13.3 | | 17.2 | 18.0 | 15.4 | 11.7 | |
| FA/03(A) | 29.7 | | 29.6 | 21.8 | 15.9 | 18.1 | 17.5 | 20.8 | 20.8 | 18.2 | 23.6 | 23.7 | 21.8 | 16.6 | |

| Cyfeirnod y Safle | Ionawr | Chwefror | Mawrth | Ebrill | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr | Data Crai | Wedi'i Addasu ar gyfer Tuedd (0.76) a'i Gyflwyno ar Ffurf Flynyddol (1) | Pellter wedi'i Gywiro i'r Amlygiad Agosaf (2) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| FA/07(A) | 13.8 | | 9.8 | | 6.2 | 6.5 | 7.3 | 7.1 | 6.6 | 6.4 | | | 8.0 | 6.5 | |
| **SAFLEOEDD SGRINIO NEWYDD** | | | | | | | | | | | | | | | |
| TYL6 | 24.3 | | 16.0 | 10.5 | 7.4 | 6.9 | 8.0 | 9.7 | 9.3 | 9.2 | 17.3 | 19.2 | 12.5 | 9.5 | |
| LLG4 | 22.5 | 13.4 | 16.2 | 11.1 | 6.6 | 6.4 | 8.6 | 8.1 | 7.7 | 8.0 | 17.1 | 17.5 | 11.9 | 9.1 | |
| LLG5 | 18.1 | 8.7 | 11.2 | 8.8 | 5.0 | 4.8 | 8.0 | 6.9 | 5.8 | 5.4 | 13.1 | 12.8 | 9.1 | 6.9 | |
| Carm/147 | | | | | | | | | 5.1 | 4.9 | 10.5 | 10.8 | 7.8 | 6.1 | |
| LAN/1 | 17.7 | 10.4 | 14.3 | 12.7 | 9.3 | 7.5 | 9.1 | 9.8 | 9.4 | 8.7 | 13.2 | 14.1 | 11.4 | 8.6 | |
| LAN/2 | 19.6 | | 16.3 | 14.0 | 11.2 | 9.6 | 11.8 | 16.0 | 11.2 | 8.5 | 15.8 | 11.6 | 13.2 | 10.1 | |
| LAN/3 | 16.6 | | 12.2 | 11.2 | 8.8 | 8.0 | 8.8 | 10.8 | 8.8 | 7.2 | 14.1 | 14.6 | 11.0 | 8.4 | |
| LAN/4 | | | | 12.3 | 9.3 | 8.4 | 9.7 | 10.4 | 8.6 | 9.2 | 13.3 | 14.8 | 10.7 | 8.1 | |

**Nodiadau:**

Dangosir gormodiant o'r amcan cymedr blynyddol NO2 o 40µg/m3 mewn **print trwm.**

Dangosir cymedr blynyddol $NO_2$ sy'n fwy na 60µg/$m^3$, sy'n arwydd o ormodiant posibl o'r amcan cymedr un awr $NO_2$, mewn **<u>print trwm ac wedi'i danlinellu.</u>**

(1) Gweler Atodiad C i gael manylion am addasu ar gyfer tuedd a chyflwyno canlyniadau ar ffurf flynyddol.

(2) Pellter wedi'i gywiro i'r amlygiad cyhoeddus perthnasol agosaf

# Atodiad B: Crynodeb o Reoli Ansawdd yr Aer yn Lleol

## Diben Adroddiad Cynnydd Blynyddol

Mae'r adroddiad hwn yn ateb gofynion y broses Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol a nodir yn Neddf yr Amgylchedd 1995, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd 2021, a chanllawiau cysylltiedig y llywodraeth. Mae'r broses Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol yn gosod rhwymedigaeth ar bob awdurdod lleol i adolygu ac asesu ansawdd aer yn ei ardal yn rheolaidd ac i bennu a yw'r amcanion ansawdd aer yn cael eu cyflawni ai peidio. Lle ceir gormodiant, neu lle mae hynny'n debygol, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ddatgan Ardal Rheoli Ansawdd Aer a pharatoi Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer cyn pen 18 mis ar ôl y datganiad sy'n nodi'r mesurau y mae'n bwriadu eu rhoi ar waith wrth fynd ar drywydd yr amcanion. Yna rhaid adolygu a diweddaru cynlluniau gweithredu heb fod yn hwyrach na bob pum mlynedd; neu os yw awdurdod lleol o'r farn bod angen cymryd mesurau pellach neu wahanol er mwyn cyflawni safonau ansawdd aer; neu os bydd newidiadau sylweddol i ffynonellau yn digwydd yn eich ardal leol.

Ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru, mae Adroddiad Cynnydd Blynyddol yn cymryd lle pob gofyniad adrodd ffurfiol arall ac mae ganddo ddiben clir iawn o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cyhoedd ynghylch ansawdd aer, gan gynnwys pa gamau gweithredu parhaus sy'n cael eu cymryd yn lleol i'w wella os oes angen.

## Amcanion Ansawdd Aer

Mae'r amcanion ansawdd aer sy'n berthnasol i'r broses Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol yng Nghymru yn cael eu nodi yn Rheoliadau Ansawdd Aer (Cymru) 2000, Rhif 1940 (Cymru 138), a Rheoliadau Ansawdd Aer (Diwygio) (Cymru) 2002, Rhif 3182 (Cymru 298), ac maent yn cael eu dangos yn Tabl B. 1.

Mae'r tabl hwn yn dangos yr amcanion mewn microgramau fesul metr ciwbig $\mu g/m^3$ (miligramau fesul metr ciwbig, $mg/m^3$ ar gyfer carbon monocsid) gyda nifer yr achosion o ormodiant ym mhob blwyddyn a ganiateir (lle bo hynny'n berthnasol).

**Tabl B. 1 - Amcanion Ansawdd Aer sydd wedi'u Cynnwys yn y Rheoliadau at Ddiben Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol yng Nghymru**

| Llygrydd | Amcan Ansawdd Aer: Crynodiad | Amcan Ansawdd Aer: Wedi'i fesur fel | Dyddiad cyflawni |
|---|---|---|---|
| **Nitrogen Deuocsid ($NO_2$)** | 200µg/m$^3$ – ni ddylid mynd y tu hwnt i'r crynodiad hwn fwy na 18 o weithiau mewn blwyddyn | Cymedr 1 awr | 31.12.2005 |
| **Nitrogen Deuocsid ($NO_2$)** | 40µg/m$^3$ | Cymedr blynyddol | 31.12.2005 |
| **Deunydd Gronynnol ($PM_{10}$)** | 50µg/m$^3$ – ni ddylid mynd y tu hwnt i'r crynodiad hwn fwy na 35 o weithiau mewn blwyddyn | Cymedr 24 awr | 31.12.2010 |
| **Deunydd Gronynnol ($PM_{10}$)** | 40µg/m$^3$ | Cymedr blynyddol | 31.12.2010 |
| **Sylffwr deuocsid ($SO_2$)** | 350µg/m$^3$ – ni ddylid mynd y tu hwnt i'r crynodiad hwn fwy na 24 o weithiau mewn blwyddyn | Cymedr 1 awr | 31.12.2004 |
| **Sylffwr deuocsid ($SO_2$)** | 125µg/m$^3$ – ni ddylid mynd y tu hwnt i'r crynodiad hwn fwy na 3 o weithiau mewn blwyddyn | Cymedr 24 awr | 31.12.2004 |
| **Sylffwr deuocsid ($SO_2$)** | 266µg/m$^3$ – ni ddylid mynd y tu hwnt i'r crynodiad hwn fwy na 35 o weithiau mewn blwyddyn | Cymedr 15 munud | 31.12.2005 |
| **Bensen** | 16.25µg/m$^3$ | Cymedr blynyddol rhedegog | 31.12.2003 |
| **Bensen** | 5µg/m$^3$ | Cymedr blynyddol | 31 12 2010 |
| **1,3-biwtadïen** | 2.25µg/m$^3$ | Cymedr blynyddol rhedegog | 31.12.2003 |
| **Carbon Monocsid** | 10.0mg/m$^3$ | Uchafswm cymedr 8 awr rhedegog dyddiol | 31.12.2003 |
| **Plwm** | 0.25µg/m$^3$ | Cymedr Blynyddol | 31.12.2008 |

# Atodiad C: Sicrhau Ansawdd / Rheoli Ansawdd Data Monitro Ansawdd Aer

## Sicrhau Ansawdd / Rheoli Ansawdd Monitro Tiwbiau Tryledu

### Monitro Tiwbiau Tryledu $NO_2$

Cwblhawyd y gwaith monitro yn unol â Chalendr Monitro Tiwbiau Tryledu 2022, a ddarperir ar wefan LAQM. Oherwydd nifer y tiwbiau tryledu sydd wedi'u lleoli ar draws y Sir, nid yw'n ymarferol casglu a newid y tiwbiau ar yr un diwrnod, fodd bynnag, cânt eu casglu a'u newid o fewn 1-2 ddiwrnod i'r dyddiadau calendr a awgrymir i sicrhau y gellir adrodd am y cyfnod amlygiad. Ni chafwyd dargyfeiriadau o hyn yn ystod 2022 ar gyfer y canlyniadau a gofnodwyd.

Mae SOCOTEC Didcot yn paratoi ac yn dadansoddi'r tiwbiau tryledu ar ran Cyngor Sir Caerfyrddin. Mae'r tiwbiau yn cael eu paratoi drwy gymysgu aseton: triethanolamin (50:50) ar y gridiau cyn bod y tiwbiau'n cael eu rhoi at ei gilydd. Cafodd y tiwbiau eu datsugno gyda dŵr distyll a dadansoddwyd yr hyn ddaeth ohonynt gan ddefnyddio dadansoddwr llif awtomatig â chanfyddiad uwchfioled.

Mae'r dadansoddiad o samplau tiwbiau tryledu i bennu faint o nitrogen deuocsid sy'n bresennol ar y tiwb o fewn cwmpas eu hatodlen achredu UKAS. Yn y cynllun rhyng-gymharu PT AIR ar gyfer cymharu tiwbiau tryledu Nitrogen Deuocsid a gymysgwyd, SOCOTEC sydd â'r gradd uchaf ar y pryd sef labordy **Boddhaol.**

**Trachywiredd y Tiwbiau**

Mae SOCOTEC Didcot yn defnyddio dull paratoi o 50% TEA mewn aseton, a chynhaliodd 29 astudiaeth yn 2022 ar gyfer y dull hwn, a chafodd pob un eu graddio â chanlyniadau trachywiredd 'Da' ar gyfer astudiaethau cyd-leoli tiwbiau tryledu o Nitrogen Deuocsid ac ni chafodd un ei raddio â chanlyniad 'gwael'. Mae trachywiredd y tiwbiau yn cael ei raddio'n dda pan mae cyfernod amrywiad wyth neu fwy o gyfnodau ailadrodd tiwbiau tryledu yn llai nag 20% a bod cyfartaledd y cyfernod amrywiad ar gyfer pob cyfnod monitro yn llai na 10%. Ni chafodd dim un o'u hastudiaethau eu graddio'n rhai trachywiredd ‘gwael’. Mae'r gwahaniaeth rhwng trachywiredd "da" a "gwael" yn dangos pa mor dda y gellir ail-greu'r un mesuriad. Bydd y trachywiredd hwn yn adlewyrchu perfformiad/cysondeb y labordy wrth baratoi a dadansoddi'r tiwbiau, yn ogystal â'r ffordd ddilynol o drin y tiwbiau yn y maes.

Cafwyd y wybodaeth hon o dudalen we Desg Gymorth Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol Defra ar Gywirdeb Asesu Ansawdd Aer.

**Canlyniadau Profi Hyfedredd AIR**

Mae AIR yn gynllun profi hyfedredd dadansoddol annibynnol, a weithredir gan LGC Standards ac sy'n cael ei gefnogi gan y Labordy Iechyd a Diogelwch. Mae AIR yn cynnig nifer o samplau prawf sydd wedi'u cynllunio i brofi hyfedredd labordai sy'n ymgymryd â'r gwaith o ddadansoddi llygryddion cemegol mewn aer amgylchynol dan do, mewn staciau ac yn y gweithle.

Dechreuodd Profi Hyfedredd AIR ym mis Ebrill 2014, a oedd yn cyfuno dau gynllun Profi Hyfedredd hirdymor: Cynllun *LGC Standards STACKS PT* a chynllun *HSL WASP PT.* Mae profi hyfedredd $NO_2$ AIR yn rhan hanfodol o sicrhau ansawdd / rheoli ansawdd Rhwydwaith $NO_2$ y DU, ac mae'n declyn defnyddiol ar gyfer asesu perfformiad dadansoddol y labordai hynny sy'n darparu tiwbiau tryledu i awdurdodau lleol i'w defnyddio o fewn cyd-destun Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol.

Mae'r canlyniadau isod yn Nhabl C1 ar gyfer SOCOTEC, Didcot [1].

**Tabl C.1– Cylchoedd Profi Hyfedredd AIR**

| Rownd Profi Hyfedredd AIR | Profi Hyfedredd AIR AR045 | Profi Hyfedredd AIR AR046 | Profi Hyfedredd AIR AR049 | Profi Hyfedredd AIR AR050 | Profi Hyfedredd AIR AR052 | Profi Hyfedredd AIR AR053 | Profi Hyfedredd AIR AR055 | Profi Hyfedredd AIR AR056 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rownd a gynhaliwyd yn y cyfnod** | Gorffennaf – Awst 2021 | Medi – Hydref 2021 | Ionawr – Chwefror 2022 | Mai – Mehefin 2022 | Gorffennaf – Awst 2022 | Medi – Hydref 2022 | Ionawr – Chwefror 2022 | Mai - Mehefin 2022 |
| **SOCOTEC** [1] | 100 % [1] | 100 % [1] | 100 % [1] | 100 % [1] | 100 % [1] | 100 % [1] | 100 % [1] | 100 % [1] |

[1] Mae'r cyfranogwr yn tanysgrifio i ddwy set o samplau prawf (2 X 4 sampl prawf) ym mhob rownd profi hyfedredd AIR.

Cafwyd y manylion uchod o'r ddogfen ‘2022 LAQM NO2 Performance data up to August 2023_v1' sydd wedi'i lleoli ar wefan Desg Gymorth Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol Defra.


**Data Blynyddol Tiwb Tryledu**

Mae angen data blynyddol ar gyfer unrhyw safle y mae'r data ar ei gyfer yn llai na 75% ond yn fwy na 25%. Casglodd naw o safleoedd Tiwbiau Tryledu $NO_2$ lai na 75% o ddata dilys yn ystod blwyddyn galendr 2022, ac felly roedd angen addasiad i gyfrifo'r data tymor

byr yn ddata tymor hir.  Wrth ddefnyddio'r dull a ddarperir yng Nghanllawiau Technegol TG (22), mae'n bosibl amcangyfrif yr hyn y gallai'r crynodiad cymedr blynyddol fod wedi bod petai gwerth 12 mis o ddata wedi'i gasglu ar gyfer y safle tiwb. Cyflawnwyd hyn trwy offeryn prosesu Tiwb Tryledu LAQM sy'n cwmpasu methodoleg offeryn prosesu data Tiwbiau Tryledu LAQM (v.2). Defnyddiwyd data 2022 o ddau safle monitro awtomatig mewn lleoliadau eraill yn y sir, gan gymryd cyfartaledd o'r data a chael ffigur cymhareb i'w ddefnyddio gyda'r safleoedd sy'n cael eu hadolygu. Y safleoedd a ddefnyddiwyd ar gyfer yr ymarfer hwn oedd Arberth a Chwmbrân. Mae rhagor o fanylion am y dull cyfrifo yn Tabl C.3

Roedd yr holl safleoedd a oedd yn destun profi blynyddol yn cydymffurfio â'r Amcan Ansawdd Aer a gellir gweld cymhariaeth o'r canlyniadau yn y graff isod:

**Ffigur 22 : Cymharu canlyniadau nad ydynt yn flynyddol a chanlyniadau blynyddol**




Dangosodd yr ymarfer cyfrifo canlyniadau blynyddol fod angen gwneud mân ddiwygiadau i'r canlyniadau terfynol hyn i adlewyrchu cymedr blynyddol mwy cynrychioliadol, pe bai gwerth 12 mis o ddata dilys wedi'i gasglu. Nid oedd yr un o'r safleoedd tiwb y mae angen dangos eu canlyniadau ar ffurf flynyddol yn fwy na'r amcan ansawdd aer blynyddol o 40µg/m$^3$. Mae rhai gwahaniaethau bach a dibwys rhwng y darlleniadau blynyddol a nodwyd gan yr ymarferion cyfrifo canlyniadau blynyddol gan ddefnyddio'r data monitro awtomatig AURN cefndirol, gan fod y canlyniadau i gyd o fewn 1-2µg/m$^3$ o'r data crai nad oedd yn rhan o'r canlyniadau blynyddol. Mae'r canlyniadau terfynol blynyddol ac addasu tuedd wedi cael eu defnyddio i adrodd o fewn yr Adroddiad Cynnydd Blynyddol hwn ac

wedi'u nodi yn Tabl 2.3 – Canlyniadau Monitro Tiwb Tryledu $NO_2$ Cymedrig Blynyddol (µg/m$^3$)

### Ffactorau Addasu Tuedd Tiwbiau Tryledu

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cymhwyso ffactor addasu tuedd cenedlaethol o 0.76 i ddata monitro 2022. Mae crynodeb o'r ffactorau addasu tuedd a ddefnyddiwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin dros y pum mlynedd diwethaf yn cael ei gyflwyno yn Tabl C.2.

Defnyddiwyd y ffactor addasu tuedd cenedlaethol am nad oes astudiaeth cyd-leoli wedi'i gynnal yn lleol. 09/23 (terfynol) yw fersiwn ddiweddaraf taenlen addasu tuedd y tiwb, fel y manylir ar wefan Desg Gymorth Adolygu ac Asesu. Mae 29 o astudiaethau SOCOTEC wedi'u rhestru ar gyfer y flwyddyn 2022, sy'n rhoi ffigur addasu tuedd cyffredinol o 0.76 ar gyfer 2022. Mae'r ffigur addasu tuedd hwn wedi'i gymhwyso i'r holl ganlyniadau monitro tiwbiau tryledu yn Sir Gaerfyrddin.

Nid yw Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cynnal astudiaeth cyd-leoli i gael ffactor lleol.

### Tabl C.2 – Ffactor Addasu Tuedd

| Blwyddyn | Lleol neu Genedlaethol | Os Cenedlaethol, Fersiwn o Daenlen Genedlaethol | Ffactor Addasu |
|---|---|---|---|
| 2022 | Cenedlaethol | 09/23 | 0.76 |
| 2021 | Cenedlaethol | 09/22 | 0.77 |
| 2020 | Cenedlaethol | 09/21 | 0.76 |
| 2019 | Cenedlaethol | 09/20 | 0.75 |
| 2018 | Cenedlaethol | 09/19 | 0.77 |

### Gostyngiad $NO_2$ gyda Phellter o'r Ffordd

Roedd angen cywiro pellter dau leoliad monitro tiwbiau tryledu $NO_2$ yn Sir Gaerfyrddin yn ystod 2022, oherwydd bod y crynodiad cymedr blynyddol yn fwy na 36µg/m$^3$ ac nid yw'r safle monitro wedi'i leoli mewn man lle mae amlygiad perthnasol. Defnyddiwyd yr Offeryn Prosesu Tiwb Tryledu i gyfrifo'r cywiriad pellter a chyflwynir y canlyniad yn Tabl C.4 isod.

**Tabl C.3 – Crynodeb Data Blynyddol (crynodiadau wedi'u cyflwyno yn μg/m$^3$)**

| Cyfeirnod y Safle | Ffactor Data Blynyddol Arberth | Ffactor Data Blynyddol Cwmbrân | Ffactor Data Blynyddol Cyfartalog | Cymedr Blynyddol Data Crai | Cymedr Blynyddol ar Ffurf Flynyddol | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| TYL2 | 1.1922 | 1.1079 | 1.1501 | 18.0 | 20.6 | |
| TYL3 | 0.7499 | 0.8037 | 0.7768 | 23.1 | 17.9 | |
| DAC/04 | 0.9267 | 0.9862 | 0.9564 | 20.7 | 19.8 | |
| DA/05 (A), (B) ac (C) | 0.9776 | 0.8431 | 0.9103 | 36.1 | 32.8 | |
| Carm/ELR6 | 0.7104 | 0.7567 | 0.7336 | 10.9 | 8.0 | |
| Carm/ELR7 | 0.7104 | 0.7567 | 0.7336 | 9.7 | 7.1 | |
| Carm/ELR8 | 0.7104 | 0.7567 | 0.7336 | 8.6 | 6.3 | |
| FA/07(A) | 1.0732 | 1.0773 | 1.0753 | 8.0 | 8.6 | |
| Carm/147 | 1.1286 | 0.9241 | 1.0263 | 7.8 | 8.0 | |
| | | | | | | |

**Tabl C.4 – Cyfrifiadau Gostyngiad $NO_2$ gyda Phellter (crynodiadau wedi cyflwyno yn µg/m³)**


| Cyfeirnod y Safle | Pellter (m): O'r Safle Monitro i Ymyl y Palmant | Pellter (m): O'r Derbynnydd i Ymyl y Palmant | Crynodiad wedi'i Fonitro (Blynyddol ac wedi'i addasu ar gyfer Tuedd) | Crynodiad Cefndir | Crynodiad a ragwelir yn y Derbynnydd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| DAL/07 | 0.8 | 1.3 | 37.9 | 7.8 | 34.9 | |
| DAC/08 | 1.1 | 1.5 | 39.9 | 7.6 | *37.6* | *Crynodiad sydd wedi'i ragfynegi yn y derbynnydd sydd o fewn 10% o'r amcan ansawdd aer.* |

# Atodiad D: Mapiau o Ffiniau Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer


**Ffigur D. 1 – Map o Ffiniau Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llandeilo**



**Ffigur D.2 – Map o Ffiniau Ardal Rheoli Ansawdd Aer Caerfyrddin**



**Ffigur D.3 – Map o Ffiniau Ardal Rheoli Ansawdd Aer Caerfyrddin**



# Rhestr Termau

| Talfyriad | Disgrifiad |
|---|---|
| AQAP | Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer – Disgrifiad manwl o fesurau, canlyniadau, dyddiadau cyflawni a dulliau gweithredu, yn dangos sut mae'r awdurdod lleol yn bwriadu bodloni gwerthoedd ansawdd aer |
| AQMA | Ardal Rheoli Ansawdd Aer - Ardal lle mae crynodiadau llygryddion aer yn uwch na / yn debygol o fod yn uwch na'r amcanion ansawdd aer perthnasol. Mae Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer yn cael eu datgan ar gyfer llygryddion ac amcanion penodol |
| AQO | Amcan Ansawdd Aer |
| Adroddiad Perfformiad Blynyddol | Adroddiad Cynnydd Blynyddol Ansawdd Aer |
| AURN | Rhwydwaith Trefol a Gwledig Awtomatig (rhwydwaith monitro ansawdd aer y DU) |
| DEFRA | Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig |
| DMRB | Llawlyfr Dylunio ar gyfer Ffyrdd a Phontydd – Offeryn sgrinio ansawdd aer a grëwyd gan Briffyrdd Lloegr |
| cerbyd trydan | Cerbyd Trydan |
| LAQM | Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol |
| CDLl | Cynllun Datblygu Lleol |
| $NO_2$ | Nitrogen deuocsid |
| $NO_x$ | Nitrogen Ocsid |
| $PM_{10}$ | Deunydd gronynnol yn yr aer gyda diamedr aeroddynamig o 10µm (micrometrau neu ficronau) neu lai |
| $PM_{2.5}$ | Deunydd gronynnol yn yr aer gyda diamedr aeroddynamig o 2.5µm neu lai |
| Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | Bwrdd Diogelwch Cyhoeddus |
| QA/QC | Sicrhau ansawdd a rheoli ansawdd |

| | |
|---|---|
| $SO_2$ | Sylffwr deuocsid |
| Cerbydau Allyriadau Isel Iawn | Cerbyd Allyriadau Isel Iawn |